ystadegau ar gyfer cymru
statistics for wales

NODAU DATBLYGU CYNALIADWY

Llywodraeth Cymru
Welsh Government


# Llesiant Cymru

2017-18







© Hawlfraint y Goron 2018
WG35357 ISBN digidol 978-1-78937-687-6

## Cyswllt

Glyn Jones

Prif Ystadegydd

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 0300 025 6691

Ebost: desg.ystadegau@llyw.cymru

SDR 78/2018

© Hawlfraint y Goron 2018

Mae’r holl gynnwys ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni nodir yn wahanol.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r Nodau Datblygu Cynaliadwy

## Cynnwys

Cyflwyniad ........ 2
Cymru lewyrchus ........ 8
Cymru gydnerth ........ 20
Cymru iachach ........ 36
Cymru sy’n fwy cyfartal ........ 49
Cymru o gymunedau cydlynus ........ 78
Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu ........ 90
Cymru sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang ........ 101
Cefndir ........ 111
Atodiad A: Y dangosyddion cenedlaethol a’r 7 nod llesiant ........ 116
Atodiad B: Y dangosyddion cenedlaethol a Nodau Datblygu Cynaliadwy CU ........ 119

# Llesiant Cymru 2017-18

## Rhagair gan y Prif Ystadegydd


Yr adroddiad hwn yw’r diweddariad cyntaf i adroddiad Llesiant Cymru, a gyhoeddwyd am y tro cyntaf ym mis Medi 2017. Mae'n cynnwys y data diweddaraf, rhywfaint o ddata newydd, naratif wedi'i ddiweddaru a, lle bo'n briodol, yn adrodd ar y cynnydd dros y flwyddyn ddiwethaf.

Fel y flwyddyn gyntaf, mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno darlun cymysg o ran cynnydd yn erbyn y nodau. Nid yw hynny'n syndod o gofio'r amrywiaeth enfawr o bynciau a setiau data sy'n cael sylw yn yr adroddiad. Ceir meysydd hefyd lle disgwylir cynnydd dros y tymor hir, ac ni fyddem yn disgwyl gweld cynnydd cyflym fesul blwyddyn ar gyfer rhai dangosyddion.

Mae'r canlyniadau'n gwella mewn nifer o feysydd, ond ceir anghydraddoldeb o hyd mewn meysydd eraill ar draws grwpiau poblogaeth. Rydym yn sylwi ar rai meysydd lle mae'r data diweddaraf yn awgrymu o bosib bod y cynnydd wedi pallu yn y tymor byr, a meysydd sydd wedi aros yn weddol gyson dros y tymor hir. Rydym wedi ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng dadansoddi cynnydd tymor byr ac ystyried tueddiadau tymor hir.

Mae'r ffactorau sy'n ymwneud â llesiant unigol yn gymhleth ac yn gysylltiedig â'i gilydd. Yn yr adroddiad hwn rydym wedi ceisio creu cysylltiadau rhwng y nodau, ond eleni rydym hefyd wedi ehangu'r naratif ynghylch llesiant gwrthrychol a chydlyniant cymunedol, gan ddefnyddio dadansoddiad ystadegol Arolwg Cenedlaethol Cymru, er mwyn adnabod y ffactorau sydd bwysicaf i lesiant pobl.

Mae'r adroddiad hwn yn asesu cynnydd yn erbyn y nodau cenedlaethol ar draws Cymru gyfan. **Nid yw'n adroddiad am berfformiad unrhyw sefydliad, ond yn hytrach am y newidiadau rydym yn eu gweld gyda'n gilydd ar draws Cymru.**




Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd sy'n cael ei wneud yng Nghymru tuag at gyflawni'r 7 nod llesiant. Mae'n ystyried y sefyllfa bresennol a'r cynnydd dros y blynyddoedd diwethaf drwy gyfeirio at 46 dangosydd cenedlaethol Cymru a rhywfaint o gyd-destun ychwanegol lle bo'n briodol.

Gosodwyd y 7 nod llesiant er mwyn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Cytunodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru arnynt yn 2015, ac maent wedi'u gosod yn y gyfraith dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i adrodd yn flynyddol ar y cynnydd yn erbyn y nodau (yr adroddiad hwn).

Mae'r adroddiad yn dangos y canlynol:

- Mae disgwyliad oes wedi bod yn cynyddu dros y tymor hir ond yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r cynnydd hwnnw wedi arafu, a hyd yn oed stopio. Mae’r cyfnod a dreulir mewn iechyd da wedi bod yn cynyddu, ond mae anghydraddoldeb yn parhau ar draws y gwahanol grwpiau.
- Yn gyffredinol, mae un o bob deg person yn dilyn llai na dau ymddygiad iach o ran eu ffordd o fyw, ac ychydig o newid a welwyd yn unrhyw un o'r pum prif ymddygiad iach dros y flwyddyn ddiwethaf.
- Gwelwyd cynnydd da dros y tymor canolig mewn meysydd fel bwydo ar y fron ac iechyd deintyddol, ond mae gordewdra ymysg plant yn parhau i fod yn her, ac wedi cynyddu dros y flwyddyn ddiwethaf.
- Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae perfformiad cyffredinol marchnad lafur Cymru wedi parhau i fod yn gryf, gyda bylchau rhwng cyfraddau cyflogaeth ac anweithgarwch Cymru a'r DU yn parhau i fod yn isel mewn termau hanesyddol. Fel sy'n wir am economi'r DU yn ehangach, mae twf cyflogau wedi parhau i fod yn wan o gymharu â'r tuedd tymor hir.
- Mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau wedi parhau i leihau, ac mae bellach ar y lefel isaf ar gofnod yng Nghymru. Ond mae ein dangosydd yn dynodi bod benywod yn llai debyg na gwrywod i fod mewn gwaith o ansawdd da. Mae bwlch sylweddol o hyd mewn canlyniadau cyflogaeth i bobl anabl.
- Mae cyrhaeddiad addysgol yn parhau i godi, ac mae mwy o bobl ifanc mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn parhau i fod yn un o'r prif resymau dros anghydraddoldebau ar gyfer rhai canlyniadau fel cyrhaeddiad addysgol.
- Mae tlodi incwm cymharol wedi parhau'n gyson ers dros ddegawd, ac mae ar ei uchaf ymysg plant. Amcangyfrifir bod llai o bobl mewn amddifadedd materol na tlodi incwm cymharol.
- Mae'r dangosyddion cydlyniant cymunedol yn weddol newydd, felly ychydig o newid sydd i'w weld hyd yma. Mae synnwyr pobl o gymuned a pherthyn yn dibynnu ar amrywiol ffactorau, er bod yr holl ddangosyddion yn gysylltiedig â statws economaidd-gymdeithasol neu amddifadedd. Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o bobl yn fodlon gyda'r ardal lle maent yn byw, er bod bron i un o bob pump yn teimlo'n unig.
- Er gwaetha rhywfaint o gynnydd, mae pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yn parhau i fod heb gynrychiolaeth ddigonol mewn gwleidyddiaeth. Mae hil yn parhau i fod yn elfen sy'n ysgogi bron i dri chwarter yr holl droseddau casineb, ac mae nifer yr achosion o droseddau yn ymwneud â hil sy'n cael eu cofnodi yn cynyddu.
- Mae nifer o oedolion yn mynychu a chymryd rhan mewn digwyddiadau diwylliannol a chwaraeon ond mae hyn yn amrywio gyda oed a chefndir. Er bod newid i ffynhonnell y data, mae'r tueddiadau ar gyfer y ddau wedi bod yn codi.
- Mae un o bob pump yn siarad Cymraeg a mae hyn wedi bod yn gyson dros blynyddoedd diweddar, er bod cynnydd yn nifer y rhai sy'n siarad “ychydig o eiriau”. Mae'r defnydd o'r iaith wedi aros yn gyson.
- Er bod allyriadau nwyon tŷ gwydr yn gostwng yn y tymor hir, mae'r data diweddaraf yn dangos cynnydd mewn allyriadau yn 2016 o gymharu â 2015. Mae llygredd aer yn parhau i fod yn fater iechyd sylweddol.

- Gwelwyd cynnydd o ran cynhyrchu ynni adnewyddadwy, gan gynnwys dros y flwyddyn ddiwethaf. Ond mae ein hôl troed ecolegol yn awgrymu bod ein prif adnoddau naturiol yn cael eu defnyddio'n gynt nag y gellir eu hailgyflenwi.
- Er bod y dystiolaeth ddiweddaraf yn dangos rhai tueddiadau cadarnhaol mewn perthynas ag amgylchedd Cymru, mae'r asesiad cynhwysfawr diwethaf o adnoddau naturiol Cymru yn dangos bod amrywiaeth biolegol yn dirywio'n gyffredinol, ac nid oes modd dweud bod gan unrhyw ecosystem yng Nghymru yr holl nodweddion sydd eu hangen i wrthsefyll hyn.

**Diweddariad 2017-18**

Cafodd data'r dangosyddion cenedlaethol eu diweddaru'n gyson ar wefan Llesiant Cymru wrth i ystadegau newydd gael eu rhyddhau dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r diweddariad hwn yn ymgorffori'r data newydd i'r naratif. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, data diweddaraf Arolwg Cenedlaethol Cymru a'r ystadegau economaidd diweddaraf. Rydym hefyd wedi cynnwys rhagor o fanylion mewn rhai meysydd, neu wedi ychwanegu dadansoddiad cyd-destunol ychwanegol (er enghraifft ar ddulliau cymudo). Yn y naratif, rydym wedi cyfeirio at ffynhonnell y data ar gyfer dadansoddiad cyd-destunol. Fodd bynnag, lle bo'r data yn seiliedig ar ddangosyddion cenedlaethol nid ydym wedi darparu cyfeiriad.

Ein nod o'r cychwyn oedd darparu golwg hirdymor ar y cynnydd yn erbyn y nodau, ac rydym wedi ceisio atgyfnerthu hynny drwy gydbwyso ffocws ar y newid dros y flwyddyn gyda'r tueddiadau hirdymor. Mewn nifer o achosion, mae'n rhy gynnar o hyd i edrych ar y cynnydd, gan mai nifer fach o bwyntiau data sy'n bodoli (er enghraifft ar nifer o'r dangosyddion sy'n seiliedig ar Arolwg Cenedlaethol Cymru). Ar gyfer eraill (eto yn bennaf yn nhermau amcangyfrifon seiliedig ar arolwg) dylem fod yn ofalus cyn dod i gasgliad ar dueddiadau yn seiliedig ar newid bach dros flwyddyn.

Mewn nifer o feysydd nid oes newid i'r naratif ers yr adroddiad cyntaf, naill ai gan nad yw'r cyd-destun yn gyffredinol wedi newid, neu nad oes data newydd yn bodoli (megis rhywfaint o'r data am yr amgylchedd, neu ddata'r Cyfrifiad ar siaradwyr Cymraeg).

**Plant**

Mewn ymateb i'r adborth a ddaeth i law wrth ymgynghori ar y dangosyddion cenedlaethol, dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi bod yn gweithio gyda chydweithwyr ym Mhrifysgol Caerdydd i ddefnyddio'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion i ddatblygu ein dadansoddiad o lesiant plant mewn meysydd fel unigrwydd a chanfyddiad am ddiogelwch. Mae adroddiad eleni felly yn cynnwys dadansoddiad ychwanegol ar lesiant plant yn seiliedig ar y ffynhonnell hon, yn ogystal ag Astudiaeth Carfan y Mileniwm a ffynonellau eraill fel data ar blant mewn aelwydydd di-waith o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ac asesiad sylfaenol y Cyfnod Sylfaen.

Rydym wedi rhoi crynodeb o'r canfyddiadau allweddol hynny mewn sleidiau ac wedi defnyddio'r rhannau perthnasol o'r adroddiad mewn dogfen ar wahân, sef "Llesiant Cymru 2017-18: beth wyddom ni am lesiant plant?”

Dyma’r prif ganfyddiadau ar gyfer plant:

- Gwelwyd gwelliannau hirdymor o ran dechrau iach i fywyd, gyda nifer y babanod pwysau geni isel yn gostwng, gwelliannau mewn iechyd deintyddol a mwy yn bwydo ar y fron dros y degawd diwethaf. Mae’r nifer o blant ifanc sydd wedi derbyn brechlyn yn dal i fod yn uchel ac yn gyson.

- Mae data newydd asesiadau ar fynediad i’r Cyfnod Sylfaen yn dangos sut mae plant wedi datblygu cyn dechrau yn yr ysgol.

- Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol uwchradd, mae llesiant plant a'u hadroddiadau eu hunain am eu hiechyd a'u ffyrdd o fyw, yn newid yn syfrdanol. Yn 11 oed, mae adroddiadau merched a bechgyn am eu llesiant a'u hiechyd yn weddol debyg, ond erbyn cyrraedd 16 oed, mae bwlch wedi dod i'r amlwg, gyda'r merched yn dweud nad yw eu llesiant na'u hiechyd gystal.

- Mae’r cyfraddau smygu ac yfed wedi gostwng yn sylweddol dros y blynyddoedd ymysg y rheini sy’n 11-16 oed. Fodd bynnag, mae nifer y plant sy’n iach o ran eu ffordd o fyw yn gostwng yn sylweddol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol uwchradd.

- Mae astudiaethau Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn dangos bod perthynas rhwng profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a chanlyniadau hirdymor negyddol.

- Plant yw'r grŵp mwyaf tebygol o fod mewn tlodi incwm cymharol, gyda'r data diweddaraf yn dangos bod 28 y cant yn byw mewn tlodi incwm. Mae hyn wedi syrthio dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

- Mae llai o blant yn byw mewn aelwydydd heb waith, gyda’r nifer wedi syrthio dros y flwyddyn ddiwethaf a dros y tymor canolig.

- Mae cyrhaeddiad ysgolion cynradd ac uwchradd wedi codi dros y blynyddoedd diwethaf, er bod rhywfaint o amrywiad rhwng grwpiau economaidd-gymdeithasol.

- Mae nifer y bobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant ar ôl oedran addysg orfodol wedi codi dros y blynyddoedd diwethaf.

- Mae presenoldeb a chyfranogiad mewn digwyddiadau celfyddydol wedi cynyddu dros y degawd diwethaf.

- Gwelir y cyfraddau uchaf o allu i siarad Cymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg ymysg plant, er nad yw hyn yn cael ei gynnal ar ôl oedran addysg orfodol. Mae'r ganran sy'n siarad Cymraeg yn y cartref wedi sefydlogi dros y blynyddoedd diwethaf.

- Mae un o bob tri o ddisgyblion ysgol uwchradd yn teimlo’n unig o leiaf rywfaint o’r amser. Mae ffigurau ar gyfer Cymru yn debyg i rhannau arall o’r DU, ond mae merched yn fwy tebygol o deimlo'n unig na bechgyn.

- Mae un o bob deg disgybl ysgol uwchradd yn cael ei fwlio'n wythnosol, ac mae'r ffigurau hyn yn gymharol uchel yn y DU.

**Cymru mewn cyd-destun byd-eang**

Gellir defnyddio'r adroddiad hwn hefyd i ystyried cyfraniad Cymru tuag at Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig , sy'n ceisio rhoi sylw i heriau argyfyngus byd-eang.

Lansiwyd yr adroddiad am y tro cyntaf ym mis Medi 2017. Mae dyfais ryngweithiol ar gael i edrych ar bob un o'r 7 nod llesiant a'r dangosyddion sy'n adrodd hanes y cynnydd. Gallwch hefyd ei ddefnyddio i edrych ar bob un o'r 17 o Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig, a gweld pa rai o'n dangosyddion cenedlaethol sy'n dangos cynnydd yn erbyn y nodau hynny. Maent hefyd ar gael fel tabl yn Atodiad B yr adroddiad hwn.

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol sy'n gyfrifol am adrodd data'r DU ar y dangosyddion cenedlaethol a ddatblygwyd gan y Cenhedloedd Unedig i fonitro cynnydd yn erbyn y Nodau Datblygu Cynaliadwy. Gellir gweld eu hadroddiadau a'r wybodaeth ddiweddaraf ar https://www.ons.gov.uk/aboutus/whatwedo/programmesandprojects/sustainabledevelopmentgoals

**Strwythur yr adroddiad**

Adnodd ar-lein yw’r adroddiad llawn, yn rhoi hanes y cynnydd tuag at y nodau a data ar gyfer y dangosyddion cenedlaethol. Nid yw’r adroddiad yn ceisio darparu dadansoddiad llawn o’r dangosyddion gan fod nifer ohonynt yn cael eu dadansoddi yn fanwl drwy ein cyhoeddiadau ystadegol rheolaidd a welir ar dudalennau Ystadegau ac Ymchwil Llywodraeth Cymru.

Ceir rhestr lawn o’r dangosyddion cenedlaethol yn Atodiad A.

Mae'r adroddiad yn cynnwys y canlynol:

- adroddiad cynnydd yn erbyn pob un o'r 7 nod llesiant a welir yn Ffigur 1, gan ddefnyddio data yn ymwneud â dangosyddion cenedlaethol perthnasol a gwybodaeth gyd-destunol ychwanegol lle bo'n briodol. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys yr adroddiadau hynny.

- disgrifiad a siart o'r tueddiadau diweddar yn erbyn pob un o 46 dangosydd cenedlaethol Cymru, gan ddarparu dolenni at y ffynonellau data. Dim ond drwy dudalennau Llesiant Cymru ar-lein y mae'r rhain ar gael.

- rhagor o wybodaeth am y nodau llesiant a'r dangosyddion cenedlaethol, gan gynnwys dolenni at wybodaeth ynghylch ansawdd y data. Ceir rhywfaint o gefndir yn adran cefndir yr adroddiad hwn.

Mae'r adroddiad yn cynnwys rhywfaint o ddadansoddiad o'r dangosyddion cenedlaethol yn ôl cefndir economaidd-gymdeithasol, oedran neu grwpiau cydraddoldeb eraill. Fodd bynnag, mae'n bosibl dadansoddi'r dangosyddion yn fanylach byth. Felly mae adroddiadau ar-lein y 46 dangosydd cenedlaethol hefyd yn darparu dolenni at adroddiadau manylach am y dangosyddion hyn drwy Ddatganiadau Ystadegol neu Fwletinau a gynhyrchir gan Lywodraeth Cymru neu adrannau eraill.

**StatsCymru**

Mae'r data a ddefnyddiwyd i fesur y dangosyddion cenedlaethol ar gael yn bennaf ar wefan StatsCymru, gyda rhagor o fanylion yn ôl ardal ddaearyddol neu grŵp poblogaeth lle bynnag y bo'n bosib.

**Adborth**

Rydym am sicrhau bod ein ffordd o adrodd yn erbyn y nodau llesiant mor effeithiol â phosib, ac fe fyddwn yn ystyried y gwersi a ddysgwyd yn ystod yr ail flwyddyn o adrodd dros y misoedd nesaf. Dros y flwyddyn ddiwethaf, cynhaliwyd arolwg defnyddwyr i edrych ar yr adroddiad cyntaf, a ddangosodd bod defnyddwyr yn fodlon ar y cyfan â'r fformat a'r cynnwys. Fodd bynnag, rydym yn croesawu adborth ar unrhyw adeg ar gynnwys neu ymarferoldeb yr adroddiad. Os oes gennych unrhyw sylwadau, mae'r manylion cyswllt i'w gweld ar ddechrau'r adroddiad hwn.

**Cydnabyddiaethau**

Mae rhai o’r data ar lesiant pobl ifanc yn adroddiad eleni wedi dod o arolwg 2017/18 Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (SHRN) / Ymddygiadau Iechyd Plant Oedran Ysgol (HBSC). Mae SHRN yn bartneriaeth rhwng Prifysgol Caerdydd, Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Ymchwil Canser y DU ac arweiniwyd gan Y Ganolfan Datblygu a Gwerthuso Ymyriadau Cymhleth er mwyn Gwella Iechyd y Cyhoedd (DECIPHer). Gyda chefnogaeth y bartneriaeth, mae SHRN wedi gweithio gydag ysgolion uwchradd ledled Cymru i sefydlu isadeiledd data iechyd a llesiant pobl ifanc ac rydyn ni yn ddiolchgar am fewnbwn ysgolion, staff a phlant a gyfrannodd i arolwg SHRN/HSBC. Hoffem ni hefyd ddiolch i Gwyther Rees am ei gyfraniad yn darparu dadansoddiad a chyngor yn ymwneud ag Astudiaeth Carfan y Mileniwm. Mae Gwyther Rees wedi gwneud y gwaith hwn fel ymchwilydd llawrydd. Mae ganddo brofiad sylweddol o ymchwil ym maes llesiant plant ac mae’n Gymrawd Ymchwil Anrhydeddus ym Mhrifysgol Caerdydd ac yn Gymrawd Ymchwil Cysylltiol ym Mhrifysgol Efrog.

**Glyn Jones**

**Y Prif Ystadegydd**

# Cymru lewyrchus

**Y nod:** Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy’n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy’n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy’n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.

**Awdur: Mark Pont, Llywodraeth Cymru**

**Beth ydym ni wedi ei ddysgu o’r data yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?**

Mae nifer o dueddiadau sy’n cael eu dynodi gan ddangosyddion economaidd yn newid yn araf dros amser yn unig; mae’r newidiadau tymor byr ymddangosol yn rhai dros dro yn aml, neu maent yn adlewyrchu anwadalrwydd data ar gyfer Cymru.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae perfformiad y farchnad lafur yng Nghymru wedi parhau i fod yn gadarn. Mae’r bylchau mewn cyfraddau cyflogaeth ac anweithgarwch rhwng Cymru a’r DU yn dal i fod yn isel yn hanesyddol, yn ogystal ag yn is na’r bylchau a welwyd cyn datganoli.  Fodd bynnag, mae twf cyflogau wedi parhau i fod yn wan o gymharu â’r duedd tymor hir, sy’n gyffredin ag economi'r DU yn ehangach.

Mae’r diwygiadau a wnaed i ddata blaenorol yn golygu bod y duedd mewn incwm cartrefi yng Nghymru, o gymharu â’r DU gyfan, wedi bod yn disgyn rhywfaint yn ystod y blynyddoedd diweddar. Mae’r ffigurau diweddaraf yn dangos bod incwm gwario pob person ar gyfartaledd yng Nghymru tua 80 y cant o werth cyffredinol y DU.

Mae’r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yng Nghymru wedi parhau i leihau ac wedi lleihau’n gynt nag y mae wedi yn y DU yn ei chyfanrwydd. Mae’r bwlch yng Nghymru yn is nag erioed o’r blaen erbyn hyn.

Mae Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) y pen, sy’n adlewyrchu cynhyrchiant yn rhannol, yn parhau i fod yn is yng Nghymru nag yn un ar ddeg rhanbarth Lloegr a gwledydd eraill y DU. Mae hyn er gwaethaf y pedwerydd cynnydd mwyaf mewn GVA y pen rhwng 1999 a 2016, a’r ail gynnydd mwyaf yn y DU rhwng 2015 a 2016.

Mae’r ffigurau diweddaraf yn dangos cynnydd parhaus yng nghyfran y bobl ifanc sydd mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.

Mae lefelau cymwysterau oedolion yn parhau i godi. Nid oes modd cymharu data newydd disgyblion ysgol â blynyddoedd blaenorol, lle gwelwyd cynnydd sefydlog mewn perfformiad ar ddiwedd cyfnod gorfodol yn yr ysgol.

Ychydig iawn y mae'r cyfraddau tlodi cymharol wedi newid yn ystod y blynyddoedd diweddar, ond maent yn is nag yr oeddent yn y 1990au ac yn ystod degawd cyntaf y ganrif hon.

Mae'r economi'n gymhleth ac yn newid yn barhaus. Er mwyn deall beth sy'n digwydd, mae'n rhaid edrych ar nifer o ddangosyddion a chanolbwyntio mwy ar dueddiadau nag ar newidiadau tymor byr, sydd yn aml iawn yn rhai dros dro.


Mae beth sy'n digwydd i'r economi yng Nghymru'n dibynnu'n rhannol ar beth sy'n digwydd i'r economi ledled gweddill y DU a'r byd yn ehangach, yn arbennig yn ystod y tymor byr. Fodd bynnag, mae'r hyn rydym yn ei wneud yma yng Nghymru yn bwysig iawn o ran perfformiad yr economi a'r cynnydd tuag at economi carbon isel ac effeithlon yn amgylcheddol yn y tymor hir.

**Mae incwm y pen yng Nghymru wedi bod yn cynyddu ychydig yn arafach nag y mae yn y DU yn ei chyfanrwydd yn ystod y tymor canolig**

Incwm Gwario Gros Aelwydydd (GDHI) y pen yw'r dangosydd gorau ar gyfer incwm pobl.

Roedd y ffigurau ar gyfer y flwyddyn ddiweddaraf o ddata yn 2016 yn eithaf cyson ar gyfer Cymru, ac ers datganoli yn 1999, yng Nghymru y gwelwyd y trydydd cynnydd lleiaf yng nghanran yr incwm y pen allan o 12 rhanbarth Lloegr a gwledydd y DU. Roedd wedi codi 58.8 y cant cyn caniatáu ar gyfer chwyddiant, o gymharu â chynnydd o 67.4 y cant ar draws y DU drwyddi draw. Yn y flwyddyn ddiweddaraf, sef 2016, roedd Cymru yn y 10fed safle ar gyfer y dangosydd hwn, uwch ben Gogledd Iwerddon a Gogledd-ddwyrain Lloegr[1]. Mae GDHI y pen wedi bod yn codi'n araf iawn mewn termau real (hynny yw, ar ôl caniatáu ar gyfer chwyddiant) ers dirwasgiad 2008 ledled Cymru a'r DU yn ei chyfanrwydd.

**1.01 Incwm Gwario Gros Aelwydydd y pen yng Nghymru, 1999 i 2016**




Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol

[1] Newidiwyd mesur Cyfrifon Gwladol GDHI y DU yn ddiweddar er mwyn cyd-fynd â diffiniad y Comisiwn Ewropeaidd o incwm gwladol gros. Yn benodol, nid yw sefydliadau di-elw sy'n gwasanaethu aelwydydd (NPISH) a oedd yn arfer cael eu cynnwys yn y mesur GDHI, yn cael eu cynnwys mwyach. Mae'r newid hwn wedi cael ei roi ar waith ar gyfer yr ôl-gyfres lawn. Yr effaith a gaiff hyn ar Gymru a'r rhan fwyaf o wledydd a rhanbarthau eraill y DU yw gostwng yr amcangyfrifon GDHI o gymharu â'r amcangyfrifon blaenorol. O'r herwydd, nid oes modd cymharu'r ffigurau yn yr adroddiad hwn yn uniongyrchol a'r rheini yn Adroddiad blaenorol Llesiant Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2017, ac a oedd yn cynnwys data GDHI hyd at 2015.

Mae'r cynnydd araf mewn incwm yng Nghymru ac yn y DU ers y dirwasgiad yn adlewyrchu arafiad hollol newydd mewn twf cynhyrchiant - neu mewn geiriau eraill, twf yng ngwerth y nwyddau a'r gwasanaethau sy'n cael eu cynhyrchu gan bob gweithiwr. Mae'r arafu hwn wedi bod yn amlwg, i wahanol raddau, ar draws gwledydd datblygedig, ac nid yw'r rhesymau dros hyn yn amlwg. Fodd bynnag, ledled y DU, gan gynnwys Cymru, mae twf economaidd wedi bod yn arafach nag y mae wedi bod yn y rhan fwyaf o wledydd eraill datblygedig dros y blynyddoedd diwethaf.

Os na fydd twf cynhyrchiant yn gwella, bydd ffyniant Cymru yn y dyfodol dan fygythiad, fel y mae ledled y DU gyfan. Dros y tymor hwy, dim ond twf cynhyrchiant all arwain at lefelau incwm uwch a rhagor o adnoddau ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, fel y mae pobl yn dymuno ei weld.

Wrth gwrs, nid incwm gwaith cyflog neu fudd-daliadau yw'r unig beth sy'n mesur ffyniant. Wrth edrych yn ehangach ar gyfoeth, er enghraifft, mae Cymru'n perfformio'n well pan gaiff ei chymharu â rhannau eraill o Brydain Fawr, yn bennaf oherwydd bod rhagor yn berchen ar eu cartrefi[2].

**Nid yw Cymru'n perfformio cystal ar GVA o gymharu â dangosyddion eraill**

Mae Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) y pen yn mesur gwerth nwyddau a gwasanaethau sy'n cael eu cynhyrchu yng Nghymru ar gyfartaledd o gymharu â nifer y bobl sy'n byw yng Nghymru. Yn hanesyddol, mae lefelau is o GVA y pen wedi bod yng Nghymru nag mewn rhannau eraill o'r DU. Fodd bynnag, profodd Cymru'r pedwerydd cynnydd mwyaf o ran canran Gwerth Ychwanegol Gros y pen allan o 12 rhanbarth Lloegr a gwledydd y DU rhwng 1999 a 2016. Roedd wedi cynyddu 68.6 y cant cyn caniatáu ar gyfer chwyddiant, o gymharu â chynnydd o 69.2 y cant yn y DU[3]. Hefyd gwelodd Cymru y cynnydd mwyaf ond un yn y DU rhwng 2015 a 2016.

Serch hynny, mae Cymru'n dal i fod ar waelod rhestr o wledydd a rhanbarthau'r DU ar gyfer y dangosydd hwn. Mae hyn yn bennaf yn adlewyrchu lefel gymharol isel o gynhyrchiant. Mae Cymru'n wynebu her benodol o ran perfformio'n dda ar gyfer cynhyrchiant. Yn ôl ymchwil, pan fydd pethau eraill yn gyfartal, mae cynhyrchiant yn dueddol o fod yn uwch yn y dinasoedd mawr a gerllaw y dinasoedd hynny. Cyfran gymharol fach o boblogaeth Cymru sy'n byw mewn dinasoedd mawr neu gerllaw y dinasoedd hynny. Mae ffigurau allgymudo net yn cael effaith negyddol ar fesur GVA y pen yng Nghymru hefyd. Mae hyn er gwaethaf y ffaith fod trigolion Cymru'n ennill yr incwm o'r GVA y maent yn ei gynhyrchu yn Lloegr. Mae'r dystiolaeth[4] yn nodi bod allgymudwyr yn ennill cyflogau uwch na'r cyfartaledd.

Mae data rhyngwladol hefyd yn dangos bod Cymru'n cymharu'n well â rhanbarthau eraill yn Ewrop o ran dangosyddion incwm nag y mae o ran GVA. Fodd bynnag, mae'r ffaith fod angen trosi'r dangosyddion yn arian cyfred cyffredin yn cymhlethu cymariaethau o'r fath. Dros amser, mae newidiadau mawr ym mherfformiad cymharol y DU wedi deillio o'r dulliau a ddefnyddiwyd i wneud hyn. Mae hyn wedi effeithio ar holl wledydd a rhanbarthau'r DU, gan gynnwys Cymru.

[2] Wealth in Great Britain, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Home ownership & renting: demographics, Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin
[3] Regional Gross Value Added, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
[4] Y Sylfaen Drethu Gymreig, Risgiau a Chyfleoedd ar ôl Datganoli Cyllidol, Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Meddwl am syniadau newydd a ffyrdd gwell o wneud pethau yw un o'r ffyrdd pwysicaf y gallwn ni wella cynhyrchiant dros y tymor hir. Mae data am arloesi'n dangos bod cyfran y busnesau yng Nghymru a oedd yn ymwneud â gwaith arloesi yn 2014-16 (46 y cant) yn is na'r ffigur ar gyfer y DU yn ei chyfanrwydd (50 y cant)[5]. Gostyngodd y gyfran ar gyfer Cymru a phob un heblaw am un o wledydd a rhanbarthau eraill y DU o 2012-14. Roedd hyn oherwydd dirywiad mewn gwaith arloesi gan fusnesau bach a chanolig. Mae gwariant ar ymchwil a datblygu yng Nghymru'n parhau i fod yn gymharol isel o gymharu â nifer o rannau eraill o'r DU[6].


**Mae'r gyfradd cyflogaeth yng Nghymru wedi parhau i godi**

Mae gwaith yn bwysig ar gyfer sawl agwedd o ran llesiant - nid yn unig mae'n ffynhonnell o incwm, mae hefyd yn hyrwyddo rhyngweithio cymdeithasol ac iechyd meddyliol a chorfforol. Gan edrych yn benodol ar y flwyddyn ddiwethaf, mae perfformiad y farchnad lafur yng Nghymru wedi parhau i fod yn gadarn. Mae'r bylchau mewn cyfraddau cyflogaeth ac anweithgarwch rhwng Cymru a'r DU yn dal i fod yn isel yn hanesyddol, yn ogystal ag yn is na'r bylchau a welwyd cyn datganoli.

Mae'r ffigurau yn dangos gwelliant mawr yng nghyfradd cyflogaeth Cymru yn ystod y cyfnod ers datganoli. Mae'r gyfradd cyflogaeth o 74.8 y cant yn ystod y cyfnod o fis Mai i fis Gorffennaf 2018 0.7 pwynt canran yn is na'r ffigur ar gyfer y DU, ac mae'n debyg i nifer o ranbarthau yng ngogledd a chanolbarth Lloegr. Yn ystod rhan olaf y 1990au, roedd y bwlch yn y DU yn llawer mwy, ac roedd perfformiad Cymru'n llawer gwaeth na'r rhan fwyaf o ranbarthau Lloegr.

[5] UK Innovation Survey, yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol
[6] Mae'r dangosyddion hyn yn anwadal, felly nid yw'n dyfynnu union ffigurau. Mae'r ffigurau diweddaraf ar gael yn UK business enterprise research and development

**1.02 Cyfradd cyflogaeth ar gyfer y boblogaeth 16 i 64 mlwydd oed, 1999 i 2018**





Ffynhonnell: Arolwg o'r Llafurlu, Swyddfa Ystadegau Gwladol

Yr un fath â gweddill y DU, mae cyfraddau cyflogaeth yng Nghymru yn is ymysg merched na dynion – 70.6 y cant i ferched a 78.9 y cant i ddynion ym mis Gorffennaf 2018[7]. Mae cyfradd anweithgarwch economaidd yn uwch i ferched (26.7 y cant) na dynion (17.6 y cant)[8]. Mae'r gwahaniaeth mewn cyfraddau cyflogaeth a chyfraddau anweithgarwch rhwng dynion a merched yn llai yng Nghymru nag yn y DU yn ei chyfanrwydd. Mae'r amcangyfrifon o gyfraddau diweithdra yn fyw anwadal, gan ddangos cyfradd is ymysg merched na dynion weithiau, ond uwch weithiau; yn y DU gyfan maent yn eithaf cyfartal.

Ar gyfer plant, mae cysylltiad cryf rhwng y tebygolrwydd o fod mewn tlodi incwm cymharol â statws cyflogaeth oedolion y cartref. Yng Nghymru roedd 12.6 y cant o blant yn byw mewn cartrefi heb waith yn 2017 o gymharu â 10.9 y cant o blant yn y DU. Gwelwyd lleihad ers 2016 (13.9 y cant) yng Nghymru, a gostyngiad sylweddol o uchafbwynt o 20.0 y cant yn 2009. Mae 27.2 y cant o blant yng Nghymru yn byw mewn cartref lle mae o leiaf un (ond nid pob un) oedolyn yn gweithio, ac mae 60.3 y cant yn byw mewn cartref lle mae pob oedolyn yn gweithio.

[7] Labour Force Survey, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
[8] Labour Force Survey, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

**1.03 Canran y plant sy'n byw mewn cartrefi heb waith, 2004 i 2017**




Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Dangosydd cenedlaethol ansawdd cyflogaeth yw canran y bobl mewn cyflogaeth sydd ar gontractau parhaol (neu ar gontractau dros dro heb fod yn ceisio cyflogaeth barhaol) ac yn ennill mwy na dau draean o gyflog canolrifol y DU.

Mae'r data sydd ar gael ar gyfer y tair blynedd ddiwethaf yn dangos darlun amrywiol, ac nid oes gennym gyfres ddigon hir ar gyfer y dangosydd newydd hwn i ganfod tuedd glir. Ar ddiwedd 2017, roedd 63.5 y cant o bobl mewn gwaith yng Nghymru mewn swyddi sy'n bodloni'r diffiniad hwnnw. Roedd y gyfran yn is o lawer ymysg merched (51.8 y cant) na dynion (72.5 y cant).


Mae Cymru yn y seithfed safle o blith 12 gwlad a rhanbarth y DU yng nghyswllt y ffigurau diweddaraf ar gyfer ansawdd cyflogaeth llawn amser.

Ar yr un pryd, mae data arall yn nodi bod y tri phrif ddosbarth galwedigaethol yng Nghymru - 'Rheolwyr, cyfarwyddwyr ac uwch swyddogion', 'Proffesiynol' a 'Phroffesiynol a thechnegol cysylltiol' - wedi tyfu'n gryf yn y tymor hir. Mae hyn er gwaethaf fod cyfran y gyflogaeth yn y prif ddosbarthiadau galwedigaethol hyn yn parhau'n is yng Nghymru nag mewn nifer o rannau eraill o'r DU[9].

[9] Labour Force Survey, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae cynnydd wedi bod yn ddiweddar mewn pobl ifanc sydd mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, a hynny ymhlith pobl ifanc 16-18 mlwydd oed a 19-24 mlwydd oed. Roedd y ganran hon yn amrywio ar ychydig o dan 90 y cant am sawl blwyddyn ar gyfer pobl ifanc 16-18 mlwydd oed. Ond, ar y cyfan, mae'r ffigurau wedi bod yn cynyddu ers y dirwasgiad, ac yn 2017 roedd 90.5 y cant o bobl ifanc 16-18 mlwydd oed mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Yn yr un modd ar gyfer pobl ifanc 19-24 mlwydd oed, mae'r ffigur hwn wedi cynyddu ers y dirwasgiad, ac mae bellach yn 84 y cant, tua 6 phwynt canran yn uwch nag yn 2012.

**1.04 Canran y rhai 16-18 oed oedd mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, 2004 i 2017**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru


**Mae sgiliau ac iechyd yn bwysig iawn i siawns pobl o gael swydd ac i'w lefelau incwm**

Lefelau cymwysterau a sgiliau yw'r un peth sy'n dylanwadu fwyaf ar siawns pobl o gael gwaith ac ar eu hincwm. Hefyd, lefel cymwysterau a sgiliau'r boblogaeth mewn ardal yw'r ffactor pwysicaf un i lwyddiant economaidd yr ardal honno.

Mae'n drawiadol mai dim ond rhywfaint y mae cyfradd cyflogaeth *pobl sydd â lefelau cymwysterau tebyg* yn amrywio.

Mae proffil cymwysterau'r boblogaeth yng Nghymru wedi bod yn gwella dros amser. Er enghraifft, mae cyfran y boblogaeth oedran gweithio sydd wedi cymhwyso i NQF4 neu uwch wedi codi o 28 y cant yn 2008 i 37 y cant yn 2017. Roedd rhagor o gynnydd graddol wedi bod yn 2017. Mae cyfran y boblogaeth oedran gweithio yng Nghymru sydd wedi cymhwyso i'r lefel hon yn uwch nag yn holl ranbarthau Lloegr, ac eithrio Llundain, De-ddwyrain Lloegr a De-orllewin Lloegr. Mae ffigur Cymru'n is na'r ffigur ar gyfer yr Alban ond yn uwch na'r ffigur ar gyfer Gogledd Iwerddon.

**1.05 Canran y boblogaeth oedran gweithio yng Nghymru (18 - 64 mlwydd oed) sydd â chymhwyster lefel 4 neu uwch, 2008 i 2016**




Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

**Mae cyrhaeddiad mewn ysgolion cynradd ac uwchradd wedi codi yn ystod y blynyddoedd diweddar. Ond mewn asesiadau rhyngwladol, mae Cymru'n parhau i fod ar ôl gweddill y DU**

Mae ymchwil ryngwladol yn nodi bod rhoi sylw i sgiliau isel ac isel iawn yn hyd yn oed pwysicach na gwella lefelau sgiliau uchel. Awgryma ymchwil fod Cymru'n dal i gymharu'n llai ffafriol â gwledydd eraill yn hyn o beth, sy'n debyg i weddill y DU.

Mae canlyniadau ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 (diwedd y cyfnod gorfodol yn yr ysgol) wedi bod yn gwella hyd at 2016. Roedd canran y disgyblion a oedd yn cael 5 TGAU gradd A*-C gan gynnwys Mathemateg a Saesneg / Cymraeg yn codi o ychydig dros 4 allan o bob 10 disgybl yn 2007 i 6 o bob 10 disgybl yn 2016. Mae nifer o newidiadau wedi bod yn ddiweddar i sut mae perfformiad yn cael ei fesur. Golyga hyn nad oes data cyson ar gael yn 2017.

Fodd bynnag, awgryma’r cymariaethau rhyngwladol a wnaed o dan asesiadau PISA gan Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD)[10] fod pobl ifanc 15 mlwydd oed Cymru’n dal i fod ar ôl gweddill y DU gyda darllen, mathemateg a gwyddoniaeth. Yn rhyngwladol, mae perfformiad Cymru’n is na chyfartaledd gwledydd OECD.

Hefyd, mae canlyniadau wedi bod yn gwella yng nghyfnodau allweddol eraill addysg mewn ysgolion yn ystod y degawd diwethaf. Ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 (diwedd yr ysgol gynradd), mae canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd y lefel ddisgwyliedig ym mhob un o’r pynciau craidd (Mathemateg, Gwyddoniaeth a naill ai Cymraeg neu Saesneg) wedi cynyddu yn ystod y degawd diwethaf o 75 y cant i 90 y cant.

Mae cysylltiad clir rhwng lefelau amddifadedd a chyflawniad mewn ysgolion. Er bod cyflawniad yn gwella’n gyson ymhlith pob grŵp o ddisgyblion, mae canlyniadau’r rhai sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn waeth ym mhob cyfnod allweddol. Mae’r bwlch yn cynyddu wrth i’r disgyblion fynd yn hŷn.

Yng Nghyfnod Allweddol 4, mae’r bwlch rhwng disgyblion sy’n cael cinio ysgol am ddim ac eraill wedi lleihau mewn blynyddoedd diweddar. Serch hynny, roedd cynnydd bach yn 2017 (i fwlch o 32.3 pwynt canran) o gymharu â 2016. Ym mis Mawrth 2017, roedd canran y plant sy’n cael gofal a chefnogaeth ac yn cyflawni'r mesur Lefel 2 cynhwysol yng Nghyfnod Allweddol 4 yn llai na chwarter y ganran ymysg yr holl ddisgyblion (12 y cant o gymharu a 55 y cant).

**Mae data newydd ar gael ar camau datblygiad plant ar fynediad i ysgol cynradd.**

Mae plant yng Nghymru yn cael eu hasesu, drwy Broffil y Cyfnod Sylfaen, yn ystod eu 6 wythnos gyntaf ar ôl dechrau yn yr ysgol gynradd (dosbarth derbyn). Mae hyn yn cael ei ddefnyddio i ddarganfod cam datblygiad a diddordebau’r plentyn yn ôl Proffil a fframwaith y Cofnod Sylfaen.

Mae’r data yn adlewyrchu’r ystod eang o aeddfedrwydd datblygiadol a ddisgwylir yn yr oed hwn, sydd o fewn yr ystod safonol ar gyfer plant wrth ddechrau yn yr ysgol, yn enwedig o ystyried oed amrywiol plant sy’n dechrau’r ysgol.

Mae tua 6 o bob 10 disgybl 4 oed wedi cyrraedd cam datblygiad mewn mathemateg ac iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn Saesneg a fyddai’n gyson â’u hoed yn ôl y fframwaith, neu’n well, ac mae tua 9 o bob 10 disgybl o fewn un cam i’r datblygiad sy’n gyson â‘u hoed.

Mae’r sefyllfa o ran iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg yn wahanol. Mae 1 o bob 3 disgybl wedi cyrraedd cam datblygiad sy’n gyson â’u hoed, neu’n well. Gellir egluro hyn drwy’r nifer o ddisgyblion o gartrefi lle nad ydynt yn siarad Cymraeg y mae eu rhieni yn dewis eu cofrestru mewn ysgol cyfrwng Cymraeg. I roi hyn mewn cyd-destun, erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen mae tua 90 y cant o ddisgyblion yn cyflawni’r deilliant a ddisgwylir ar gyfer y maes dysgu hwn

[10] Cyflawniad disgyblion 15 mlwydd oed yng Nghymru: Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr adroddiad cenedlaethol, Llywodraeth Cymru

**Mae cysylltiad rhwng gwaith ac iechyd da.**

Yn gyffredinol, dros y tymor canolig, mae nifer y blynyddoedd y gellir disgwyl byw bywyd iach, osgoi marwolaeth a rhai nodweddion ffordd o fyw iach (ee, ysmygu ac yfed llai) wedi gwella yn ystod y blynyddoedd diweddar. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod iechyd pobl yn bwysig iawn, nid yn unig ar gyfer eu siawns o gael gwaith, ond hefyd ar gyfer y cynnydd y byddant yn ei wneud ar ôl iddynt gael eu cyflogi. Mae iechyd meddyliol a chorfforol da yn bwysig iawn yn y farchnad lafur. Felly maent yn cael effeithiau *anuniongyrchol* pwysig ar lesiant pobl, yn ogystal ag effeithiau mwy uniongyrchol.

Fodd bynnag, mae bwlch yn parhau rhwng cyfradd cyflogaeth y rhai 16 oed ac yn hŷn sydd â chyflyrau iechyd hirdymor a'r rhai heb gyflwr o'r fath, ac roedd yn 15.9 pwynt canran yn 2017.


**Mae cael swydd yn lleihau'r siawns o fod yn dlawd. Ond mae tlodi mewn gwaith yn cynyddu**

Mae cyflogaeth hefyd yn gysylltiedig â risg is o dlodi enbyd a pharhaus. Mae cyfraddau tlodi mewn gwaith wedi codi yng Nghymru a ledled y DU (ac mae tlodi mewn cartrefi lle mae o leiaf un person yn gwneud rhywfaint o waith nawr yn cyfrif am dros hanner yr holl dlodi ymhlith pobl oedran gweithio). Fodd bynnag, mae ymchwil ar gyfer y DU gyfan yn awgrymu bod cyfraddau tlodi'n is o lawer ar gyfer pobl sy'n byw mewn cartrefi lle mae **pob** oedolyn yn cael ei gyflogi, a hynny yn **llawn amser**. Mae hefyd yn awgrymu bod tlodi enbyd a pharhaus (sy'n fwy niweidiol i lesiant y cenedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol na thlodi llai difrifol) yn llawer llai cyffredin ymhlith cartrefi mewn gwaith.

Ar y cyfan, ychydig iawn y mae cyfraddau tlodi cymharol wedi newid yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diweddar (fel sy'n wir ar gyfer y DU drwyddi draw). Dros y tymor hwy, mae gostyngiad sylweddol wedi bod yng nghyfradd tlodi pensiynwyr (unwaith eto, mae hyn yn debyg i'r DU drwyddi draw)[11], ond mae hyn wedi dechrau cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf. O ganlyniad, mae'r gyfradd tlodi nawr yn llawer is ar gyfer pensiynwyr nag unrhyw grwpiau oedran eraill.

[11] Ystadegau tlodi, Llywodraeth Cymru

**1.06 Canran yr holl bobl, plant, pensiynwyr ac oedolion oedran gwaith sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol yng Nghymru, 1994 i 2017**




Ffynhonnell: Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Fodd bynnag, mae modd ystyried tlodi mewn ystyr ehangach nag incwm cymharol. Mae'r ffigurau diweddaraf yn debyg i'r blynyddoedd a fu, gydag 16 y cant o oedolion yng Nghymru mewn amddifadedd materol (hynny yw, ddim yn gallu fforddio pethau sylfaenol fel cadw'r tŷ yn gynnes, cynilo'n rheolaidd neu fynd ar wyliau unwaith y flwyddyn). Roedd 7 y cant o bensiynwyr yn byw mewn amddifadedd materol ac mae gan 7 y cant o rieni blant sy'n byw mewn amddifadedd materol. Roedd Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016-17[12] yn dangos (wrth reoli ar gyfer amrywiaeth ehangach o ffactorau eraill) amrywiaeth eang o ffactorau a oedd yn gysylltiedig ag amddifadedd materol, gan gynnwys deiliadaeth, bodlonrwydd ar fywyd, cael car at eu defnydd a statws gwaith y cartref.

**Mae plant yn fwy tebygol o fod mewn tlodi na'r boblogaeth yn ei chyfanrwydd**

Mae plant yn fwy tebygol o fod yn byw mewn tlodi na phobl yn gyffredinol. Mae hyn o bosib oherwydd bod oedolion sydd â phlant yn fwy tebygol o fod allan o waith neu mewn gwaith â chyflog isel oherwydd cyfrifoldebau gofal plant. Roedd tystiolaeth flaenorol[13] o Arolwg Cenedlaethol 2014-15 yn awgrymu, hyd yn oed pan fydd rhieni mewn amddifadedd materol, roeddent yn ymddangos fel pe baent yn ceisio gwarchod eu plant rhag y profiad o amddifadedd materol penodol i blant.

Incwm isel fydd y prif ffactor wrth egluro lefelau amddifadedd materol plant. Hefyd, canfu Arolwg Cenedlaethol 2016-17 fod y nodweddion a oedd yn gysylltiedig ag amddifadedd materol plant yn cynnwys deiliadaeth tai (os oedd rhieni mewn tai cymdeithasol roeddent yn fwy tebygol o gael plant a oedd mewn amddifadedd materol); bodlonrwydd rhieni ar fywyd a llesiant meddyliol.

[12] Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016-17, Llywodraeth Cymru
[13] Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2014-15, Llywodraeth Cymru

**Mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau wedi lleihau**

Mae'r data diweddaraf ar gyfer Cymru'n dangos y bwlch tâl isaf rhwng y ddau ryw ers i'r arolwg ddechrau yn 1997[14]. Roedd y bwlch cyflog, sy'n seiliedig ar enillion amser llawn canolrifol fesul awr, yn 6.3 y cant yn 2017, i lawr o 7.9 y cant yn 2016. O ran yr 11 o wledydd a rhanbarthau yn y DU lle mae dynion yn ennill mwy na merched, yng Nghymru mae'r bwlch lleiaf. Yng Ngogledd Iwerddon, mae merched yn ennill mwy na dynion ar gyfartaledd, gan achosi bwlch cyflog "negatif" rhwng y rhywiau. O ran gweithwyr rhan-amser yng Nghymru, mae merched yn ennill 7.0 y cant yn fwy na dynion ar gyfartaledd – y trydydd bwlch cyflog negatif mwyaf ar ôl Llundain a Gogledd Iwerddon.

Nid yw'r bylchau hyn yn ystyried ffactorau fel lefelau addysg a phrofiad sy'n amrywio ar draws y rhywiau ac a fydd yn effeithio ar lefelau enillion.

**Mae'r cysylltiad rhwng twf economaidd a'r nod o gael economi carbon isel sy'n defnyddio adnoddau'n effeithiol yn gymhleth ac mae'n arwain at heriau. Ond mae arwyddion cadarnhaol hefyd**

Gyda'i gilydd, dros amser, bydd defnyddio llai ar geir, amseroedd cymudo sefydlog a defnyddio cerbydau carbon isel fwyfwy yn cyfrannu at leihau allyriadau.

Er bod yr adferiad ar ôl y dirwasgiad wedi bod yn araf a herciog, mae'r duedd tymor hir i gynyddu'r defnydd o drafnidiaeth yng Nghymru wedi ailddechrau, gan effeithio ar bob dull ac eithrio bysus (lle mae'r defnydd wedi lleihau). Fel yn y rhan fwyaf o rannau eraill y DU y tu allan i Lundain, cludiant preifat ar y ffordd yw'r prif ddull o hyd, ac mae'n cyfrif am y mwyafrif llethol o deithiau cymudo yng Nghymru. Yn 2016, roedd 80 y cant o gymudwyr yng Nghymru'n defnyddio car fel eu dull arferol o gymudo. Roedd hyn yn ostyngiad bychan ers yr uchafswm o 84 y cant yn 2013. Mae cyfran y bobl sy'n cerdded neu'n beicio (10-12 y cant), yn teithio ar drên (2 y cant) ac yn defnyddio bysus (4 y cant) wedi aros yn sefydlog dros y 15 mlynedd diwethaf[15].

Yn yr un modd, nid oes tuedd amlwg yng nghyfartaledd yr amseroedd cymudo yng Nghymru. Mae cyfartaledd yr amser cymudo wedi bod yn sefydlog, sef tua 21-23 munud, ers 2005, heb fawr o newid ar gyfer y gwahanol ddulliau o deithio.

Mae data'r DU yn nodi bod y defnydd o gerbydau carbon isel yn cynyddu'n dda iawn, ond bod hynny o linell sylfaen isel. Er gwaethaf cynnydd yn 2016 (i raddau helaeth oherwydd adferiad mewn cynhyrchu pŵer nwy naturiol yn dilyn nifer fawr o gyfleoedd i weithredu uwchraddiadau effeithlonrwydd yn 2015), mae Allyriadau nwyon tŷ gwydr wedi gostwng bron i 14 y cant rhwng blwyddyn sylfaen 1990 a 2016. Mae'r gostyngiad mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr dros y tymor hwy yn bennaf oherwydd arbedion o ran cynhyrchu ynni a gwresogi'r sector busnes; nwy naturiol yn cymryd lle glo; lleihad yn y diwydiant cemegol ac amrywiadau mewn canlyniadau gweithgynhyrchu (ee ym maes haearn a dur, cynhyrchu cemegau mewn swmp).

[14] Annual survey of hours and earnings, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
[15] Transport Statistics Great Britain, Yr Adran Drafnidiaeth

# Cymru gydnerth

**Y nod:** Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft, newid yn yr hinsawdd).

**Awdur: Sue Leake, Llywodraeth Cymru**

**Beth ydym ni wedi ei ddysgu o'r data yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?**

Mae'r dystiolaeth ddiweddaraf ar amgylchedd Cymru yn cadarnhau nifer o dueddiadau cadarnhaol sydd wedi bod yn digwydd dros yr 20-30 mlynedd diwethaf, gyda chyflwr mawndiroedd Cymru yn gwella'n sylweddol a chyflwr uwchbridd coetiroedd a chynefinoedd yn gwella, tra bod poblogaethau o rywogaethau gloÿnnod byw yn sefydlogi. Fodd bynnag, gwyddom fod o leiaf un rhan o dair o boblogaethau rhywogaethau adar â blaenoriaeth yn dal i ostwng, ac mae rhai arwyddion diweddar o newid yng ngharbon uwchbridd ac asidedd pridd mewn rhai cynefinoedd, felly bydd angen parhau i'w monitro.

Datblygwyd methodoleg newydd sy'n seiliedig ar ddelweddau lloeren i ddarparu gwaelodlin newydd ar gyfer ein hamcangyfrif o faint y cynefin lled-naturiol yng Nghymru.  Mae hyn yn rhoi amcangyfrif bod cynefinoedd lled-naturiol yn ymestyn dros 31 y cant o arwynebedd tir Cymru, gan amrywio o 74 y cant yn yr ucheldir i 19 y cant yn y tir isel.

Mae cyfraddau ailgylchu yn parhau i wella, gyda 64 y cant o wastraff trefol awdurdodau lleol yn cael ei ailgylchu erbyn hyn.

Mae darparu capasiti cynhyrchu ynni adnewyddadwy wedi cynyddu'n gyflym yn y blynyddoedd diwethaf, gyda gallu technolegau fel paneli solar yn dyblu a mwy yn y ddwy flynedd hyd at 2016, a chynnydd o 50 y cant yng nghapasiti gwynt ar y tir. Mae'r gallu i gynhyrchu gwres adnewyddadwy bron â bod wedi dyblu hefyd yn y cyfnod hwn.

Er bod tuedd hirdymor o ostyngiadau mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr, mae'r data diweddaraf yn dangos cynnydd mewn allyriadau yn 2016 o'u cymharu â ffigurau 2015, sy'n cael ei yrru i raddau helaeth gan adferiad mewn cynhyrchu pŵer nwy naturiol yn dilyn nifer fawr o gyfleoedd i weithredu uwchraddiadau effeithlonrwydd yn 2015. Mae cyflenwi ynni, busnes a phrosesau diwydiannol yn parhau i fod yn brif sbardun allyriadau nwyon tŷ gwydr.

Mae data newydd ar lygredd sŵn yn dangos bod chwarter o'r holl aelwydydd yn cael eu blino gan sŵn digroeso (naill ai y tu mewn neu y tu allan i'w cartrefi), gyda 45 y cant o'r aelwydydd hyn yn cael eu poeni gan sŵn traffig, busnesau neu ffatrïoedd yn eu hardal.

Dim ond o bryd i'w gilydd y caiff data am ansawdd dŵr a risg llifogydd eu diweddaru, ac nid yw'r adroddiad hwn yn cynnwys unrhyw ddata newydd o'i gymharu ag adroddiad 2017.

Dan ofal priodol, gall adnoddau naturiol Cymru - ein haer, ein tir, ein dŵr, ein bywyd gwyllt, ein planhigion a'n pridd - ddarparu bwyd ac ynni yn ogystal â'n helpu ni i leihau llifogydd, gwella ansawdd yr aer, a darparu deunyddiau ar gyfer adeiladu. Maen nhw hefyd yn gartref i rai o'r rhywogaethau bywyd gwyllt prin a hyfryd a thirweddau eiconig y gallwn ni eu mwynhau ac sy'n rhoi hwb i'r economi. Gall ecosystemau (y rhyngweithio rhwng pethau byw a'u hamgylchedd) fod yn gymhleth, ac er mwyn deall yr hyn sy'n digwydd, mae'n bwysig edrych ar amrywiaeth o ddangosyddion fel y rhai ar ansawdd aer, dŵr a phridd yn ogystal â bioamrywiaeth a hyd a lled a chyflwr ein cynefinoedd.

**Mae tirwedd ac arfordir naturiol Cymru a'i moroedd yn asedau cenedlaethol pwysig sy'n cynnal amgylchedd, amaethyddiaeth a physgota bioamrywiol a'r diwydiant ymwelwyr**

Mae arwynebedd tir Cymru yn cwmpasu ychydig dros 2 miliwn hectar (ha), gydag ardal forol Cymru yn ymestyn 12 filltir forol o'r lan.

Yn fras, gellir rhannu gorchudd tir Cymru yn

- orchudd tir sydd wedi ei addasu mewn rhyw fodd
- tir arall y gellir ei ystyried yn gynefinoedd naturiol/lled-naturiol.

Bydd tir sydd wedi'i addasu yn cynnwys yr amgylchedd adeiledig a thir sydd wedi ei newid o'i gyflwr lled-naturiol at ddibenion cynhyrchu megis:

- planhigfeydd conwydd,
- glaswelltir sydd wedi ei wella, a
- thir âr.

Ychydig iawn o gynefinoedd 'naturiol' sydd yng Nghymru (hynny yw, cynefinoedd nad yw gweithgarwch pobl wedi effeithio arnynt mewn unrhyw fodd), felly mae ein dangosydd cenedlaethol yn seiliedig ar nifer y cynefinoedd lled-naturiol. Mae cynefinoedd lled-naturiol yn elfennau allweddol o amgylchedd naturiol bioamrywiol sy'n darparu amrywiaeth eang o wasanaethau ecosystemau.


Yr oedd amcan blaenorol o faint cynefinoedd lled-naturiol yng Nghymru wedi cael ei seilio ar arolwg tir cynhwysfawr y rhoddwyd adroddiad arno yn Arolwg Cynefinoedd Cymru (2010). Yr oedd gwybodaeth ddiweddarach am gynefinoedd ar gael yng nghanlyniadau mwy diweddar Rhaglen Monitro a Gwerthuso Glastir. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi datblygu ymagwedd newydd gan ddefnyddio delweddau lloeren i ddiweddaru ein dealltwriaeth gyfredol o ddosbarthiad a maint cynefinoedd ledled Cymru. Defnyddiwyd yr ymagwedd hon i greu amcangyfrif gwaelodlin newydd o faint y cynefin lled-naturiol y gellid ei ddiweddaru yn y blynyddoedd i ddod drwy ddefnyddio ffynonellau data a methodoleg gyson.

Dylid ystyried yr amcangyfrif diweddaraf gan ddefnyddio'r fethodoleg newydd hon yn un 'arbrofol' ar hyn o bryd, oherwydd bwriedir gwneud rhywfaint o waith pellach i fireinio'r ymagwedd a'n galluogi i gyflwyno canlyniadau manylach yn y dyfodol. Mae'r amcangyfrif o gynefinoedd lled-naturiol a gyflwynir yma yn cynnwys darnau o dir sy'n amlwg yn gynefinoedd lled-naturiol, sef y rheini lle ceir rhedyn a rhai darnau o dir, a elwir yma yn gynefinoedd 'lled-naturiol posibl', a allai weithredu yn debycach i gynefinoedd lled-naturiol na chynefinoedd sydd wedi bod trwy broses o wella dwys at ddibenion amaethyddol. O gofio

fod yr ardaloedd hyn yn aml yn agos at gynefinoedd lled-naturiol sefydledig, gellid eu hystyried yn gyfleoedd i wella cydnerthedd ecosystemau sy'n bodoli eisoes. I gael manylion, edrychwch ar “Nodyn Briffio Cyfoeth Naturiol Cymru: Gwaelodlin newydd ar gyfer arwynebedd cynefinoedd lled-naturiol Cymru ar gyfer Dangosydd 43[16]”.

Wedi’i seilio ar ddelweddau lloeren 2016-2017, mae’r dull newydd hwn yn dangos bod cynefinoedd lled-naturiol yng Nghymru yn ymestyn dros 640,827 ha (31 y cant o arwynebedd tir Cymru). Mae hyn yn amrywio ar draws Cymru; er bod 74 y cant o’r ucheldir yn gynefin lled-naturiol, dim ond 19 y cant o’r tir isel sy’n lled-naturiol.

**Map o gynefinoedd lled-naturiol yng Nghymru (gan gynnwys rhedyn a chynefinoedd ‘lled-naturiol posibl’) (a)**




(a) Mae'r map yn dangos cynefinoedd sydd wedi cael eu nodi fel rhai lled-naturiol yn ogystal ag ardaloedd sydd wedi’u nodi fel tir lle ceir rhedyn a darnau o dir, a elwir yma’n rhai ‘lled-naturiol posibl’ a allai weithredu mwy fel cynefinoedd lled-naturiol na chynefinoedd sydd wedi bod trwy broses o wella dwys at ddibenion amaethyddol. I gael manylion, edrychwch ar Nodyn Briffio

[16] Nodyn Briffio: Gwaelodlin newydd ar gyfer arwynebedd cynefinoedd lled-naturiol Cymru ar gyfer Dangosydd 43, Cyfoeth Naturiol Cymru

Cyfoeth Naturiol Cymru: Gwaelodlin newydd ar gyfer arwynebedd cynefinoedd lled-naturiol Cymru ar gyfer Dangosydd 43

Mae ardal forol Cymru yn rhan o ecosystem forol ehangach sy'n cynnwys Môr Iwerddon a Môr Hafren sydd, yn eu tro, yn rhan o Gefnfor ehangach Gogledd-ddwyrain yr Iwerydd. Mae gan arfordir Cymru amrediad llanw mawr, a cheir cerrynt cyflym yn Aber Afon Hafren ac oddi ar arfordir Sir Benfro ac Ynys Môn, gyda thonnau cryf yn ne-orllewin Cymru. Mae'r mathau o waddodion a geir ar hyd yr arfordir ac ar wely'r môr yn amrywio o laid mân a silt i draethau tywodlyd, twyni a chefnau islanw i lannau creigiog, clogwyni a gwely'r môr. Mae'r amodau gwahanol yn cynnal amrywiaeth eang o gynefinoedd morol yn ogystal â nifer o rywogaethau adar a mamaliaid y môr.

Mae dyfroedd Cymru yn cynnal cynefinoedd pwysig a phoblogaethau pwysig o rywogaethau, gan gynnwys yr enghreifftiau mwyaf deheuol o welyau cregyn dilyw, cymuned breswyl o ddolffiniaid trwyn potel ym Mae Ceredigion a mwy na 60 y cant o boblogaeth fagu'r byd o adar drycin Manaw.

**Mae Cymru'n gartref i ystod eang o rywogaethau anifeiliaid a phlanhigion a llawer o gynefinoedd arbennig. Er bod y dystiolaeth ddiweddaraf yn dangos rhai tueddiadau cadarnhaol o ran mawndiroedd Cymru ac adennill neu sefydlogi rhai priddoedd a rhywogaethau (e.e glöynnod byw), mae asesiad cynhwysfawr diweddaraf cyfoeth naturiol Cymru (Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol[17]) yn dangos, at ei gilydd, bod ei hamrywiaeth fiolegol yn dirywio, ac ni ellir dweud bod dim un o ecosystemau Cymru yn meddu ar yr holl nodweddion sydd eu hangen i fod yn gydnerth.**

Sefydlwyd Rhaglen Monitro a Gwerthuso Glastir (GMEP) i ddarparu sylfaen dystiolaeth gadarn i lywio'r gwaith o reoli amgylchedd Cymru. Mae'r adroddiad diweddaraf[18] yn cadarnhau nifer o dueddiadau cadarnhaol sydd wedi bod yn digwydd dros yr 20 i 30 mlynedd diwethaf, ond mae'n parhau i dynnu sylw at rai meysydd lle nad yw'r tueddiadau mor gadarnhaol.

Ar yr ochr gadarnhaol:

- Mae cyflwr mawndiroedd Cymru wedi gwella'n sylweddol yn ystod yr 20-30 mlynedd diwethaf.
- Canfuwyd bod 83 y cant o ffrydiau bach a samplwyd yn y GMEP mewn cyflwr ecolegol da neu uchel.
- Gan ddefnyddio tystiolaeth o'r Cynllun Monitro Glöynnod Byw, mae GMEP wedi tynnu sylw at sefydlogi poblogaethau rhywogaethau glöynnod byw arbenigol a chyffredinol yn ystod y 10 mlynedd ddiwethaf.
- Bu cynnydd yn nifer yr hawliau tramwy cyhoeddus sy'n hawdd eu cyrraedd, gyda dwy ran o dair bellach yn cael eu hystyried yn hawdd i'w defnyddio o gymharu â dau o bob pump 10 mlynedd yn ôl.
- Mae carbon uwchbridd wedi bod yn sefydlog neu wedi cynyddu mewn pridd coetiroedd a thir wedi ei wella dros y 30 mlynedd diwethaf
- Dros y 30 mlynedd ddiwethaf, mae'n ymddangos bod uwchbridd coetiroedd a chynefinoedd wedi gwella o effaith negyddol dyddodiad asid, gyda pH nawr yn sefydlog.

[17] State of Natural Resources report, Cyfoeth Naturiol Cymru
[18] Rhaglen Monitro a Gwerthuso Glastir (GMEP), crynodeb o ganlyniadau GMEP

Yn llai cadarnhaol, mae'r canlyniadau'n dangos:

- Gostyngiad diweddar yn nifer y planhigion sy'n dynodi bod cynefinoedd a thir wedi ei wella mewn cyflwr da.
- Barnwyd mai dim ond 13 y cant o'r pyllau dŵr a samplwyd yn GMEP oedd mewn cyflwr ecolegol da.
- Mae poblogaethau 35 y cant o rywogaethau adar blaenoriaethol yn dirywio.
- Lleihad yn yr Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (GHG) mewn coetiroedd, y gellir ei briodoli'n rhannol i ostyngiad yng nghyfradd y broses o ddal a storio carbon[19] wrth i goetiroedd heneiddio.
- Cynnydd diweddar yn asidedd uwchbridd mewn tir wedi ei wella a samplwyd yn GMEP, gan ategu tystiolaeth anecdotaidd bod gostyngiad wedi bod yn swm y calch a roddir ar dir amaethyddol yng Nghymru.
- Colli carbon uwchbridd yn ddiweddar ar draws amrywiaeth o gynefinoedd, fel glaswelltir wedi ei led-wella (ac eithrio priddoedd mawndirol).

At ei gilydd, mae tueddiadau o ran hyd a lled a phoblogaeth rhywogaethau tir, dŵr croyw a morol yn amrywio’n fawr; gyda rhai rhywogaethau’n cynyddu ac eraill yn gostwng. Er enghraifft, gellir gweld cynnydd a gostyngiad mewn rhywogaethau adar, ystlumod a llawer o bryfed peillio (e.e. gwenyn a gloÿnnod byw) ond nid oes gennym ddigon o ddata ar gyfer llawer o rywogaethau i allu seilio unrhyw gasgliadau arnyn nhw.

Mae gwybodaeth am y tueddiadau diweddaraf o ran poblogaethau adar magu yng Nghymru ac ystlumod ar gael yn Arolwg Adar Magu 2017[20] ac yn Rhaglen Genedlaethol Monitro Ystlumod 2017[21]. Mae'r rhain yn dangos bod rhai adar y coed yn gwneud yn well yng Nghymru nag mewn rhannau eraill o'r DU fel corff.  Serch hynny, yn unol â thueddiadau ledled y DU, mae rhai rhywogaethau adar eraill yn parhau i ddirywio. O'r wyth rhywogaeth ystlumod sy'n cael eu monitro o dan y Rhaglen Genedlaethol Monitro Ystlumod yng Nghymru, mae’r mwyafrif ohonynt naill ai’n cynyddu neu’n aros yn sefydlog, sy'n debyg i'r tueddiad ledled y DU, ac mae’r ystlum pedol lleiaf yng Nghymru yn dangos cynnydd sylweddol iawn.

**Mae ardaloedd sydd wedi’u dynodi’n arbennig ledled Cymru yn bwysig o ran gwarchod ecosystemau a helpu i gynnal amgylchedd naturiol bioamrywiol.**

Mae Cymru’n cynnwys 1,016 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, 21 Ardal Gwarchodaeth Arbennig ar gyfer poblogaethau o adar rhyngwladol bwysig a 95 Ardal Cadwraeth Arbennig ar gyfer rhywogaethau a chynefinoedd naturiol eraill dan fygythiad.

---


[19] Dal a storio carbon yw'r broses sy'n ymwneud â dal carbon a storio carbon deuocsid atmosfferig neu ffurfiau eraill o garbon yn y tymor hir i liniaru neu i ohirio cynhesu byd-eang.

[20] Breeding Bird Survey 2017, Ymddiriedolaeth Adareg Prydain/Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur/Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB)

[21] National Bat Monitoring Programme Annual Report, 2017, Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod

Mae’r ardaloedd a’r safleoedd arbennig hyn wedi eu dynodi er mwyn amddiffyn eu bywyd gwyllt a’u daeareg drwy gyfraith, gyda’r nod o warchod ecosystemau a helpu i gynnal amgylchedd naturiol bioamrywiol. Gyda’i gilydd, mae’r safleoedd arbennig hyn yn ffurfio rhwydwaith sydd â’r nod, o’u cynllunio a’u rheoli’n briodol, o ddarparu amryfal fanteision sy'n cyfrannu at gydnerthedd ecosystemau. Yn benodol, daeth asesiad o'r rhwydwaith o ardaloedd morol gwarchodedig yn 2016[22] i'r casgliad fod y rhwydwaith morol wedi'i gysylltu’n dda, ei fod yn cynrychioli'r mwyafrif o'r cynefinoedd a'r rhywogaethau sydd i'w cael yn nyfroedd Cymru mewn dau ecosystem forol (Môr Iwerddon, y Culfor Gorllewinol a’r Môr Celtaidd) a’i fod yn gwneud cynnydd tuag at gael ei reoli’n dda.


**Ardaloedd Cadwraeth Arbennig**




**Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig**




**Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig**




Fel golwg gyffredinol, yn ôl yr asesiad diweddaraf o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig a gyhoeddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn 2016, roedd oddeutu 25 y cant o’r ardaloedd hyn mewn cyflwr ffafriol. Yn 2018 lluniodd Cyfoeth Naturiol Cymru asesiadau cyflwr dangosol ar lefel safle[23] ar gyfer pob nodwedd yn mhob Ardal Cadwraeth Arbennig ac Ardal Gwarchodaeth Arbennig yng Nghymru. Roedd y nodweddion yn cynnwys cynefinoedd (ee aberoedd, ogofau, cilfachau) a rhywogaethau (ee y morlo llwyd, y pâl a’r dolffin trwyn potel). Daeth yr adroddiadau dangosol i'r casgliad fod 46 y cant o'r holl nodweddion yng Nghymru – gan gynnwys yr holl nodweddion mamaliaid – mewn cyflwr ffafriol.

Mae afonydd Cymru yn gartref i rywogaethau pysgod pwysig, gan gynnwys sewin, gwangod, llysywod pendwll a phenlletwadau, yn ogystal ag eog eiconig yr Iwerydd. Er bod her i bob rhywogaeth o bysgod, mae tystiolaeth y gellir ei dilysu  yn dangos y bu gostyngiad amlwg yn niferoedd eogiaid mewn blynyddoedd diweddar yn ardaloedd deheuol dosbarthiad y rhywogaeth sy’n gysylltiedig â chynnydd mewn marwolaethau yn y môr. Er bod y stoc mewn llawer o’n hafonydd diwydiannol wedi gwella yn y 30 mlynedd diwethaf, mae’r rhan fwyaf o’r stoc yng Nghymru mewn sefyllfa heriol iawn o hyd.

Pan ofynnwyd iddyn nhw yn Arolwg Cenedlaethol Cymru pa mor bryderus oedden nhw ynghylch newidiadau yn y gorffennol neu'r dyfodol i'r amrywiaeth o rywogaethau yng Nghymru, dywedodd 43 y cant o ymatebwyr eu bod yn bryderus iawn neu'n hynod bryderus ynglŷn â hyn.

[22] Assessing the contribution of Welsh MPAs towards an ecologically coherent MPA network in 2016, Y Cydbwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) (2016)

[23] Asesiadau cyflwr dangosol nodweddion ar gyfer safleoedd morol Ewrop (EMS), Cyfoeth Naturiol Cymru(2018)

Comisiynwyd gwaith drwy Raglen Monitro a Modelu Materion Gwledig (ERAMMP) Llywodraeth Cymru i archwilio potensial y data sydd ar gael (data daearol yn bennaf) ar fioamrywiaeth yng Nghymru er mwyn datblygu dangosydd bioamrywiaeth Cymru priodol i'w ddefnyddio yn y dyfodol.

**Mae ansawdd ein pridd yn bwysig iawn**

Mae priddoedd yn hollbwysig i ecosystemau tir ac yn sail i wasanaethau ecosystem hanfodol. Dyna pam ei bod mor bwysig rheoli ein pridd yn dda. Bydd pridd sy'n cael ei reoli'n dda yn diogelu cynhyrchu bwyd, yn cefnogi cynefinoedd, yn cynorthwyo i reoli'r risg o lifogydd ac yn lleihau costau trin dŵr.

Mae priddoedd Cymru yn gymharol anarferol mewn cyd-destun byd-eang. Mae prinder pridd amaethyddol o ansawdd uchel, gyda llai na 7 y cant o gyfanswm arwynebedd tir Cymru yn cynnwys pridd o'r ansawdd gorau a'r tir amaethyddol mwyaf cynhyrchiol.

Mae'r darlun ar gyfer pridd yng Nghymru'n gymysg:

- Mae'r asesiad diweddaraf yn dangos bod ansawdd y pridd wedi gwella rhywfaint mewn coetiroedd a bod mawndiroedd yn dangos arwyddion o adferiad. Ond mae ansawdd y pridd wedi parhau'n gymharol sefydlog o dan ddefnyddiau tir eraill.
- Mae adferiad parhaus yn sgil asidiad pridd mewn tir cynefinoedd, ond mae tir amaethyddol wedi ei wella wedi dod yn fwy asidig. Mae asidiad pridd yn broses naturiol, ond gellir ei gyflymu gan amaethyddiaeth a defnyddio gwrtaith sy'n seiliedig ar amoniwm, sy'n golygu, er enghraifft, bod tyfu cnydau yn dod yn anos.
- Ychydig iawn o ddirywiad, neu ddim o gwbl, a fu mewn lefelau uwch o lygredd tir yn tarddu o ddiwydiant neu drafnidiaeth.

Yn olaf, agwedd gynyddol bwysig arall ar bridd yw crynodiad carbon. Y rheswm am hyn yw y gall tir ddal carbon am filoedd o flynyddoedd a thrwy hynny gynorthwyo i amddiffyn y ddaear rhag newid yn yr hinsawdd. Amcangyfrifir bod priddoedd Cymru yn storio 410 miliwn o dunelli[24] o garbon.

Yn gyffredinol, mae'r crynodiad carbon yn ein pridd yn sefydlog. Yn ôl y ffigurau diweddaraf o 2013-16 roedd crynodiad carbon a deunydd organig mewn uwchbridd yn 107.6 gram o garbon y Kg (gC y Kg). Yn gyffredinol, nid yw hyn yn sylweddol wahanol i'r crynodiadau a ganfuwyd ym 1998 a 2007: 109.1 a 109.4 gram o garbon y kg yn y drefn honno. Mae carbon pridd yn parhau'n sefydlog yn y rhan fwyaf o fathau o dir, ac eithrio tir cynefin, lle gwelwyd colli carbon yn ddiweddar.

[24] State of Natural Resources Report, Pennod 3, Cyfoeth Naturiol Cymru

**Bu ansawdd dŵr yn gwella**

Mae dŵr yn un o adnoddau naturiol Cymru yr ydym yn dibynnu arno'n barhaus. Mae'n darparu 951 miliwn tunnell[25] o ddŵr yfed bob dydd.

Mae argaeledd dŵr ac ansawdd dŵr yn bwysig am amrywiaeth o resymau, o argaeledd dwr ar gyfer ein cartrefi a'n diwydiannau, i dyfu ein bwyd, darparu manteision ym maes hamdden a chynnal bioamrywiaeth. O'r herwydd, mae angen i ni ofalu am ein hadnoddau dŵr, boed yn ddŵr wyneb, sy'n cynnwys nentydd, llynnoedd, gwlyptiroedd, baeau, moroedd, eira a rhew, neu ddŵr daear sef y dŵr sydd wedi ei storio mewn pridd a chreigiau.

Yn gyffredinol, yn ôl Cyfoeth Naturiol Cymru[4], mae ansawdd y dŵr mewn afonydd wedi gwella dros y pum mlynedd ar hugain diwethaf, yn bennaf o ganlyniad i welliannau i ollyngiadau carthion. Yn ogystal, mae llynnoedd ac afonydd yn yr ucheldir yn dangos adferiad parhaus o effeithiau niweidiol glaw asid.

Er hynny, dim ond 37 y cant o'r holl gyrff dŵr croyw (dŵr daear a dŵr wyneb) a ddiffiniwyd gan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a oedd yn cyrraedd statws da neu well yn gyffredinol yn 2015.

O ran dyfroedd ymdrochi[26], dim ond un o holl ddyfroedd ymdrochi dynodedig Cymru a fethodd gwrdd â'r safonau llymach a bennwyd gan y Gyfarwyddeb Dŵr Ymdrochi ddiwygiedig yn 2017. O'r 104 o ddyfroedd ymdrochi a aseswyd, yr oedd 80 o safon ragorol yn ôl Dosbarthiad Ewropeaidd, cyrhaeddodd 18 o ddyfroedd ymdrochi safon dda a chyrhaeddodd 5 safon ddigonol.

**Mae ansawdd aer wedi gwella'n fawr ers y 1970au ond erys rhai pryderon**

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn amcangyfrif bod cyfystyr ag oddeutu 1,600 o farwolaethau yn cael eu priodoli i amlygiad i $PM_{2.5}$, a tua 1,100 o farwolaethau drwy gysylltiad ag $NO_2$ bob blwyddyn yng Nghymru (gan fod effeithiau iechyd llygrwyr unigol yn gorgyffwrdd, nid yw'n bosibl cyfrif cyfansymiau'r rhain). Mae llygredd aer yn rhan o lawer o brif heriau iechyd ein hoes, ac mae wedi cael ei gysylltu â rhagor o afiechyd a marwolaeth yn sgil clefydau anadlol, gan gynnwys asthma a chlefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint (COPD), strôc a chlefyd y galon, canser yr ysgyfaint ac effeithiau eraill. Gall allyriadau o fathau penodol o nwyon a deunydd gronynnol (gronynnau mewn daliant) fod yn beryglus i iechyd.

Mae'n amlwg felly bod aer glân yn hanfodol ar gyfer iechyd pobl. Yn wir, gall ansawdd aer gwael effeithio ar iechyd planhigion ac anifeiliaid yn ogystal â bodau dynol.

Mae ansawdd aer yng Nghymru wedi gwella'n sylweddol ers yr 1970au yn bennaf oherwydd rheolaeth statudol ar allyriadau a gostyngiad mewn diwydiant trwm. Fodd bynnag, mae llygredd o ffynonellau eraill, fel trafnidiaeth, amaethyddiaeth a gwresogi domestig, wedi dod yn fwy o bryder.


[25] State of Natural Resources Report, Cyfoeth Naturiol Cymru
[26] Ansawdd dŵr ymdrochi a thraethau yng Nghymru, gwefan Llywodraeth Cymru (cyrchwyd 20 Awst 2018)

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn adrodd y canlynol:

- mae allyriadau o ocsidau nitrogen (nwy sy'n niweidiol i iechyd) wedi gostwng 48 y cant ers 1990, yn bennaf oherwydd gosod catalyddion teirffordd mewn cerbydau cludiant ar ffyrdd.
- ers 1970, mae allyriadau sylffwr deuocsid (nwy arall sy'n niweidiol i iechyd) wedi gostwng 94 y cant gyda thros 80 y cant o'r gostyngiad wedi ei weld ers 1990 oherwydd lleihad diwydiant trwm.
- Mae allyriadau nitrogen deuocsid ($NO_2$) hefyd wedi bod yn gostwng ond mae'r targedau ar gyfer nitrogen deuocsid yn parhau i gael eu torri mewn rhai ardaloedd.

Gwelir y crynodiadau uchaf o allyriadau nitrogen deuocsid mewn ardaloedd trefol mawr ac wrth ymyl ffyrdd prysur, gan adlewyrchu'r cyfraniad a wneir gan draffig a gweithgarwch trefol tuag at ansawdd awyr gwael. Mae lefelau cyfartalog nitrogen deuocsid lle mae pobl yn byw ledled Cymru (11 µg/$m^3$ yn 2016) yn llawer is na'r terfyn cymedrig blynyddol i ddiogelu iechyd pobl (40 µg/$m^3$), ond mae tua 40 o ardaloedd penodol yng Nghymru y mae awdurdodau lleol wedi eu dynodi'n Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer, gan fod mesuriadau yn yr ardaloedd hyn yn uwch na'r amcan ansawdd aer o 40 µg/$m^3$.

**2.01 Crynodiadau cyfartalog nitrogen deuocsid ($NO_2$) mewn µg/$m^3$**




Ffynhonnell: Crynodiad Aer, Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

**Mae chwarter o aelwydydd yn dweud bod sŵn digroeso yn tarfu arnyn nhw'n rheolaidd**


Mae sŵn yn gallu tarfu yn yr amgylchedd lle mae pobl yn byw ac yn treulio eu bywydau. Gall rhai synau fod yn ddymunol a gwella bywydau, tra gall eraill, sef y rhai y gellid eu hystyried yn rhai digroeso neu niweidiol, yn y tymor byr, amharu ar gwsg a chynyddu lefelau straen, cythrudd a blinder, yn ogystal ag ymyrryd â gweithgareddau pwysig fel dysgu, gweithio ac ymlacio. Holodd Arolwg Cenedlaethol Cymru 2017-18 ymatebwyr am eu profiad o gael eu poeni'n rheolaidd gan sŵn y tu mewn neu'r tu allan i'w cartrefi. Dywedodd bron i chwarter yr aelwydydd (24 y cant) eu bod nhw wedi profi hynny.

O'r rhain:

- dywedodd 36 y cant bod y sŵn wedi ei achosi gan gymdogion yn eu cartrefi;
- 47 y cant gan gymdogion y tu allan i'w cartrefi; a
- 45 y cant gan draffig, busnesau, neu ffatrïoedd.

Roedd pobl sy'n byw mewn fflatiau yn fwy tebygol na phobl sy'n byw mewn tai ar wahân o gael eu poeni gan sŵn. Roedd pobl yn fwy tebygol o gael eu poeni gan sŵn os oedden nhw'n byw ar aelwydydd ag amddifadedd materol neu mewn ardaloedd difreintiedig.


**2.02 Sŵn yn tarfu, yn ôl math yr annedd, 2017-18**




Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Roedd pobl iau yn fwy tebygol o gael eu poeni'n rheolaidd gan sŵn na phobl hŷn, ond maen nhw'n fwy tebygol o gael eu poeni gan sŵn gan eu cymdogion. Yn achos pobl hŷn, sŵn traffig, busnesau neu ffatrïoedd sy'n fwyaf tebygol o'u poeni.

**2.03 Math o sŵn, yn ôl oedran yr atebwyr, 2017-18**





Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Roedd pobl oedd yn berchen ar eu heiddo eu hunain yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn cael eu poeni'n rheolaidd gan sŵn traffig, busnesau neu ffatrïoedd na phobl sy'n byw mewn tai cymdeithasol, ond roedd pobl sy'n byw mewn tai cymdeithasol yn fwy tebygol o gael eu poeni gan sŵn gan eu cymdogion.

**Mae allyriadau nwyon tŷ gwydr wedi gostwng ers y 1990au er gwaethaf y cynnydd yn 2016**

O ran nwyon tŷ gwydr, yn 2016, amcangyfrifwyd bod cyfanswm yr allyriadau yn gyfystyr â 47.8 miliwn tunnell o garbon deuocsid ($CO_2$), sy'n gwymp o 14 y cant o'i gymharu ag allyriadau blwyddyn sylfaen 1990. Mae'r data diweddaraf yn dangos cynnydd mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr yn 2016 o'u cymharu â ffigurau 2015, sy'n cael ei yrru i raddau helaeth gan adferiad mewn cynhyrchu pŵer nwy naturiol yn dilyn nifer fawr o gyfleoedd i weithredu uwchraddiadau effeithlonrwydd yn 2015.

**2.04 Allyriadau nwyon tŷ gwydr (Cilodunelli)**




Ffynhonnell: Rhestr Allyriadau Atmosfferig Genedlaethol, Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

Mae'r gostyngiad mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr yn ystod y cyfnod hwn yn bennaf o ganlyniad i'r canlynol:

- arbedion o ran cynhyrchu ynni a gwresogi'r sector busnes
- nwy naturiol yn cymryd lle glo
- lleihad yn y diwydiant cemegol
- amrywiadau mewn allbwn gweithgynhyrchu (e.e. mewn haearn a dur, cynhyrchu cemegol mewn swmp)

Mae tua dau draean o allyriadau nwyon tŷ gwydr yn parhau i fod o ganlyniad i gyflenwi ynni, busnes a diwydiant.

Bydd data yn ymwneud ag allyriadau nwyon tŷ gwydr y gellir eu priodoli i ddefnyddio nwyddau a gwasanaethau yng Nghymru yn cael eu cynhyrchu yn y dyfodol yn unol â gofynion adran 41 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ar derfyn y cyfnod cyntaf o gyllidebu carbon.


**Bu cynnydd o ran cynhyrchu ynni adnewyddadwy, ac mae peth tystiolaeth bod cartrefi'n dod yn fwy effeithlon o ran defnyddio ynni.**

Mae defnyddio dulliau carbon isel i gynhyrchu ynni (mae ynni adnewyddadwy yn un o'r ffurfiau hyn) ynghyd â defnyddio ynni'n fwy effeithlon yn helpu i'n gwneud yn gydnerth i wynebu newid, yn ecolegol ac yn economaidd. Mae gostyngiad yn y galw am gynhyrchu ynni o danwydd ffosil yn helpu i gyfyngu ar allyriadau nwyon tŷ gwydr a fydd yn effeithio ar yr amgylchedd ac ar newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol.

Mae'r gallu i gynhyrchu ynni adnewyddadwy wedi codi yn ystod y degawd diwethaf, gyda chyflymder uwch yn y blynyddoedd diwethaf. Dangosodd astudiaeth ddiweddar o gynhyrchu ynni yng Nghymru[27] bod capasiti cynhyrchu 3,357 megawat (MW) o ynni adnewyddadwy yn 2016. Mae'r mwyafrif helaeth o hyn yn drydan adnewyddadwy (85 y cant neu 2,854 MW) tra bod capasiti gosodiadau gwres adnewyddadwy bron wedi dyblu yn y ddwy flynedd ddiwethaf i gyrraedd 504 megawat (MW).

O ran y mathau o dechnolegau ar gyfer gosod ynni adnewyddadwy, bu'r cynnydd mwyaf yn y capasiti rhwng 2014 a 2016 mewn paneli Solar PV (mwy na dyblu) a Gwynt ar y tir (cynnydd o 50 y cant). Er bod capasiti gosodiadau gwres adnewyddadwy yn parhau'n fach o'i gymharu â thrydan adnewyddadwy, gwelodd y cyfnod hwn 65 y cant o gynnydd yng nghapasiti gosodiadau biomas a chynnydd o 52 y cant yn niferoedd y pympiau gwres.

**2.05 Twf yng nghanran y trydan o ffynonellau adnewyddadwy yng Nghymru, 2007 i 2016**




Ffynhonnell: Cynhyrchu Ynni yng Nghymru, 2016

Er bod oddeutu 17.7 y cant o'r holl drydan a gynhyrchwyd yng Nghymru yn 2016 wedi dod drwy ynni adnewyddadwy, mae Cymru'n allforiwr trydan net, ac amcangyfrifir bod potensial cynhyrchu trydanol gosodiadau ynni adnewyddadwy yng Nghymru yn cyfateb i 43 y cant o ddefnydd trydan cenedlaethol Cymru.

Bydd perfformiad da o ran ynni mewn tai nid yn unig yn lleihau'r galw am ynni yn y sector domestig ond hefyd yn helpu perchnogion tai a thenantiaid i ymdopi â chostau cynnal cartref cynnes. Wrth ystyried tai cymdeithasol, adroddodd landlordiaid cymdeithasol bod bron i 96 y cant o'u stoc tai y mesurwyd eu perfformiad o ran ynni gan ddefnyddio'r Weithdrefn Asesu Safonol (SAP) yn cyflawni perfformiad ynni digonol (SAP o 65 neu uwch) yn 2017.

Ond dim ond 16 y cant o gyfanswm y stoc tai yng Nghymru sy'n dai cymdeithasol, ac mae bylchau yn ein dealltwriaeth o'r sector tai preifat am nad oes gennym ffigurau hyd yn hyn ar gyfer tai nad ydyn nhw wedi cofnodi Tystysgrif Perfformiad Ynni (EPC) (fel arfer dim ond un o'r rhain y byddwch yn ei gofnodi wrth adeiladu, gwerthu neu osod eiddo).

[27] Cynhyrchu Ynni yng Nghymru, 2016 Llywodraeth Cymru

Bydd rhagor o wybodaeth am effeithlonrwydd ynni stoc tai Cymru ar gael unwaith y bydd canlyniadau Arolwg Cyflyrau Tai Cymru 2017-18[28] yn cael eu cyhoeddi.

**Mae ein hôl-troed ecolegol yn dangos bod ein hadnoddau naturiol allweddol yn cael eu dihysbyddu'n gyflymach nag y gellir eu hadnewyddu**

Mae ôl-troed ecolegol gwlad yn cynrychioli'r arwynebedd tir sydd ei angen i ddarparu deunyddiau crai, ynni a bwyd i gyflenwi'r wlad honno yn ogystal â lleihau effaith y llygredd a'r gwastraff a gynhyrchir. Caiff ei fesur mewn hectarau byd-eang. Mae'n gwasanaethu fel dangosydd o gyfanswm y baich amgylcheddol y mae cymdeithas yn ei roi ar y blaned.

Mae hectar byd-eang yn hectar fiolegol gynhyrchiol gyda chynhyrchiant biolegol ar gyfartaledd byd ar gyfer unrhyw flwyddyn benodol. Yn 2013 amcangyfrifwyd bod oddeutu 12 biliwn hectar o dir a dŵr biolegol gynhyrchiol ar y Ddaear.

Cyfrifwyd yr ôl-troed ecolegol diwethaf ar gyfer Cymru yn 2011 ac yr oedd yn 10.05 miliwn hectar byd-eang. Yn fras, mae hyn oddeutu 5 gwaith maint Cymru ac yn gyfystyr â 3.28 hectar byd-eang y pen yng Nghymru.

Pe byddai pawb yn y byd yn defnyddio'r un faint â phreswylydd cyffredin o Gymru, amcangyfrifir y byddai angen ychydig dros 2.5 planed fel y ddaear i ddarparu'r adnoddau a lleihau effaith y gwastraff. Mae hyn ychydig yn is na'r ffigur ar gyfer y Deyrnas Unedig, sef 2.7 daear.


**Bu cyfraddau ailgylchu ar gynnydd**

Un ffordd o leihau ein hôl-troed ecolegol yw lleihau ein defnydd o ddeunyddiau. Gallwn wneud hyn drwy fabwysiadu ffyrdd mwy cynaliadwy o ddefnyddio a chynhyrchu nwyddau, drwy leihau pecynnu a gwneud gwell defnydd o'n gwastraff.

Canolbwyntiwyd ar leihau ac ail-ddefnyddio gwastraff yng Nghymru yn y blynyddoedd diwethaf ac fe gafwyd gwelliannau - mae cyfraddau ailgylchu awdurdodau lleol wedi cynyddu[29] o 52 y cant yn 2012-13 i 64 y cant yn 2016-17.

[28] Y Rhaglen Dystiolaeth ar Gyflwr Tai, Llywodraeth Cymru
[29] Local Authority Municipal Waste Management Report for Wales, 2016-17, Llywodraeth Cymru

**2.06 Canran gwastraff trefol (aelwydydd ac fel arall) awdurdodau lleol a baratowyd i'w ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio, 2012-13 i 2016-17**




Ffynhonnell: WasteDataFlow, Cyfoeth Naturiol Cymru

At hynny, mae gwastraff gweddilliol aelwydydd fesul unigolyn (h.y. swm y gwastraff na chaiff ei gasglu ar gyfer ei ailgylchu, ei ailddefnyddio neu ei gompostio) wedi gostwng tua 11 y cant rhwng 2012-13 a 2016-17.

Yn aml mae angen i wastraff o fentrau diwydiannol a masnachol a'r diwydiant adeiladu a dymchwel gael ei reoli'n wahanol i wastraff y cartref. Ni chaiff gwybodaeth am wastraff gweddilliol o bob sector (aelwydydd, adeiladu a dymchwel, diwydiannol a masnachol) ei chyhoeddi yn rheolaidd, ond yn 2012 roedd cyfanswm y gwastraff gweddilliol a gynhyrchir gan bob sector yn 2.4 miliwn tunnell. O blith hyn, roedd 1.5 miliwn tunnell (63 y cant) yn wastraff diwydiannol a masnachol, 667,000 tunnell (27 y cant) yn wastraff o aelwydydd a 240,000 tunnell (10 y cant) yn wastraff adeiladu a dymchwel.

**Er bod ceir yn parhau i fod y prif gyfrwng trafnidiaeth, bu cynnydd yn nifer y cerbydau carbon isel sy'n cael eu cofrestru, megis rhai trydan.**

Gyda'i gilydd, dros amser, bydd defnyddio llai ar geir, amseroedd cymudo sefydlog a defnyddio cerbydau carbon isel fwyfwy yn cyfrannu at leihau allyriadau.

Ers y dirwasgiad, mae'r duedd tymor hir i gynyddu'r defnydd o drafnidiaeth yng Nghymru wedi ailddechrau, gan effeithio ar bob dull ac eithrio bysus (lle mae'r defnydd wedi lleihau). Fel yn y rhan fwyaf o rannau eraill y DU y tu allan i Lundain, cludiant preifat ar y ffordd yw'r prif ddull o hyd, ac mae'n cyfrif am y mwyafrif llethol o deithiau cymudo yng Nghymru. Yn 2016, roedd 80 y cant o gymudwyr yng Nghymru'n defnyddio car fel eu dull arferol o gymudo. Roedd hyn yn ostyngiad bychan ers yr uchafswm o 84 y cant yn 2013. Mae cyfran y bobl sy'n cerdded neu'n beicio (10-12 y cant), yn teithio ar drên (2 y cant) ac yn defnyddio bysus (4 y cant) wedi aros yn sefydlog dros y 15 mlynedd diwethaf[30].

[30] Transport Statistics Great Britain, Yr Adran Drafnidiaeth

Yn yr un modd, nid oes tuedd amlwg yng nghyfartaledd yr amseroedd cymudo yng Nghymru. Mae cyfartaledd yr amser cymudo wedi bod yn sefydlog, sef tua 21-23 munud, ers 2005, heb fawr o newid ar gyfer y gwahanol ddulliau o deithio.

Y dull mwyaf poblogaidd o gludo plant i'r ysgol[31] yw ar fws neu drên (38 y cant), yna cerdded (32 y cant) ac yna mewn car/ar feic modur (27 y cant).

Mae data'r DU yn dangos bod mwy a mwy o bobl yn defnyddio cerbydau carbon isel, er bod y niferoedd yn fach i ddechrau. Yn 2017-18, trwyddedwyd 10,000 o gerbydau trydan yng Nghymru, o gymharu â llai na 700 yn 2012-13[32].

**Mae bron i 22,000 eiddo yng Nghymru â risg uchel o orlifo**

Mae bod yn ymwybodol o'r risg posibl i'n heiddo yn golygu y gallwn geisio rhoi mesurau yn eu lle i liniaru effaith unrhyw risgiau o'r fath a thrwy hynny fod yn fwy gwydn wrth wynebu digwyddiadau andwyol.

Bu i'r Asesiad Risg Llifogydd diweddaraf (2014) nodi 21,600 eiddo yng Nghymru sydd mewn perygl uchel o orlifo gan afonydd a'r môr. Nodwyd bod 39,500 eiddo arall mewn perygl canolig o lifogydd o'r fath. Noder, fodd bynnag, bod risgiau eraill i eiddo o ganlyniad i lifogydd – gan ddŵr wyneb a glaw trwm – nad ydyn nhw wedi eu cynnwys yn y ffigurau uchod ac sy'n anos eu rhagweld.

Mae canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016-17 yn dangos, er bod 1 o bob 4 o bobl yng Nghymru'n pryderu am y risg o lifogydd yn eu hardal leol, dim ond 1 o bob 11 o bobl (9 y cant) sy'n pryderu am lifogydd yn eu heiddo eu hunain. Mae'r rhai mewn ardaloedd gwledig yn poeni mwy am lifogydd yn eu hardal na'r rhai mewn ardaloedd trefol (34 y cant yn pryderu, o'i gymharu â 21 y cant yn y drefn honno).

**Cyhoeddwyd adolygiad llawer mwy manwl o ddata amgylcheddol gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn eu Hadroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR) yn 2016**.

[31] Ymddygiadau iechyd plant oedran ysgol, Llywodraeth Cymru
[32] Tabl VEH0131- Licensed plug-in cars, LGVs and quadricycles by local authority: United Kingdom, Yr Adran Drafnidiaeth

# Cymru iachach

**Nod:** Cymdeithas lle mae lles corfforol a meddyliol pobl yn cael ei hybu a lle mae pawb yn deall dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol

**Awdur: John Morris, Llywodraeth Cymru**

**Beth a ddysgwyd o'r data dros y flwyddyn ddiwethaf?**

Ychydig o newid, os o gwbl a welwyd i'r rhan fwyaf o'r prif fesurau ar gyfer iechyd dros y flwyddyn ddiwethaf - fel disgwyliad oes, canran y babanod a anwyd â phwysau geni isel a chanran y bobl â llai na dau ymddygiad iach.

Ar ôl blynyddoedd o gynnydd parhaus, mae data diweddar yn dangos bod y gwelliannau i ddisgwyliad oes wedi parhau i arafu, a hyd yn oed stopio. Mae hyn yn wir ar draws y DU, a hefyd i'w weld mewn mannau eraill ar draws y byd. Fodd bynnag, roedd y cynnydd mewn disgwyliad oes yn y DU yn fach o gymharu â nifer o wledydd eraill.

Nid oedd unrhyw newid sylweddol yn y 5 prif ymddygiad iach (peidio smygu, peidio yfed mwy na'r canllawiau wythnosol, bwyta ffrwythau a llysiau, ymarfer corff, pwysau iach) rhwng 2016-17 a 2017-18.

Darlun cymysg sydd ar gyfer iechyd plant, er enghraifft gwelwyd gwelliannau o ran iechyd deintyddol, ond ar yr un pryd gwelwyd cynnydd o ran gordewdra ymysg plant yn ystod y flwyddyn, ac mae bellach ar lefel debyg i bedair blynedd yn ôl.

Mae mesur llesiant yn fater cymhleth, ac mae llesiant yn newid drwy gydol ein bywydau. Yn ôl dadansoddiadau, mae llesiant plant a'u hadroddiadau eu hunain am eu hiechyd a'u ffyrdd o fyw yn newid yn syfrdanol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol uwchradd. Yn 11 oed, mae adroddiadau merched a bechgyn am eu llesiant a'u hiechyd yn weddol debyg, ond erbyn cyrraedd 16 oed, mae bwlch wedi dod i'r amlwg, gyda'r merched yn dweud nad yw eu llesiant na'u hiechyd gystal.

Mae llesiant meddyliol yn gwella o oedrannau iau hyd at oedrannau hen iawn, ond mae boddhad â bywyd yn gostwng dros dro yn ystod canol oed. Mae merched yn sgorio cryn dipyn yn is na bechgyn wrth ystyried hwyliau a theimladau, ac yn fwy tebygol o hunan-niweidio.

Hunan adroddiadau am iechyd gwael iawn neu wael oedd y ffactor cryfaf yn ymwneud â llesiant personol gwael ymysg oedolion. Iechyd oedd y ffactor pwysicaf wrth ystyried llesiant meddyliol hefyd.


Ar gyfer y rhan fwyaf o fathau o ganser, mae lefelau goroesi yn dirywio os yw'r diagnosis yn hwyrach - gall graddfa'r dirywiad rhwng camau cynharaf a chamau hwyraf y canser amrywio gan ddibynnu ar y math o ganser. Er bod cyfraddau goroesi Cymru yn wael o gymharu ag Ewrop, maent yn debyg i rai Lloegr.

**Ar ôl blynyddoedd o gynnydd parhaus, mae'r gwelliannau i ddisgwyliad oes wedi pallu**

Mae disgwyliad oes[33] wedi cynyddu 3.0 blynedd ar gyfer dynion a 2.2 flynedd ar gyfer merched ers y cyfnod 2001 i 2003, ac mae'r bwlch rhwng disgwyliad oes dynion a merched yn cau. Gallai merch a aned yng Nghymru rhwng 2014 a 2016 ddisgwyl byw i fod yn 82 oed a gallai bachgen ddisgwyl byw i fod yn 78 oed.

Fodd bynnag, dros y tair neu bedair blynedd ddiwethaf, nid yw'r disgwyliad oes wedi cynyddu o gwbl. Mae ymchwil gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol[34] yn dangos bod hyn yn wir am Gymru a Lloegr, a bod gwelliannau o ran cyfraddau marwolaeth dros y degawd diwethaf wedi arafu ar gyfer bob oed. Mae adroddiadau pellach[35] [36] yn dangos bod yr arafu hwn wedi'i weld ar draws pedair gwlad y DU (ond yn bennaf yng Nghymru a Lloegr). Roedd hefyd yn amlwg mewn nifer o wledydd eraill yn rhyngwladol, er i'r DU arafu mwy na'r rhan fwyaf. Nododd yr adroddiad hefyd bod Japan wedi dod drwy gyfnod o welliannau isel i ddisgwyliad oes a bod y gwelliannau i gyfraddau marwolaeth wedi dechrau cyflymu eto yn ddiweddar, gan ddangos bod modd i wlad ddychwelyd at welliannau cyflym hyd yn oed ar ôl cyfnod o arafu.

**3.01 Disgwyliad oes adeg genedigaeth yn ôl rhyw, 2001-03 i 2014-16**





Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

33 Health state life expectancies, UK: 2014 to 2016, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
34 Changing trends in mortality in England and Wales: 1990 to 2017 (Experimental Statistics), Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
35 Changing trends in mortality: a cross-UK comparison, 1981 to 2016, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
36 Changing trends in mortality: an international comparison, 2000 to 2016, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

**Mae disgwyliad oes iach yn dal i fod yn anghyfartal ledled Cymru**

Mae cysylltiad cryf rhwng amddifadedd a disgwyliad oes – bydd gan bobl sy'n cael eu geni i deuluoedd difreintiedig ddisgwyliad oes iach byrrach. Adlewyrchir hyn yn y bwlch rhwng disgwyliad oes iach yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig ac yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig yng Nghymru, ac nid yw hyn wedi newid yn y blynyddoedd diwethaf.

**3.02 Bwlch mewn disgwyliad oes rhwng y rhannau mwyaf a lleiaf difreintiedig yng Nghymru, 2005 i 2014**




Ffynhonnell: Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru

Yn ôl dadansoddiad mwy diweddar gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol[37], mae'r bwlch rhwng y mwyaf a'r lleiaf difreintiedig (gan ddefnyddio degraddau amddifadedd yn hytrach na phumedau) wedi parhau'n gymharol gyson dros y blynyddoedd diwethaf.

**Mae hunan adroddiadau am iechyd cyffredinol yn newid mwy yn yr ysgol uwchradd i ferched na bechgyn, ac yn dirywio'n sylweddol wrth i fywyd fynd yn ei flaen**

Am faint rydych chi'n disgwyl bod mewn iechyd da? Wel, roedd y cyfnod y gallai rhywun yng Nghymru ddisgwyl bod mewn iechyd da wedi bod yn cynyddu (yn seiliedig ar y rhai a ddywedodd drostynt eu hunain bod eu hiechyd yn dda). Fodd bynnag, yn yr un ffordd â disgwyliad oes, mae hyn wedi pallu ac ychydig iawn o newid a welwyd dros y pum mlynedd ddiwethaf.

Gan fod merched yn byw i fod yn hŷn, mae'r ganran o'u hoes y disgwylir y bydd yn cael ei threulio mewn iechyd da[38] yn is nag ar gyfer bechgyn: 76 y cant o oes merch a 79 y cant o oes bachgen.

[37] Health state life expectancies by national deprivation deciles, England and Wales: 2014 to 2016, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
[38] Health state life expectancies, UK: 2014 to 2016, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

O flwyddyn 9 ymlaen, mae mwy o ferched na bechgyn yn dweud bod eu hiechyd yn weddol/gwael[39]. Yn 11 oed (blwyddyn 7) mae cyfran y bechgyn a merched sy'n dweud bod eu hiechyd yn wael yr un fath (un o bob saith), ond erbyn cyrraedd 16 oed (blwyddyn 11) mae bwlch - gydag un o bob tair o ferched yn dweud bod eu hiechyd yn wael o gymharu ag un o bob pedwar o fechgyn. Fodd bynnag, mae'r gyfran gyffredinol o blant sy'n dweud bod eu hiechyd yn wael wedi syrthio - o 26 y cant yn 2002 i 22 y cant yn 2018. Mae'r cwymp i'w weld yn fwyaf amlwg ymysg merched ond ychydig o newid a welwyd i ferched blwyddyn 11 dros y 12 mlynedd ddiwethaf.

Mae hunan adroddiadau oedolion Cymru am eu hiechyd yn gyffredinol[40] wedi bod yn gwella dros amser ar gyfer oedolion hŷn, ond wedi dirywio ychydig ar gyfer oedolion iau (gan fod mwy o oedolion iau yn cael eu trin am gyflyrau iechyd meddwl). Mae hunan adroddiadau am iechyd[41] yn dirywio dros amser, gydag 83 y cant o'r rhai 16-24 oed yn dweud bod eu hiechyd yn dda neu'n dda iawn o gymharu â 49 y cant o'r rhai 75 oed neu hŷn.


**Mae cyfraddau goroesi canser Cymru yn cyfateb i rai Lloegr, ac mae dadansoddiad newydd yn dangos bod diagnosis cynnar yn bwysig**

Nid oes unrhyw newidiadau sylweddol i gyfraddau goroesi pum mlynedd[42] Cymru a Lloegr am unrhyw fath o ganser, ac mae'r un peth yn wir am gyfraddau goroesi blwyddyn bron i bob math o ganser. Fodd bynnag, gwelwyd bod cyfraddau goroesi yn is yng Nghymru na'r rhan fwyaf o wledydd Ewropeaidd eraill (ar sail Eurocare 5, 2000-2007[43]), gyda'r cyfraddau goroesi pum mlynedd (hynny yw y rhai sy'n goroesi am 5 mlynedd ar ôl diagnosis o ganser) tua 4 pwynt canran yn llai na chyfartaledd Ewrop ar gyfer pob math o ganser.

---

[39] Ymddygiadau Iechyd Plant Oedran Ysgol, Llywodraeth Cymru; data dros dro yw data 2018; dechreuwyd casglu data ar-lein yn 2018 a all effeithio ar ein gallu i gymharu.
[40] Welsh Health Survey Trends 2003/04-2015, Llywodraeth Cymru
[41] Arolwg Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru
[42] Cancer Survival in Wales, Iechyd Cyhoeddus Cymru
[43] Survival of Cancer Patients in Europe The EUROCARE-5 Study, Instituto Superiore di Sanità

**3.03 Cyfraddau goroesi canser am 5 mlynedd (2000-2007, cymharol, safonedig yn ôl oedran)**




Ffynhonnell: Eurocare V

Ar gyfer y rhan fwyaf o fathau o ganser, mae lefelau goroesi yn dirywio os yw'r diagnosis yn hwyrach[44] - gall graddfa'r dirywiad rhwng camau cynharaf a chamau hwyraf y canser amrywio gan ddibynnu ar y math o ganser. Mae cyfraddau goroesi dynion yn well na menywod ar gyfer sawl math o ganser pan fydd y diagnosis ar gam hwyrach neu anhysbys, ac eithrio canser yr ysgyfaint a melanoma.

**Mae eich llesiant yn newid drwy gydol eich oes - mae'n dirywio pan fyddwch yn yr ysgol uwchradd (yn arbennig i ferched) ac yna'n gwella wrth fynd yn hŷn.**


Mae hunan adroddiadau am foddhad â bywyd[45] yn dirywio i ferched o flwyddyn 7 (11 oed) i flwyddyn 11 (16 oed) ac yn amlwg yn is na bechgyn. Yn gyffredinol, mae hunan adroddiadau am foddhad â bywyd wedi aros ar yr un lefel dros y degawd diwethaf fwy neu lai, o 2002 i 2018.

---

[44] Cancer Survival by Stage at Diagnosis in Wales, Iechyd Cyhoeddus Cymru
[45] Ymddygiadau Iechyd Plant Oedran Ysgol, Llywodraeth Cymru

Mae cyfraddau boddhad â bywyd oedolion wedi cynyddu ychydig dros amser, ac maent yn debyg ar y cyfan i wledydd eraill y Deyrnas Unedig[46]. Fodd bynnag, yn y flwyddyn a ddaeth i ben fis Rhagfyr 2017, nododd cyfran uwch o bobl Cymru lefelau isel o foddhad â bywyd, teimlo gwerth chweil a hapusrwydd o gymharu â chyfartaledd y DU. Er enghraifft, ar gyfer 4.3 y cant o bobl Cymru roedd eu sgôr o ran teimlo gwerth chweil rhwng 0 a 4, o gymharu â dim ond 3.4 y cant ar draws y DU yn gyfan. Er hynny, nid oedd gwahaniaeth sylweddol rhwng cyfraddau pryder rhwng Cymru a chyfartaledd y DU.

**3.04 Canlyniadau llesiant meddyliol bechgyn a merched 14 oed, 2015, Cymru**




(a) % â sgôr uchel (12 neu fwy allan o 26) ar y raddfa Hwyliau a Theimladau
(b) % â sgôr isel (o dan y pwynt canol) ar gyfer hapusrwydd mewn bywyd yn gyffredinol
(c) % sydd wedi anafu eu hunain yn fwriadol mewn unrhyw ffordd dros y flwyddyn ddiwethaf
Ffynhonnell: Astudiaeth Carfan y Mileniwm

Mae merched yn sgorio cryn dipyn yn is na bechgyn ar y raddfa hwyliau a theimladau, ac mae cyfran uwch ohonynt wedi hunan-niweidio yn y flwyddyn ddiwethaf.


Yn ôl dadansoddiad gan y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion[47] mae llesiant meddyliol yn weddol debyg i fechgyn a merched blwyddyn 7, ond erbyn blwyddyn 10 mae llesiant meddyliol merched wedi dirywio mwy na bechgyn.

Dywedodd canran uwch o fechgyn na merched (19 y cant o gymharu ag 13 y cant) eu bod wedi bwlio[48] plentyn arall, ond mae hyn wedi syrthio yn ystod y degawd diwethaf. Fodd bynnag, dywedodd canran uwch o ferched na bechgyn eu bod yn cael eu bwlio (38 y cant o gymharu â 33 y cant) gyda thystiolaeth bod hyn wedi cynyddu yn y blynyddoedd diweddaraf hyd at 2018.

[46] Personal well-being in the UK: January to December 2017, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
[47] Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion
[48] Ymddygiadau Iechyd Plant Oedran Ysgol, Llywodraeth Cymru

Yn gyffredinol ar gyfer disgyblion ysgol uwchradd, roedd 35 y cant wedi cael eu bwlio yn ystod y ddau fis diwethaf, a 9 y cant wedi cael eu bwlio o leiaf unwaith yr wythnos.

**3.05 Boddhad â bywyd a llesiant meddyliol yn ôl oedran, 2016-17**





NODYN: NID YW'R SIART YN CYCHWYN AR SERO
Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Er bod llesiant meddyliol yn parhau i wella tan oedran hen iawn, mae boddhad â bywyd yn gostwng dros dro yn ystod canol oed. Yn ôl y siart uchod, er mai oedolion ifanc (16-24) sydd â'r sgôr isaf o lesiant meddyliol ar gyfartaledd, mae eu sgôr o ran boddhad â bywyd yn uwch na'r rhai 25-64 oed. Mae'r sgoriau llesiant meddyliol cyfartalog ar gyfer menywod yn gyson is na rhai dynion ar draws pob grŵp oedran[49]. Er bod sgoriau boddhad â bywyd ychydig yn uwch i fenywod na dynion ar gyfartaledd (7.8 o gymharu â 7.7), mae mwy o fenywod yn cael sgôr isel iawn o ran boddhad â bywyd a sgôr uchel iawn o ran boddhad â bywyd, fel y gwelir yn y siart isod.

Yn 2017-18, dywedodd tua 9 y cant o oedolion bod ganddynt anhwylder meddyliol hirdymor.

[49] Graddfa Llesiant Meddwl Warwick-Caeredin yn ôl grŵp oedran a rhyw, Llywodraeth Cymru

**3.06 Boddhad â bywyd yn ôl rhywedd, 2017-18**




Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Mae nifer o ffactorau eraill sydd hefyd yn bwysig ar gyfer lles corfforol a meddyliol ac mae llawer o'r rhain wedi'u cynnwys yn fframwaith canlyniadau iechyd y cyhoedd. Gan reoli ar gyfer amrywiol ffactorau[50], gwelwyd bod gwell llesiant meddyliol yn gysylltiedig yn bennaf ag iechyd da. Roedd peidio â bod mewn amddifadedd materol a bod yn hŷn hefyd ymysg y ffactorau pwysicaf ar gyfer llesiant meddyliol oedolion.

Gall amrywiol ffactorau ddylanwadu ar lesiant. Yn ôl adroddiad a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol iechyd oedd y prif ffactor a oedd yn dylanwadu ar les personol, yn cael ei ddilyn gan sefyllfa o ran gwaith a statws perthynas.

O ran cyflogaeth, mae'r data'n dangos gwelliant sylweddol yng nghyfradd cyflogaeth Cymru dros y cyfnod ers datganoli, gyda chyfradd cyflogaeth o 74.8 y cant ar gyfer y cyfnod rhwng mis Mai a mis Gorffennaf 2018, 0.7 y cant yn is na ffigur y DU. Fodd bynnag, mae bwlch yn parhau rhwng cyfradd cyflogaeth y rhai 16 oed ac yn hŷn sydd â chyflyrau iechyd hirdymor a'r rhai heb gyflwr o'r fath, ac roedd yn 15.9 pwynt canran yn 2017. Mae'r gyfradd hunanladdiad ar gyfer pobl sydd wedi ysgaru dros ddwywaith gymaint â phobl sengl, tra mai'r rhai sydd mewn perthynas sydd â'r gyfradd isaf.

Mae'r man lle'r ydych yn byw yn bwysig o ran llesiant (ac iechyd) gyda mynediad at ofod gwyrdd a chydlyniant cymunedol yn effeithio ar y ffordd y mae pobl yn teimlo.

Yn gyffredinol, mae ansawdd aer yng Nghymru wedi gwella cryn dipyn ers y 1970au, yn bennaf yn sgil rheolaethau statudol dros allyriadau a dirywiad diwydiant trwm. Fodd bynnag, mae llygredd o ffynonellau eraill megis trafnidiaeth, amaethyddiaeth a gwresogi cartrefi yn fwy o destun pryder. Ceir y crynodiadau uchaf o allyriadau nitrogen deuocsid mewn ardaloedd trefol mawr, ac yn agos at ffyrdd prysur. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn amcangyfrif bod cyfwerth â thua 1,600 o farwolaethau oherwydd amlygiad i $PM_{2.5}$, a thua 1,100 o farwolaethau oherwydd amlygiad i $NO_2$, bob blwyddyn yng Nghymru (oherwydd bod yr effaith ar iechyd o'r llygryddion unigol yn gorgyffwrdd, nid yw'n bosibl symio'r rhain).

[50] National Survey for Wales, 2016-17: Further analysis of mental well-being, Llywodraeth Cymru

Mae'r rhai sydd mewn iechyd da'n rhoi sgorau llawer uwch (cadarnhaol) ar gyfer llesiant meddyliol (gan ddefnyddio Graddfa Lles Meddyliol Warwick-Caeredin) na'r rhai nad ydynt mewn iechyd da.

**Gall profiadau niweidiol yn ystod plentyndod gael effaith hirdymor, ond gall cymryd rhan mewn chwaraeon helpu rhywun i fod yn gryfach yn ddiweddarach mewn bywyd**

Mae canlyniadau'r astudiaeth gyntaf o Brofiadau Niweidiol mewn Plentyndod[51] yn cymharu pobl sydd wedi dioddef pedwar neu ragor o brofiadau niweidiol yn ystod eu plentyndod â phobl sydd heb gael unrhyw brofiadau niweidiol yn ystod eu plentyndod, ac yn dod i'r casgliad bod y rhai a oedd wedi dioddef 4 gwaith yn fwy tebygol o brofi yfed risg uchel yn ystod eu cyfnod fel oedolion, 6 gwaith yn fwy tebygol o fod yn smygwr ac 14 gwaith yn fwy tebygol o fod wedi dod i gysylltiad â thrais yn y flwyddyn ddiwethaf. Roedd yr ail arolwg[52] yn dangos patrwm tebyg, a bod y bobl oedd wedi dioddef pedwar neu fwy o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod 6.1 gwaith yn fwy tebygol o gael eu trin am anhwylder meddyliol. Roedd cael rhywfaint o adnoddau cadernid yn mwy na haneru'r perygl o afiechyd meddyliol ar hyn o bryd ymysg y rhai â phedwar neu fwy o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod.

Roedd yr adroddiad am brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod hefyd yn dangos perthynas gref rhwng cymryd rhan mewn chwaraeon yn ystod plentyndod a llai o salwch meddwl gydol oes. Ceir cysylltiadau hefyd rhwng cymryd rhan mewn chwaraeon yn rheolaidd fel oedolyn a salwch meddwl.

Dangosodd Arolwg Cenedlaethol Cymru[53] bod 59 y cant o bobl wedi cymryd rhan mewn rhyw fath o chwaraeon neu ymarfer corff dros y 4 wythnos ddiwethaf yn 2017-18. Y gweithgaredd mwyaf cyffredin o bell oedd cerdded dros 2 filltir (33 y cant o bobl), yna mynd i'r gampfa neu wersi ffitrwydd (16 y cant), nofio dan do (13 y cant) a loncian (11 y cant). Roedd 11 y cant o'r oedolion yn cymryd rhan mewn gweithgaredd chwaraeon neu ymarfer corff o leiaf unwaith yr wythnos, 8 y cant dwywaith yr wythnos a 32 y cant o leiaf dair gwaith yr wythnos. Roedd menywod yn llai tebygol o gymryd rhan mewn chwaraeon, gyda 45 y cant heb unrhyw weithgarwch rheolaidd o gymharu â 35 y cant o ddynion.

**Mae blynyddoedd cynnar plentyn yn amser allweddol i helpu i sicrhau canlyniadau da yn ddiweddarach mewn bywyd**

Mae nifer y babanod sengl (yn hytrach nag efeilliaid neu dripledi ac ati) sy'n pwyso llai na 2.5kg (5 pwys, 8 owns) ar adeg eu geni wedi bod yn gostwng dros y 10 mlynedd diwethaf. Dangosodd yr ystadegau diweddaraf ar gyfer 2017 fod 5.6 y cant o enedigaethau (babanod sengl) yn fabanod â phwysau geni isel yng Nghymru. Dyma'r ganran uchaf ers 2009.

[51] Gwefan Iechyd Cyhoeddus Cymru
[52] Gwefan Iechyd Cyhoeddus Cymru
[53] Arolwg Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru

Gall nifer o wahanol ffactorau[54] arwain at bwysau geni isel, er enghraifft smygu yn ystod beichiogrwydd, anaemia, camddefnyddio sylweddau ac iechyd rhywiol gwael. Roedd y gyfradd ar gyfer yr holl enedigaethau byw yng Nghymru yn 6.8 y cant yn 2015 (mae hyn yn cynnwys genedigaethau nad oeddent yn rai sengl) a oedd ychydig yn uwch na chyfartaledd yr OECD[55] (6.5 y cant). Ond tra mae cyfartaledd yr OECD wedi cynyddu 0.4 pwynt canran rhwng 2001 a 2015, mae'r gyfradd ar gyfer Cymru wedi gostwng.

Mae cysylltiad agos rhwng pwysau geni isel ac amddifadedd. Roedd y dadansoddiad diweddaraf, gan ddefnyddio data o 2012 i 2014, yn dangos bod y pumed mwyaf difreintiedig 30 y cant yn fwy tebygol o gael babi sengl â phwysau geni isel na'r pumed yn y canol.

Mae gan fwydo o'r fron fanteision iechyd i fabanod a mamau. Mae canran y babanod sy'n cael eu bwydo o'r fron[56] adeg eu geni wedi cynyddu o 55 y cant yn 2006 i 61 y cant yn 2017. Mae babanod mamau hŷn yn fwy tebygol o gael eu bwydo o'r fron o'i gymharu â mamau iau. Mae cyfraddau bwydo o'r fron wedi cynyddu, ond tua 60 y cant o'r mamau a ddechreuodd fwydo eu babanod o'r fron ar eu geni sy'n dal i wneud hynny ar ôl 6-8 wythnos.

Mae'r ffigurau diweddaraf ar iechyd deintyddol plant[57] (pump a deuddeg oed) yn dangos gwelliannau. Gwelwyd gostyngiad yng nghyfran y plant pump oed sydd â phydredd dannedd dros y degawd diwethaf fwy neu lai, ac er bod cyfran y plant sydd â phydredd dannedd ar ei huchaf ymysg yr ardaloedd mwyaf difreintiedig o gymharu â'r lleiaf, mae'r bwlch hwnnw yn cau.

Ar gyfer y rhai deuddeg oed, gwelwyd gostyngiad parhaus yn nifer yr achosion o bydredd yn y dannedd ar draws pob pumawd amddifadedd rhwng 2004 a 2017. Er gwaethaf hyn, mae cymarebau pydredd yn y dannedd yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig o gymharu â'r grwpiau o amddifadedd canolig i'w gweld yn ehangu ychydig bach.

Gostyngodd cyfraddau beichiogi yn yr arddegau[58] i'w lefel isaf erioed yng Nghymru yn 2016, ac maent wedi gostwng yn ddramatig ers 2008. Mae'r gyfradd ar gyfer y rhai o dan 18 oed wedi mwy na haneru dros yr un cyfnod.

**Mae data newydd ar gael ar camau datblygiad plant ar fynediad i ysgol cynradd.**

Mae plant yng Nghymru yn cael eu hasesu, drwy Broffil y Cyfnod Sylfaen, yn ystod eu 6 wythnos gyntaf ar ôl dechrau yn yr ysgol gynradd (dosbarth derbyn). Mae hyn yn cael ei ddefnyddio i ddarganfod cam datblygiad a diddordebau'r plentyn yn ôl Proffil a Fframwaith y Cyfnod Sylfaen.


Mae'r data yn adlewyrchu'r ystod eang o aeddfedrwydd datblygiadol a ddisgwylir yn yr oed hwn, sydd o fewn yr ystod safonol ar gyfer plant wrth ddechrau yn yr ysgol, yn enwedig o ystyried oed amrywiol plant sy'n dechrau'r ysgol.

---

[54] Low Birth Weight: Review of risk factors and interventions, Iechyd Cyhoeddus Cymru
[55] Health at a Glance 2017: Infant Health, OECD
[56] Births in Wales 2006 - 2016: Data from the National Community Child Health Database, Llywodraeth Cymru
[57] Survey of twelve year olds oral health 2016-17, Prifysgol Caerdydd
[58] Conceptions in England and Wales 2016, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Un o'r meysydd lle asesir plant yw datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.  Mae tua 7 o bob 10 disgybl 4 oed wedi cyrraedd cam datblygiad yn y maes dysgu hwn a fyddai'n gyson â'u hoed yn ôl y fframwaith, neu'n well, ac mae tua 9 o bob 10 disgybl o fewn un cam i'r datblygiad sy'n gyson â'u hoed.

**3.07 Asesiadau dechreuol o ddisgyblion mewn dosbarthiadau derbyn: Datblygiad personol a chymdeithasol**





Ffynhonnell: Asesiadau dechreuol o ddisgyblion, Llywodraeth Cymru

**Mae'r rhan fwyaf o ymddygiadau iechyd yn dechrau dirywio yn yr ysgol uwchradd, ond yn gwella wrth fynd yn hŷn**

Roedd 10 y cant o'r rhai 16 oed neu hŷn a 12 y cant o'r bobl ifanc 11 i 16 oed yn dangos llai na dau ymddygiad ffordd iach o fyw (dim smygu, dim yfed mwy na'r canllawiau, bwyta pum llysieuyn a ffrwyth bob dydd, bodloni canllawiau gweithgarwch corfforol ac (ar gyfer oedolion) pwysau iach). Ar gyfer plant, mae nifer yr ymddygiadau iach yn dirywio gydag oedran. Roedd gan 2 y cant o ddisgyblion blwyddyn 7 lai na dau ymddygiad iach, gan godi i 9 y cant ym mlwyddyn 9 a 27 y cant ym mlwyddyn 11.


**3.08 Canran o blant yn dilyn llai na dau ymddygiad ffordd o fyw iachus yn ôl blwyddyn ysgol, 2013/14**




Ffynhonnell: Ymddygiadau Iechyd Plant Oedran Ysgol

Mae bechgyn yn fwy tebygol o fod yn ordew neu dros bwysau yn yr ysgol, gyda'r bwlch yn ehangu yn ystod ysgol uwchradd a hyd at ganol oed, pan fydd yn dechrau cau eto.

**3.09 Canran o blant oed 11-16 yn dilyn ymddygiadau iechyd dewisol**




Ffynhonnell: Ymddygiadau Iechyd Plant Oedran Ysgol a Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion

Mae cyfraddau ysmygu[59] wedi gostwng ers 1998 ar gyfer plant 11 i 16 mlwydd oed, o 13 y cant i oddeutu 4 y cant yn 2017/18. Mae cyfraddau yfed yn wythnosol ymhlith pobl ifanc wedi gostwng yn sylweddol rhwng 2002 (23 y cant) a 2017/18 (9 y cant). Nid yw cymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol wedi newid llawer ers 2002, gyda bechgyn yn gyson fwy tebygol na merched o gymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol. Data dros dro yw data 2017/18.


[59] Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion. Noder mai data dros dro yw'r rhain a'u bod yn wahanol i'r rhai a gaiff eu cynhyrchu ar gyfer HBSC

Tua thraean y plant ysgol uwchradd sy'n cerdded i'r ysgol[60], gyda chyfran ychydig yn uwch o fechgyn na merched yn gwneud hynny.

Mae cyfraddau smygu a chanran y bobl sy'n yfed gormod o alcohol yng Nghymru wedi gostwng dros amser. Ond er bod rhai tueddiadau cadarnhaol, mae heriau'n bodoli o hyd ac ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru yn wynebu mwy o heriau[61]. Mae 15 y cant o'r oedolion yn yr ardaloedd hyn yn dangos llai na dau ymddygiad ffordd iach o fyw o gymharu â dim ond 9 y cant yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig.

Er bod bron pob un o'r ymddygiadau ffordd o fyw yn 'waeth' mewn ardaloedd difreintiedig, roedd oedolion yn llai tebygol o yfed mwy na'r canllawiau alcohol wythnosol yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig nag yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig.

**3.10 Ffordd o fyw oedolion fesul pumawd amddifadedd, 2017-18**




Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Mae'r rhai mewn amddifadedd materol yn fwy tebygol o'i chael yn anodd fforddio deiet iach. Dywedodd 2 y cant nad ydynt yn gallu fforddio bwyta prydau â chig, pysgod (neu rywbeth llysieuol cyfatebol) o leiaf bob yn ail ddiwrnod, tra dywedodd 4 y cant bod o leiaf un diwrnod yn y pythefnos diwethaf pan fu'n rhaid mynd heb bryd sylweddol o fwyd yn sgil prinder arian. Roedd pobl hŷn yn llai tebygol o fod mewn amddifadedd materol na phobl ifanc neu ganol oed.

[60] Ymddygiadau Iechyd Plant Oedran Ysgol, Llywodraeth Cymru
[61] Arolwg Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru

# Cymru sy'n fwy cyfartal

**Y nod:** Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol).

**Awdur: Sue Leake, Stephen Macey, Llywodraeth Cymru**

**Beth ydym ni wedi ei ddysgu o'r data yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?**

Anfantais economaidd-gymdeithasol:

- Ychydig iawn o newid sydd wedi bod yn y lefelau tlodi cymharol yng Nghymru ers sawl blwyddyn; plant ydy'r grŵp poblogaeth sydd fwyaf tebygol o fod mewn tlodi cymharol ac er bod tlodi cymharol ymysg pensiynwyr wedi cynyddu dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae'r ganran sydd mewn tlodi yn dal yn dipyn is nag yr oedd tua diwedd yr 1990au.
- Mae bwlch sylweddol o hyd rhwng canlyniadau addysgol plant yn yr ysgol sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a phlant nad ydynt yn gymwys, ac mae'r bwlch yn cynyddu wrth i ddisgyblion fynd yn hŷn. Gwnaeth y bwlch yng Nghyfnod Allweddol 4 gynyddu ychydig yn 2017.

Rhyw:

- O ran addysg, mae merched yn parhau i gael gwell canlyniadau addysgol na bechgyn. Mae'r bwlch wedi cynyddu ychydig ymysg disgyblion mewn grwpiau oedran iau yn 2018.
- Mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn lleihau. Ond mae llai o ferched wedi'u cyflogi mewn gwaith sy'n cyfateb i ddiffiniad ein dangosydd cenedlaethol o gyflogaeth o ansawdd da (51.8 y cant o gymharu â 75.2 y cant o ddynion).
- Er bod merched yn fwy tebygol o wirfoddoli a darparu gofal na'u cymheiriaid sy'n ddynion, maent yn teimlo'n llai diogel yn eu cymunedau na dynion ar y cyfan.

Oedran:

- Mae'r data diweddaraf yn cadarnhau bod sgoriau bodlonrwydd ar fywyd yn gostwng ymysg pobl ganol oed (45–64) a bod pobl rhwng 16 a 64 oed yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn unig na phobl 65 oed neu hŷn.
- Mae'r rheini yn y grwpiau oedran iau yn fwy tebygol o fod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon neu gelfyddydol, ond mae gwirfoddoli'n fwy cyffredin yn y grwpiau oedran hŷn.
- Mae pobl ifanc rhwng 16 a 24 oed mewn perygl uwch o ddioddef troseddau (gan gynnwys troseddau treisgar) a nhw sydd lleiaf tebygol o deimlo'n ddiogel wrth gerdded yn eu hardal leol ar ôl iddi dywyllu.

Ethnigrwydd:

- Mae'r data diweddaraf yn dal i ddangos rhywfaint o wahaniaethau mewn cyrhaeddiad addysgol rhwng grwpiau ethnig, gyda chyfran uwch o blant o gefndir ethnig Asiaidd, Tsieineaidd neu ethnigrwydd cymysg yn cyrraedd y lefelau cyrhaeddiad disgwyliedig

na'r rheini o gefndir Gwyn.

- Er nad oes gennym ddadansoddiadau manwl ar gyfer gwahanol gefndiroedd ethnig, mae'r data diweddaraf yn dangos bod cefndir ethnig heb fod yn wyn yn gysylltiedig â mwy o debygolrwydd o dlodi incwm cymharol.
- Mae'r boblogaeth o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn dal wedi'u tangynrychioli mewn bywyd gwleidyddol lleol, ond maent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol yn ôl pob golwg.
- Bernir o hyd bod hil yn ffactor allweddol mewn bron i dri chwarter yr holl droseddau casineb, ac mae digwyddiadau hil a gofnodwyd wedi bod yn cynyddu.

Crefydd:

- Ychydig o ddata newydd sydd eleni ynglŷn â phrofiadau pobl o wahanol grefyddau yng Nghymru. Fodd bynnag, yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol yn 2017, mae'n ymddangos bod pobl ddigrefydd a phobl sy'n dilyn crefydd ar wahân i Gristnogaeth yn dal wedi'u tangynrychioli mewn bywyd gwleidyddol lleol.
- Bu rhywfaint o gynnydd yn nifer y troseddau casineb y cofnodwyd eu bod wedi'u cymell gan grefydd, ond mae'r rhain yn dal yn cynrychioli cyfran isel o'r holl droseddau casineb.

Cyfeiriadedd rhywiol:

- Yn ôl yr amcangyfrifon diweddaraf, mae 1.7 y cant o boblogaeth Cymru yn ystyried eu hunain yn lesbiaidd, yn hoyw neu'n ddeurywiol.
- Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod gan y boblogaeth LHD ychydig yn llai o ymdeimlad o gymuned yn eu hardal leol na phobl eraill efallai, ond mae'n fwy tebygol o gymryd rhan mewn bywyd gwleidyddol lleol.
- Bernir bod un o bob chwe throsedd casineb a gofnodir yng Nghymru wedi bod yn gysylltiedig â chyfeiriadedd rhywiol, ond mae ymchwil Stonewall Cymru yn nodi nad yw llawer o ddigwyddiadau o'r fath yn cael eu hadrodd i'r heddlu.

Anabledd:

- Mae'r gyfradd cyflogaeth ymysg oedolion anabl rhwng 16 a 64 oed yn dal yn is na'r gyfradd ymysg pobl nad ydynt yn anabl ac mae'r bwlch wedi bod yn gyson dros y blynyddoedd diwethaf.
- Mae byw gydag unigolyn sydd ag anabledd yn parhau i wneud tlodi incwm cymharol yn fwy tebygol i blant a phobl oedran gwaith.
- Mae byw ag anabledd neu salwch cyfyngol hirdymor yn gallu cael effaith negyddol ar deimladau o fodlonrwydd ar fywyd, diogelwch mewn ardal ac ymdeimlad o gymuned.

Statws priodasol:

- Fel sy'n cael ei gadarnhau gan y data diweddaraf, mae bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil yn gallu bod yn dda i'ch llesiant, gyda'r dangosyddion llesiant yn uwch i'r grwpiau hyn na'r rheini sy'n sengl, wedi gwahanu, wedi ysgaru, neu'n weddw.
- Mae pobl sydd wedi ysgaru, wedi gwahanu neu sydd erioed wedi priodi yn dal yn fwy tebygol o gael trafferthion ariannol. Mae bod wedi gwahanu neu wedi ysgaru'n cael

eu cysylltu'n arbennig ag amddifadedd materol.

- Roedd aelwydydd un rhiant yn fwy tebygol o fod mewn amddifadedd materol na mathau eraill o aelwydydd. Adroddodd hanner yr aelwydydd un rhiant a gofnodwyd eu bod mewn amddifadedd materol yn 2016-17.


## Anfantais economaidd gymdeithasol

**Ers sawl blwyddyn bellach, mae bron i chwarter y bobl sy'n byw yng Nghymru wedi bod yn byw mewn tlodi, ac mae'r data diweddaraf yn ategu hyn.**

Rhwng 2014-15 a 2016-17, roedd bron i chwarter holl bobl Cymru (24 y cant) yn byw mewn tlodi incwm cymharol ar ôl talu costau eu tŷ. Mae hyn yn golygu eu bod yn byw mewn aelwyd lle roedd cyfanswm incwm yr aelwyd o'r holl ffynonellau, ar ôl talu costau'r tŷ fel taliadau llog morgais/rhent, trethi dŵr ac yswiriant ar gyfer strwythur y tŷ, yn llai na 60 y cant o incwm aelwydydd y Deyrnas Unedig (y DU) ar gyfartaledd (yn ôl y canolrif).

Ychydig o newid a fu yn y ffigur hwn yn y 13 mlynedd diwethaf ac, yn unol â gwledydd eraill y DU, mae wedi aros yn gyson am 5 mlynedd yn olynol. Mae cyfraddau gweddill y DU, fodd bynnag, wedi bod yn is nag ydynt yng Nghymru.

**4.01 Canran yr holl bobl, plant, pensiynwyr ac oedolion oedran gwaith sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol yng Nghymru, 1994 i 2017**




Ffynhonnell: Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Plant yw'r grŵp poblogaeth sy'n fwyaf tebygol o fod mewn tlodi incwm cymharol. Mae'r ffigurau diweddaraf (2014-15 i 2016-17) yn dangos bod 28 y cant o blant yng Nghymru yn byw mewn tlodi incwm cymharol ar ôl talu costau tŷ, sy'n cyfateb i ostyngiad o ddau bwynt canran o gymharu â'r cyfnod diwethaf.

Roedd 20 y cant o bensiynwyr yng Nghymru yn byw mewn tlodi incwm cymharol yn y cyfnod 2014-15 i 2016-17, cynnydd o ddau bwynt canran o gymharu â’r cyfnod diwethaf, a ffigur uwch na gwledydd datganoledig eraill y DU. Mae canran y pensiynwyr sy’n byw mewn tlodi incwm cymharol wedi bod yn codi dros y pedwar cyfnod diwethaf ond mae’n dal yn is nag yr oedd yng nghanol i ddiwedd yr 1990au, ac yn dal yn is nag y mae ar gyfer grwpiau oedran eraill.

Yn 2017-18, disgrifiwyd 16 y cant o oedolion fel rhai a oedd yn byw mewn amddifadedd materol (hynny yw, ddim yn gallu fforddio pethau sylfaenol fel cadw’r tŷ’n gynnes). Roedd hyn yn wir i ganran uwch o ferched (18 y cant) na dynion (14 y cant). O ddadansoddi canlyniadau’r Arolwg Cenedlaethol yn 2016-17[62] ymhellach gwelir, pan fo ffactorau eraill yn gyson, mai’r rhagfynegyddion pennaf o fod mewn amddifadedd materol oedd:

- Salwch cyfyngol hirdymor
- Byw mewn tai cymdeithasol
- Di-waith/neb yn gweithio yn yr aelwyd
- Aelwyd un rhiant (gyda neu heb blant)
- Dim cymwysterau

Roedd y canlynol yn cael eu cysylltu’n gryf â bod mewn amddifadedd materol hefyd:

- Bodlonrwydd isel ar fywyd
- Llesiant meddyliol isel

Roedd aelwydydd un rhiant yn fwy tebygol o fod mewn amddifadedd materol na mathau eraill o aelwydydd; roedd hanner yr aelwydydd un rhiant mewn amddifadedd materol yn 2016-17, o gymharu ag un o bob pum aelwyd â dau oedolyn a phlant, a llai nag un o bob deg aelwyd yn cynnwys dau oedolyn a dim plant.

O'r rhai sy’n rhieni, mae gan 7 y cant blant a fyddai’n cael eu dosbarthu fel bod mewn amddifadedd materol. Roedd plant sy’n byw mewn tai cymdeithasol yn fwy tebygol o fod mewn amddifadedd materol na'r rheini mewn llety rhent preifat neu dai sy’n eiddo i berchen-feddianwyr.

Mae’r rheini sydd mewn amddifadedd materol yn fwy tebygol o gael trafferth fforddio deiet iach. Mae canlyniadau diweddaraf Arolwg Cenedlaethol Cymru yn dangos bod 12 y cant o’r rheini mewn amddifadedd materol wedi dweud nad oeddent wedi cael pryd sylweddol o leiaf un diwrnod yn y pythefnos diwethaf, a hynny o ganlyniad i brinder arian. Yn ôl ffigurau Arolwg y llynedd (2016-17), mae 6 y cant o’r boblogaeth hon sydd mewn amddifadedd materol yn byw mewn aelwyd a oedd wedi cael bwyd o fanc bwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Mae pobl mewn amddifadedd materol yn debygol o gael trafferth cynhesu eu cartref yn dda hefyd. Yn ôl yr amcangyfrifon, roedd 23 y cant yr aelwydydd yng Nghymru yn byw mewn tlodi tanwydd (gan orfod gwario mwy na 10 y cant o’u hincwm ar gostau tanwydd yn y cartref) yn 2016, gyda 3 y cant yn byw mewn tlodi tanwydd difrifol (mwy na 20 y cant o’u hincwm ar gostau tanwydd yn y cartref).

Mae tlodi bwyd a thlodi tanwydd yn gallu cael effaith ar iechyd a llesiant yn gyffredinol.

[62] National Survey for Wales, 2016-17: Poverty

**Mae disgwyliad oes yn is mewn ardaloedd mwy amddifad ac mae lefelau gordewdra ymysg plant yn uwch**

Gall anfantais economaidd-gymdeithasol, yn ogystal â ffactorau eraill yn ymwneud â ffordd o fyw, gael effaith ar iechyd unigolyn.

Mae cysylltiad cryf rhwng amddifadedd a disgwyliad oes – bydd gan rai a enir i deuluoedd amddifad ddisgwyliad oes iach is. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y bwlch mewn disgwyliad oes iach rhwng yr ardaloedd mwyaf a lleiaf amddifad yng Nghymru, ac nid yw hynny wedi newid yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae ymchwil mwy diweddar gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol[63] yn dangos bod y bwlch rhwng y mwyaf a'r lleiaf amddifad (gan ddefnyddio degraddau amddifadedd yn hytrach na chwintelau) wedi aros yn eithaf tebyg dros y blynyddoedd diwethaf.

Yn fwy cyffredinol dywed data'r arolwg wrthym fod canran uwch o bobl mewn ardaloedd amddifad yn bodloni llai na dau (allan o bump) o'r argymhellion ar gyfer byw'n iach o'i gymharu ag ardaloedd eraill, ac mae ffigurau Arolwg Cenedlaethol Cymru 2017-18 yn dangos bod aelwydydd mewn amddifadedd materol yn fwy tebygol o fod dros eu pwysau neu'n ordew (BMI 25+), ac yn llai tebygol o ddweud bod eu hiechyd cyffredinol yn dda neu'n dda iawn[64].

Mae dechrau da mewn bywyd yn bwysig a gallai rhai babanod isel eu pwysau ar enedigaeth (llai na 2,500g) fod mewn perygl uwch o rai problemau iechyd naill yn y dyddiau cyntaf neu'n ddiweddarach yn eu bywyd. Er bod canran yr holl enedigaethau byw isel eu pwysau wedi lleihau ychydig yn unig yn y deg mlynedd diwethaf, mae'r gostyngiad i unig fabanod (rhai nad ydynt yn rhan o enedigaeth luosog, hy dim gefeilliaid, tripledi ayb) wedi bod yn fwy sylweddol. Mae'r ffigurau diweddaraf (2012-14) ar gyfer unig fabanod yn parhau i ddangos cyfran uwch (tua 30 y cant yn uwch) yn y pumed ardal fwyaf amddifad yng Nghymru o gymharu â'r pumed canolig.

Hefyd, mae rhaglen mesur plant[65] 2016-17 yn dangos bod gan ychydig dros saith o bob deg plentyn yng Nghymru bwysau iach a bod plant oedran derbyn yn llawer mwy tebygol na chyfartaledd Cymru o fod yn ordew os ydynt yn byw mewn ardaloedd mwy amddifad.

**Mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a phlant mewn gofal yn cael canlyniadau addysgol is mewn ysgolion ar gyfartaledd, gyda'r bwlch yn cynyddu wrth i ddisgyblion fynd yn hŷn**

Drwy ddefnyddio cymhwysedd i ginio ysgol am ddim fel mesur o amddifadedd, mae cysylltiad rhwng amddifadedd a lefelau cyrhaeddiad yn yr ysgol. Er bod cyflawniad yn gwella'n gyson ymysg yr holl ddisgyblion, mae'r rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn perfformio'n is ym mhob cyfnod allweddol a phob mesur perfformiad. Mae'r bwlch hwn yn cynyddu wrth i'r disgyblion fynd yn hŷn. Mae data Arolwg Cenedlaethol Cymru hefyd yn dangos bod rhieni mewn aelwydydd sydd mewn amddifadedd materol yn llai tebygol o fod yn helpu eu plant â'u gwaith ysgol, ac yn llai hyderus yn gwneud hynny hefyd.

---

63 Health state life expectancies by national deprivation deciles, England and Wales: 2014 to 2016, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol


64 National Survey for Wales, 2016-17: Poverty

65 Rhaglen Mesur Plant Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru

Yng Nghyfnod Allweddol 4, mae'r bwlch rhwng disgyblion sy'n cael cinio ysgol am ddim ac eraill wedi lleihau mewn blynyddoedd diweddar. Serch hynny, roedd cynnydd bach yn 2017 (i fwlch o 32.3 pwynt canran) o gymharu â 2016.

Mae anghydraddoldebau'n bodoli ymysg plant sy'n cael gofal a chefnogaeth hefyd, ac mae'r bwlch eto'n cynyddu wrth i ddisgyblion fynd yn hŷn. Ym mis Mawrth 2017, roedd canran y plant sy'n cael gofal a chefnogaeth ac yn cyflawni'r mesur Lefel 2 cynhwysol yng Nghyfnod Allweddol 4 (12 y cant) yn llai na chwarter y ganran ymysg yr holl ddisgyblion (55 y cant).

**4.02 Disgyblion sy'n cyrraedd y trothwy L2 (gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a Mathemateg) yn CA4, yn ôl blwyddyn a chymhwysedd prydau ysgol am ddim, 2009 i 2017**




Ffynhonnell: Cronfa Ddata Arholiadau Cymru

Cymwysterau addysgol enillwyd cyn prifysgol yw'r prif ffactor unigol mwyaf o ran a yw rhywun yn mynd ymlaen i addysg uwch. Ond dangosodd ymchwil diweddar[66] bod pobl ifanc o ardal ddifreintiedig yn llai tebygol o fynd ymlaen i addysg uwch hyd yn oed pe bai nhw hefo'r un cymwysterau a rhywun o ardal lai difreintiedig. Mae'r un yn wir am bobl ifanc sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

[66] The effect of schools on school leavers' university participation, Journal of School Effectiveness and Improvement

## Rhyw

**Mae disgwyliad oes yn dal yn uwch i ferched nag i ddynion, ond gallant ddisgwyl treulio cyfran is o'u bywyd mewn iechyd da**

Mae disgwyliad oes[67] wedi cynyddu o 3.0 blynedd i ddynion a 2.2 blynedd i ferched ers y cyfnod 2001 i 2003, ac mae'r bwlch mewn disgwyliad oes rhwng dynion a merched yn lleihau. Byddai merch sy'n cael ei geni yng Nghymru rhwng 2014 a 2016 yn gallu disgwyl byw hyd at ei phenblwydd yn 82, a byddai bachgen yn gallu disgwyl cyrraedd ei benblwydd yn 78.

Fodd bynnag, gall merched ddisgwyl treulio cyfran is o'u bywyd mewn iechyd da na dynion, gan fod nifer y blynyddoedd y gallant ddisgwyl byw mewn iechyd da (disgwyliad oes iach) ychydig yn wahanol (62.7 blynedd i ferched a 61.6 blynedd i ddynion).

**Mae merched yn fwy tebygol o ddioddef o wahanol fathau o salwch, yn cynnwys cyflyrau iechyd meddwl**

O flwyddyn 9 ymlaen, mae mwy o ferched yn dweud bod eu hiechyd yn weddol neu'n wael na bechgyn[68]. Yn 11 oed (blwyddyn 7), mae'r un gyfran o fechgyn a merched yn dweud bod eu hiechyd yn wael (un o bob saith) ond erbyn maent yn 16 oed (blwyddyn 11) mae bwlch – un o bob tair merch sy'n dweud bod eu hiechyd yn wael, o gymharu ag un o bob pedwar bachgen.

Mae sgoriau llesiant meddyliol cyfartalog merched yn gyson is na rhai dynion ar draws pob grŵp oedran[69]. Fodd bynnag, mae cyfraddau hunanladdiad ymysg dynion yn gyson uwch nag ymysg merched ar draws pob grŵp oedran ac er bod cyfraddau'n amrywio ar draws y cylch bywyd, yn gyffredinol mae cyfraddau uwch i'w gweld yn yr ystod oedran 30-54[70].

Er bod sgoriau bodlonrwydd ar fywyd ychydig yn uwch ymysg merched (7.8) na dynion (7.7) ar gyfartaledd, mae mwy o ferched yn nodi sgoriau bodlonrwydd ar fywyd isel iawn a sgoriau bodlonrwydd ar fywyd uchel iawn.

Mae bodlonrwydd ar fywyd yn eu barn eu hunain[71] yn lleihau ymysg merched o flwyddyn 7 (11 oed) i flwyddyn 11 (16 oed) ac mae'n drawiadol is nag y mae ymysg bechgyn.

Mae rhai gwahaniaethau a gofnodir mewn ffyrdd o fyw rhwng dynion a merched sy'n gallu effeithio ar iechyd. Mae canfyddiadau Arolwg Cenedlaethol Cymru 2017-18 yn dangos bod dynion yn llai tebygol o fod yn dilyn 2 neu fwy o ymddygiadau ffyrdd iach o fyw. Mae dynion yn fwy tebygol na merched o fod yn gorfforol egnïol ond hefyd ddwywaith yn fwy tebygol o yfed mwy o alcohol nag y mae'r canllawiau'n argymell, ac yn fwy tebygol o ysmygu na merched. Mae canran uwch o ddynion dros eu pwysau, ac mae merched ychydig yn fwy tebygol o fod yn ordew.

[67] Health state life expectancies, UK: 2014 to 2016 2014 i 2016, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
[68] Ymddygiad iechyd mewn plant oedran ysgol, Llywodraeth Cymru
[69] Graddfa Llesiant Meddyliol Warwick-Caeredin yn ôl grŵp oedran a rhyw, Llywodraeth Cymru
[70] Data a Gyrchwyd gan y Defnyddiwr: Suicide in England and Wales, 2015 registrations, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
[71] Ymddygiad iechyd mewn plant oedran ysgol, Llywodraeth Cymru

**Mae data newydd ar gael ar camau datblygiad plant ar fynediad i ysgol cynradd**

Mae plant yng Nghymru yn cael eu hasesu, drwy Broffil y Cyfnod Sylfaen, yn ystod eu 6 wythnos gyntaf ar ôl dechrau yn yr ysgol gynradd (dosbarth derbyn). Mae hyn yn cael ei ddefnyddio i ddarganfod cam datblygiad a diddordebau'r plentyn yn ôl Proffil a Fframwaith y Cyfnod Sylfaen.

**Mae'r data yn adlewyrchu'r ystod eang o aeddfedrwydd datblygiadol a ddisgwylir yn yr oed hwn, sydd o fewn yr ystod safonol ar gyfer plant wrth ddechrau yn yr ysgol, yn enwedig o ystyried oed amrywiol plant sy'n dechrau'r ysgol.**


**Ar gyfer pob maes dysgu mae patrwm gwahanol o ran cynnydd datblygiadol rhwng bechgyn a merched gan eu bod yn aeddfedu ar gyflymdra gwahanol ac, ar gyfartaledd, mae merched wedi cyrraedd cam datblygiad uwch. Mae hyn yn gyson ag astudiaethau eraill megis Astudiaeth Carfan y Mileniwm a data'r Rhestr Sgiliau Tyfu a gasglwyd o dan raglen Dechrau'n Deg.**

**O ran addysg, mae merched yn parhau i gael canlyniadau addysgol gwell na bechgyn a hefyd yn fwy tebygol o barhau â'u haddysg amser llawn ar ôl 16 oed**

O'r Cyfnod Sylfaen (hyd at 7 oed) hyd at Gyfnod Allweddol 4 (15 oed), mae cyfran uwch o ferched na bechgyn yn cael y canlyniadau disgwyliedig. Mae'r bwlch yn lleihau i ddechrau hyd at Gyfnod Allweddol 2, ond yn cynyddu wrth i ddisgyblion fynd yn hŷn.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2018, roedd y bwlch yn 8.5 pwynt canran. Yn draddodiadol, ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 (diwedd yr ysgol gynradd) mae'r bwlch lleiaf rhwng bechgyn a merched, ac yn 2018 roedd y bwlch ar yr adeg honno yn 5.2 pwynt canran. Ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 yn 2017, roedd y bwlch yn 8.1 pwynt canran.

**4.03 Bwlch mewn cyflawniad disgyblion rhwng bechgyn a merched yn ôl cyfnod allweddol, 2009 i 2018**




Ffynhonnell: Casglu data cenedlaethol o asesiadau athrawon, Llywodraeth Cymru


O ran y cymwysterau uchaf sydd gan y boblogaeth oedran gweithio, er bod cyfran debyg o ddynion a merched heb unrhyw gymwysterau (9 y cant), mae merched yn fwy tebygol o gael cymhwyster ar Lefel 4 neu uwch (addysg uwch neu lefel gyfatebol) (40 y cant o ferched, o gymharu â 35 y cant o ddynion).

**Yn yr un modd â rhannau eraill o'r DU, mae cyfraddau cyflogaeth yng Nghymru yn llai ymysg merched na dynion**

Yr un fath â gweddill y DU, mae cyfraddau cyflogaeth yng Nghymru yn is ymysg merched na dynion – 70.6 y cant i ferched a 78.9 y cant i ddynion ym mis Gorffennaf 2018[72]. Mae cyfradd anweithgarwch economaidd yn uwch i ferched (26.7 y cant) na dynion (17.6 y cant)[73]. Mae'r gwahaniaeth mewn cyfraddau cyflogaeth a chyfraddau anweithgarwch rhwng dynion a merched yn llai yng Nghymru nag yn y DU yn ei chyfanrwydd. Mae'r amcangyfrifon o gyfraddau diweithdra yn fyw anwadal, gan ddangos cyfradd is ymysg merched na dynion weithiau, ond uwch weithiau; yn y DU gyfan maent yn eithaf cyfartal.

[72] Labour Force Survey, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
[73] Labour Force Survey, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

**4.04 Cyfradd cyflogaeth (canran yr oedran poblogaeth 16-64) yn ôl rhyw a blwyddyn, 2005 i 2018 (cyfraddau ar gyfer Mai i Orffenaf)**




Ffynhonnell: Arolwg o'r Llafurlu, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Roedd gan ddynion gyfradd hunangyflogaeth uwch na merched ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018, ond o ran cyflogaeth ran-amser, roedd cyfradd merched yn uwch o lawer na chyfradd dynion dros y cyfnod hwn.

O ran unigolion rhwng 16 a 18 oed, roedd cyfran uwch o fenwyod yng Nghymru mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant o gymharu â gwrywod ar gyfer pob un o'r 5 mlynedd ddiwethaf (2013-17). Ar y cyfan, roedd hynny'n groes ymysg unigolion rhwng 19 a 24 oed, ond mae'r bwlch wedi lleihau dros y blynyddoedd diwethaf.

**Mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau wedi lleihau**

Mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau wedi parhau i leihau ac wedi lleihau'n gynt nag y mae wedi yn y DU yn ei chyfanrwydd.

Dangosydd cenedlaethol ansawdd cyflogaeth yw canran y bobl mewn cyflogaeth sydd ar gontractau parhaol (neu ar gontractau dros dro heb fod yn ceisio cyflogaeth barhaol) ac yn ennill mwy na dau draean o gyflog canolrifol y DU. Mae'r data sydd ar gael ar gyfer y tair blynedd ddiwethaf yn dangos darlun amrywiol, ac nid oes gennym gyfres ddigon hir ar gyfer y dangosydd newydd hwn i ganfod tuedd glir. Ar ddiwedd 2017, roedd 63.5 y cant o bobl mewn gwaith yng Nghymru yn ennill mwy na dau draean o gyflog canolrifol y DU. Roedd y gyfran yn is o lawer ymysg merched (51.8 y cant) na dynion (75.2 y cant).

Mae'r data diweddaraf ar gyfer Cymru yn dangos bod y bwlch cyflog rhwng dynion a merched yn parhau i leihau, a'i fod ar ei isaf ers dechrau'r cofnodion mae modd eu cymharu yn 1997[74]. Roedd y bwlch cyflog, sy'n seiliedig ar enillion amser llawn canolrifol fesul awr, yn 6.3 y cant yn 2017, i lawr o 7.9 y cant yn 2016. O ran yr 11 o wledydd a rhanbarthau yn y DU lle mae dynion yn ennill mwy na merched, yng Nghymru mae'r bwlch lleiaf. Yng Ngogledd

[74] Annual survey of hours and earnings, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Iwerddon, mae merched yn ennill mwy na dynion ar gyfartaledd, gan achosi bwlch cyflog "negatif" rhwng y rhywiau. O ran gweithwyr rhan-amser yng Nghymru, mae merched yn ennill 7.0 y cant yn fwy na dynion ar gyfartaledd – y trydydd bwlch cyflog negatif mwyaf ar ôl Llundain a Gogledd Iwerddon.

Mae oedran yn nodwedd bwysig o'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Mae bylchau cyflog bach o blaid dynion yn yr ystod oedran 18-29 ac o blaid merched yn yr ystod oedran 30-39. O 40 oed a hŷn mae'r bwlch yn cynyddu'n sylweddol, a dynion yn ennill mwy o lawer na merched ar gyfartaledd (40-49: 12.7 y cant; 50-59: 10.9 y cant; 60+: 18.2 y cant). Mae'n debygol bod cysylltiad rhwng hyn â'r ffaith fod merched â phlant yn aml yn treulio cyfnod i ffwrdd o'r farchnad lafur.

Nid yw'r bylchau hyn yn ystyried ffactorau (fel lefelau addysg a phrofiad) sy'n amrywio ar draws y rhywiau ac a fydd yn effeithio ar lefelau enillion.

**Mae ymgeiswyr sy'n ferched sy'n gofyn i awdurdod lleol am gefnogaeth tai yn fwy tebygol o gael eu hasesu fel bod dan fygythiad o ddigartrefedd a'u hatal rhag bod yn ddigartref na dynion; ond ymysg y rheini a gafodd eu hasesu fel bod yn ddigartref, mae dros hanner yn ymgeiswyr sy'n ddynion**

Yn y rhan fwyaf o achosion lle cafodd teuluoedd eu hatal yn llwyddiannus rhag digartrefedd (o dan Adran 66 Deddf Tai (Cymru) 2014) a'u rhyddhau'n gadarnhaol (o dan adran 75), roedd yr ymgeisydd yn ddynes – 65 y cant a 68 y cant yn y drefn honno. Fodd bynnag, roedd sefyllfa groes ymysg y teuluoedd hynny a aseswyd fel bod yn ddigartref (o dan Adran 73), lle roedd yr ymgeisydd yn ddyn mewn 55 y cant o achosion.

O ran teuluoedd digartref a gafodd eu rhyddhau'n gadarnhaol (wedi dod o hyd i lety) o dan Adran 75, gallai hyn fod o ganlyniad yn rhannol i'r ffaith mai'r categori angen blaenoriaethol a nodwyd amlaf yn ystod 2017-18 oedd presenoldeb plant dibynnol neu ferch feichiog yn y teulu (a oedd yn cyfrif am 45 y cant o'r holl asesiadau Adran 75 yn ystod 2017-18).

**Yn gyffredinol mae merched yn teimlo'n llai diogel yn eu cymunedau na dynion er eu bod yn llai tebygol o ddioddef troseddau treisgar**

Mae tystiolaeth gyfyngedig o unrhyw wahaniaeth rhwng dynion a merched o safbwynt eu bodlonrwydd ar fywyd, eu hymdeimlad o gymuned neu eu gallu i ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol. Er hynny, mae merched yn llai tebygol o ddweud eu bod yn teimlo'n ddiogel yn byw ac yn symud o gwmpas eu hardal leol er bod dynion yn fwy tebygol o ddioddef troseddau treisgar na merched (yng Nghymru yn 2016-17, dywedodd 2.2 y cant o ddynion eu bod wedi dioddef troseddau treisgar o gymharu â 1.7 y cant o ferched).

Fodd bynnag, yn groes i hyn, mae Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr[75] yn dangos bod merched yn fwy tebygol na dynion o ddioddef trais o natur bersonol, a hynny ym mhob categori camdriniaeth sy'n dod o dan y term hwn (er enghraifft cam-drin domestig ac ymosodiad rhywiol). Mae canfyddiadau 201617 i Gymru a Lloegr gyda'i gilydd yn dangos bod merched yn fwy tebygol o lawer o ddioddef cam-drin domestig (ers 16 oed, ac yn y flwyddyn ddiwethaf) a mwy na phum gwaith yn fwy tebygol o fod wedi dioddef ymosodiad rhywiol (ers 16 oed).

Ledled Cymru a Lloegr, roedd canran uwch o fechgyn rhwng 10 a 15 oed wedi dioddef erledigaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf [76](a ddaeth i ben Mawrth 2018) o gymharu â merched, a hynny'n wir ar gyfer y categorïau pob math o drais, pob math o ddwyn a phob math o droseddau.

Mae ffigurau diweddaraf y Swyddfa Gartref ar nifer y troseddau sy'n cael eu cofnodi fel dynladdiad ar hyn o bryd yng Nghymru a Lloegr (2016-17) yn dangos nifer uwch o ddioddefwyr sy'n ddynion na dioddefwyr sy'n ferched.

Yn ôl gwaith ymchwil Stonewall Cymru, dywedodd bron i un o bob pedwar unigolyn LGBT (23 y cant) eu bod wedi dioddef o achos neu drosedd casineb oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol a/neu eu hunaniaeth o ran rhywedd yn ystod y 12 mis diwethaf; a dywedodd hanner y bobl drawsryweddol (52 y cant) eu bod wedi dioddef o achos neu drosedd casineb oherwydd eu hunaniaeth o ran rhywedd yn ystod y 12 mis diwethaf.[77]

**Yn gyffredinol mae yna gryn wahaniaeth yn y math a'r lefel o gyfranogiad mewn gweithgareddau diwylliannol neu chwaraeon rhwng dynion a merched.**

Mae merched ychydig yn fwy tebygol o fynd i ddigwyddiadau celfyddydol na dynion (gyda'r un peth yn wir ar gyfer plant ac oedolion), ond mae gwahaniaeth yn ôl y math o weithgaredd. Ar y llaw arall, mae dynion yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon 3 gwaith neu fwy yr wythnos.

Mae'r Arolwg ar Chwaraeon Ysgol wedi dangos bod cyfran uwch o ddisgyblion sy'n fechgyn yn cymryd rhan mewn gweithgaredd chwaraeon wedi'i drefnu (hy gweithgaredd allgyrsiol neu glwb chwaraeon) yn rheolaidd (tair gwaith neu fwy yr wythnos) na disgyblion sy'n ferched (yn 2015, y ffigurau oedd 52 y cant o fechgyn a 44 y cant o ferched).

**Mae merched yn fwy tebygol o wirfoddoli a darparu gofal i eraill na'u cymheiriaid sy'n ddynion**

Mae canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru (2017-18) yn dangos bod merched yn fwy tebygol o wirfoddoli na dynion (mae 30 y cant o ferched yn gwirfoddoli, o gymharu â 26 y cant o ddynion), ond mae'r math o wirfoddoli'n gallu bod yn wahanol iawn. Gwelwyd bod merched yn fwyaf tebygol o wirfoddoli mewn sefydliad elusennol (11 y cant) neu ysgol neu grŵp pobl ifanc (10 y cant), a dynion yn fwyaf tebygol o wirfoddoli mewn clwb chwaraeon (11 y cant).

---

[75] Crime in England and Wales: year ending March 2018, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
[76] Crime in England and Wales: Annual Trend and Demographic Tables, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
[77] LGBT yng Nghymru – Troseddau Casineb a Gwahaniaethu, Stonewall Cymru


Yn ogystal â hynny, mae canran uwch o ferched yn dweud eu bod yn darparu gofal i bobl eraill (teulu, ffrindiau neu gymdogion) (27 y cant) o gymharu â dynion (24 y cant).

## Gwahaniaeth oedran

**Mae llesiant yn tueddu i fod yn uwch yn gynharach mewn bywyd ac yn y grwpiau oedran hŷn, gan ostwng yn y grŵp oedran 45-59**

Mae ymchwil[78] wedi dangos yn eang y cysylltiad siâp-U rhwng oedran a llesiant. Ystyr hyn yw bod llesiant yn tueddu i fod ar ei uchaf yn y grwpiau oedran cynnar a hŷn (yn bwysig, dim ond hyd at 75 oed), ac yn gostwng yn y grŵp oedran canol. Yn gyffredinol, mae canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru 2017-18 yn dilyn y patrwm hwn ar gyfer 'bodlonrwydd ar fywyd', gyda'r sgoriau cymedrig uchaf yn y grŵp oedran 65-74 (8.1 allan o 10 - gyda 10 yn golygu'r bodlonrwydd uchaf ar fywyd) a'r grŵp 75 oedran a hŷn (8.0) a'r isaf yn y grŵp 45-64 (7.6).

**4.05 Bodlonrwydd ar fywyd yn ôl grŵp oedran, 2017-18**




Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2017-18

Yn unol â'r canfyddiadau uchod, roedd gan y grŵp oedran 65-74 hefyd y sgoriau uchaf o ran a ydynt yn teimlo bod eu bywyd yn werth chweil ac a oeddent yn teimlo'n hapus ddoe, yn ogystal â rhoi sgoriau isel o ran teimlo'n bryderus ddoe.

Er bod llesiant meddyliol yn parhau i wella nes bod pobl yn hen iawn, mae bodlonrwydd ar fywyd yn lleihau yn ystod canol oed. Er bod gan oedolion ifanc (16-24 oed) y sgoriau llesiant meddyliol isaf ar gyfartaledd, mae'r siart uchod yn dangos bod ganddynt sgoriau bodlonrwydd ar fywyd uwch na phobl rhwng 25 a 64 oed[79].

[78] How does getting older change the way we feel about our lives?, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
[79] Graddfa Llesiant Meddyliol Warwick-Caeredin yn ôl grŵp oedran a rhyw, Llywodraeth Cymru

Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru bellach yn cynnwys cyfres o gwestiynau i asesu lefelau unigrwydd. Yn seiliedig ar y rhain, gwelwyd bod 16 y cant o bobl yng Nghymru yn unig yn 2017-18. Mae pobl oedran gweithio (16 i 64) yn fwy tebygol o fod yn unig na phobl 65 oed neu hŷn. Roedd pobl mewn amddifadedd materol yn fwy tebygol o deimlo'n unig (37 y cant o'r rhai mewn amddifadedd materol, o gymharu â 12 y cant o bobl nad ydynt mewn amddifadedd materol).

**Yn gyffredinol, mae pobl hŷn yn fwy tebygol o gael ymdeimlad cryfach o gymuned, a hefyd yn fwy tebygol o bleidleisio a chymryd rhan mewn cynrychiolaeth gyhoeddus.**

Mae dadansoddi Arolwg Cenedlaethol Cymru hefyd yn dangos bod pobl hŷn yn fwy tebygol o gael ymdeimlad cryfach o gymuned (wedi'i fesur yn ôl a ydynt yn teimlo eu bod yn perthyn i'r ardal leol, bod pobl yn yr ardal yn cyd-dynnu'n dda ac yn trin ei gilydd â pharch). Dywedodd tua thri chwarter o bobl hŷn (dros 65 oed) fod ganddynt ddigon o bobl i ddibynnu arnynt pan fydd ganddynt broblemau – cyfran uwch na'r rheini yn y grwpiau oedran iau.

Mae cyfran uwch o bleidleiswyr ymysg y grwpiau oedran hŷn ac mae cymryd rhan mewn cynrychiolaeth gyhoeddus, er enghraifft bod yn gynghorydd lleol, yn fwy amlwg ymysg pobl hŷn. Mae Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol 2017 wedi canfod bod hanner yr holl ymgeiswyr yn 60 oed neu'n hŷn ac, ymysg cynghorwyr etholedig, roedd 47 y cant o gynghorwyr sir a 55 y cant o gynghorwyr cymuned yn 60 oed neu'n hŷn.

**Yn y blynyddoedd diwethaf, mae cyfran uwch o'r boblogaeth oedran gweithio wedi bod mewn tlodi cymharol nag aelwydydd pensiynwyr**

O ran tlodi incwm cymharol, mae cyfran y bobl oedran gweithio sydd mewn tlodi wedi aros yn gymharol gyson yn y blynyddoedd diwethaf, ond ar lefel uwch nag aelwydydd pensiynwyr. Mae byw mewn aelwyd heb waith yn cynyddu'r siawns o fod mewn tlodi incwm cymharol ond, hyd yn oed mewn aelwydydd lle roedd o leiaf un rhiant yn gweithio, roedd 17 y cant o oedolion oedran gweithio mewn tlodi incwm cymharol rhwng 2014-15 a 2016-17.

Mae canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru hefyd yn adlewyrchu'r gwahaniaeth hwn rhwng aelwydydd oedran gweithio ac aelwydydd pensiynwyr. Yn 2016-17, disgrifiwyd 6 y cant o aelwydydd pensiynwyr fel bod mewn amddifadedd materol, o gymharu ag 19 y cant o oedolion nad ydynt yn bensiynwyr.

**Pobl ifanc rhwng 16 a 24 oed sydd lleiaf tebygol o deimlo'n ddiogel wrth gerdded yn eu hardal leol ar ôl iddi nosi**

Mae grwpiau oedran iau yn wynebu perygl uwch o ddioddef pob math o droseddu (gan gynnwys troseddau treisgar) yn ôl Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr[80]. Roedd y cyfraddau uchaf o droseddu yng Nghymru yn y 12 mis diwethaf hyd at fis Mawrth 2018 yn y grŵp oedran 16-24, a'r cyfraddau isaf yn y grŵp oedran 65+. Mae canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016-17 yn adlewyrchu hyn, gyda phobl iau rhwng 16 a 24 oed yn teimlo'n lleiaf diogel wrth gerdded yn eu hardal leol ar ôl iddi nosi.

[80] Crime in England and Wales, year ending March 2018, Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae pobl yn y grwpiau oedran iau hefyd yn fwy tebygol o ddioddef ymosodiad rhywiol, ac mae'r berthynas negatif rhwng oedran a nifer yr achosion o ymosodiad rhywiol yn wir waeth beth fo'r rhyw ar draws Cymru a Lloegr yn 2017. Ar ben hynny, mae ymchwil gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol[81] yn dangos bod merched ifanc yng Nghymru a Lloegr rhwng 16 ac 19 oed (7.6 y cant) ac 20 a 24 oed (7.4 y cant) yn fwy tebygol o lawer o fod wedi cael eu cam-drin gan bartner yn ystod y 12 mis cyn y cyfweliad, o gymharu â merched rhwng 45 a 54 oed (5.6 y cant) a 55 a 59 oed (4.4 y cant). Mae'r canfyddiadau hyn ar gyfer y cyfnod rhwng y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2015 a'r flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2017.

**Mae'r gyfradd cyflogaeth ar ei huchaf yn y grŵp oedran 25 i 49, ac efallai fod y cynnydd a welwyd o'r blaen yn y gyfradd cyflogaeth ymysg pobl 65 oed neu hŷn yn dechrau lleihau'n raddol**

Roedd y gyfradd cyflogaeth yng Nghymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018 ar ei huchaf ymysg unigolion rhwng 25 a 49 oed, a hynny ar gyfer dynion a merched. Ymysg y boblogaeth oedran gweithio, roedd y gyfradd cyflogaeth ar ei hisaf yn y grŵp oedran 16 i 24. O ran cyflogaeth ymysg grwpiau oedran hŷn yng Nghymru, roedd y gyfradd ar gyfer unigolion 65 oed neu hŷn yn 9.2 ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018; is nag yr oedd ddwy flynedd ynghynt (10.0) ond yn uwch o lawer na'r cyfraddau yn 2009-10 (6.9) a 2004-05 (4.9).

Mae dangosyddion ffordd o fyw ac iechyd cyffredinol yn newid drwy gydol bywyd, ac mae tystiolaeth ddiweddar mai pobl rhwng 55 a 64 oed sy'n fwyaf tebygol o yfed mwy o alcohol na'r lefelau sy'n cael eu hargymell bob wythnos.

Yn ôl y disgwyl, mae unigolion hŷn yn fwy tebygol o ddweud bod eu hiechyd yn wael neu eu bod wedi cael o leiaf un anabledd neu salwch hirdymor, ac mae hynny'n wir yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru. Mae canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru 2017-18 hefyd yn dangos bod yfed mwy o alcohol na'r lefelau sy'n cael eu hargymell bob wythnos yn fwyaf cyffredin ymysg pobl rhwng 55 a 64 oed (23 y cant), ac yn lleiaf cyffredin ymysg pobl 75 oed neu hŷn (12 y cant). Ar y llaw arall, mae canran is o unigolion 55 oed neu hŷn yng Nghymru yn ysmygu, o gymharu ag aelodau iau o'r boblogaeth.

**Mae cyfranogiad yn y celfyddydau a chwaraeon yn lleihau mewn grwpiau oedran hŷn, ond mae gwirfoddoli'n cynyddu**

Mae unigolion hŷn yng Nghymru ddwywaith yn llai tebygol o fynd i ddigwyddiadau celfyddydol a chymryd rhan ynddynt nag unigolion iau; mae pobl rhwng 16 a 24 oed ddwywaith yn fwy tebygol o fod wedi mynd i ddigwyddiad celfyddydol yn y flwyddyn ddiwethaf na phobl 75 oed neu hŷn. Mae'r rheini yn y grwpiau oedran hŷn hefyd yn llai tebygol o gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon 3 gwaith neu fwy yr wythnos, o fod yn aelod o glwb chwaraeon, ac o wirfoddoli ym maes chwaraeon.

[81] Sexual offences in England and Wales: year ending March 2017, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae canlyniadau diweddaraf yr Arolwg Cenedlaethol yn dangos mai pobl rhwng 25 a 44 oed sydd lleiaf tebygol o wirfoddoli, gyda dim ond chwarter y grŵp oedran hwn yn gwneud hynny. Mae gwirfoddoli yn fwyaf cyffredin ymysg unigolion rhwng 65 a 74 oed, gyda 35 y cant o’r grŵp oedran hwn yn dweud eu bod yn gwirfoddoli, wedi’i ddilyn yn agos gan oedolion ifanc rhwng 16 a 24 oed (34 y cant o’r grŵp hwn yn gwirfoddoli).

O ran gofalu am aelodau eraill o’r teulu, neu am ffrindiau, cymdogion a phobl eraill sy’n sâl neu’n anabl, pobl yn y grŵp oedran 45-64 sydd fwyaf tebygol o fod yn treulio amser yn gwneud hyn (traean ohonynt); ond mae tua chwarter y bobl rhwng 65 a 74 oed hefyd yn darparu’r math hwn o ofal i bobl eraill.

## Ethnigrwydd

Gall proffil oedran gwahanol grwpiau ethnig fod yn eithaf gwahanol, gyda’r boblogaeth Gwyn Prydeinig yn boblogaeth sydd wedi’i gwasgaru’n gymharol wastad ar draws grwpiau oedran, tra bod y boblogaeth oedran gweithio iau yn fwy amlwg yn y grwpiau ethnig eraill. Felly, nid yw cymharu iechyd grwpiau poblogaeth yn gyffredinol yn berthnasol heb ystyried hyn, gan fod iechyd meddwl a chorfforol yn gallu newid ar draws y grwpiau oedran.

**Mae rhai gwahaniaethau o ran cyrhaeddiad addysgol i’w gweld ar gyfer pobl o wahanol ethnigrwydd; mae cyrhaeddiad yn dal yn isel ymysg plant sipsiwn-teithwyr, ac mae cyfran uwch o blant o ethnigrwydd cymysg, Asiaidd neu Tsieineaidd yn cyrraedd lefelau cyrhaeddiad disgwyliedig na’r rhai o gefndir Gwyn.**

Sylwyd ar batrymau cymysg o ran cyrhaeddiad addysgol ymysg pobl o wahanol ethnigrwydd. Yn gyffredinol, mae canran y disgyblion o gefndir cymysg, Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig, ac o gefndir Tsieineaidd neu Brydeinig Tsieineaidd yn cyrraedd y lefelau disgwyliedig yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 a lefel 2 cynhwysol yng Nghyfnod Allweddol 4 yn debyg neu’n uwch na chanran y disgyblion o gefndir Gwyn sy’n cyrraedd y lefelau hyn.

Fodd bynnag, mae rhywfaint o amrywiaeth yn y grwpiau hyn. Mae gan ddisgyblion o gefndiroedd Sipsiwn/Sipsiwn Roma a chefndiroedd Gwyn eraill lefelau cyrhaeddiad is na’r grŵp Gwyn cyffredinol, gyda 21.5 y cant a 53.0 y cant o ddisgyblion, yn y drefn honno, yn cyrraedd lefel 2 cynhwysol yng Nghyfnod Allweddol 4, o gymharu â 58.7 y cant ar gyfer y grŵp Gwyn yn gyffredinol, yn y cyfnod 2015-17. Yn yr un modd, cofnodwyd lefelau cyflawni is i ddisgyblion o gefndiroedd Gwyn a Du Caribïaidd a Gwyn a Du Affricanaidd na’r grŵp ethnigrwydd cymysg yn gyffredinol. Mae cyrhaeddiad yn is ymysg disgyblion yn y grŵp Du neu Ddu Prydeinig nag ar gyfer yr holl ddisgyblion ar draws pob cyfnod allweddol.

Mewn arolwg ymchwil yn 2014 o ddisgyblion o Leiafrifoedd Ethnig[82], awgrymwyd nifer o ffactorau, gan gynnwys anfantais economaidd-gymdeithasol a statws Anghenion Addysg Arbennig (gwelir cyfraddau gwahanol yn ôl grŵp ethnig ar gyfer y ddau ffactor) sy’n egluro rhywfaint, ond nid yr holl amrywiaeth a welir o ran cyrhaeddiad mewn grwpiau ethnig gwahanol. Mae ffactorau eraill sy’n effeithio ar gyrhaeddiad sy’n croestorri ag ethnigrwydd yn cynnwys rhugldeb yn y Saesneg, rhyw, gwahaniaethu a diwylliant.

[82] Disgyblion o leiafrifoedd ethnig, Llywodraeth Cymru

**Mae cyfran gymharol uchel o'r boblogaeth o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn cofrestru ar gyfer Addysg Uwch yng Nghymru**

Yn 2017, roedd cyfran uwch o oedolion o leiafrifoedd ethnig (12 y cant) rhwng 18 a 64 oed heb unrhyw gymwysterau o gymharu ag oedolion gwyn (9 y cant) o'r un oed. Y ffigurau cyfatebol yn 2012 oedd 15 y cant ac 11 y cant, felly mae'r ddau ethnigrwydd wedi gweld gostyngiad dros y cyfnod hwn.

Yn 2016/17, roedd 10.0 y cant o fyfyrwyr a gofrestrodd mewn Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru a'r Brifysgol Agored yn dod o gefndiroedd y grŵp pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig[83]; cyfran uwch na chyfran y boblogaeth o'r grŵp oedran hwnnw o gefndiroedd pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru. Mae ymchwil[84] wedi nodi bod cefndir ethnig yn 'ffactor pwysig iawn' o ran cyfranogiad mewn Addysg Uwch yng Nghymru, gan ganfod bod pobl ifanc o gefndiroedd pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a Gwyn Arall yn fwy tebygol o gymryd rhan na'r rheini o gefndiroedd Gwyn Prydeinig.

**Ar draws Cymru a Lloegr, mae ystadegau'r farchnad lafur yn dangos bod cyfraddau cyflogaeth a chyfraddau anweithgarwch economaidd yn wahanol ar gyfer grwpiau ethnig gwahanol.**

Nid oes data manwl am gyflogaeth ac ethnigrwydd ar gael. Fodd bynnag, mae data Cyfrifiad 2011 yn dangos, ymysg unigolion sydd mewn cyflogaeth yng Nghymru, dynion o'r grwpiau ethnig Du Affricanaidd (58 y cant), Du Arall (53 y cant) a Gwyn Arall (52 y cant) oedd fwyaf tebygol o weithio mewn swyddi sgiliau isel. I ferched, y rhai mwyaf tebygol oedd Gwyn a Du Caribïaidd (71 y cant), Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig (70 y cant) a Bangladeshaidd (69 y cant).

**Mae ethnigrwydd heb fod yn wyn yn gysylltiedig â thebygolrwydd uwch o dlodi incwm cymharol**

Roedd plant ac oedolion oedran gweithio a oedd yn byw mewn aelwydydd lle roedd y pen teulu'n dod o grŵp ethnig heb fod yn wyn yn fwy tebygol o fod mewn tlodi incwm cymharol o gymharu â'r rheini lle roedd y pen teulu'n dod o grŵp ethnig gwyn. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r tebygolrwydd o blant yn bod mewn tlodi incwm cymharol os ydynt mewn aelwyd lle mae'r pen teulu'n dod o gefndir heb fod yn wyn ddwywaith yn fwy nag os ydynt mewn aelwyd lle mae'r pen teulu'n dod o gefndir gwyn[85].

[83] Cofrestriadau myfyrwyr yng Nghymru, o'r DU, yn ôl ethnigrwydd, lefel a dull astudio, Llywodraeth Cymru
[84] Access to Higher Education in Wales, Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru
[85] Ystadegau Tlodi, Llywodraeth Cymru

**Mae'r boblogaeth o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig wedi bod yn llai tebygol o ddweud eu bod yn teimlo eu bod yn perthyn i'r ardal leol na'r rheini sy'n ystyried eu hunain yn Wyn Prydeinig, ond mae awgrym fod hyn yn newid efallai**

Er bod data Arolwg Cenedlaethol Cymru o 2012-2015 yn awgrymu mai ychydig o wahaniaeth oedd rhwng y rheini sy'n byw yng Nghymru sy'n ystyried eu hunain yn Wyn Prydeinig a'r rheini nad ydynt o safbwynt bodlonrwydd ar fywyd a nifer o elfennau o 'ymdeimlad cymunedol', roedd cyfran uwch o'r rheini o'r grŵp Gwyn Prydeinig a oedd yn teimlo eu bod yn perthyn i'r ardal leol (81 y cant) o gymharu â'r rheini o'r holl grwpiau ethnig eraill (71 y cant). Mae'r data diweddaraf, ar gyfer 2016-17, yn awgrymu bod hyn yn newid efallai, er y bydd angen gwneud rhagor o ymchwil i weld a yw hynny'n wir.

Mae pobl sy'n ystyried eu hunain yn Wyn ychydig yn llai tebygol o ddweud eu bod yn teimlo'n unig (1 o bob 6 yn dweud eu bod yn teimlo'n unig) na phobl nad ydynt yn ystyried eu hunain yn Wyn (1 o bob 4).

**Mae'r boblogaeth o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn dal wedi'u tangynrychioli mewn bywyd gwleidyddol lleol, ond maent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol yn ôl pob golwg**

Mae data o Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol 2017[86] yn dangos bod ymgeiswyr o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig wedi'u tangynrychioli mewn bywyd gwleidyddol lleol. Dim ond 1.8 y cant o gynghorwyr sir ac 1.2 y cant o gynghorwyr cymuned a ddywedodd eu bod yn perthyn i grŵp ethnig heb fod yn wyn. Ond mae hyn wedi gwella rhywfaint, gan mai dim ond 0.6 y cant oedd y ganran hon yn ôl yn 2012.

Roedd cyfran uwch o'r boblogaeth heb fod yn Wyn yng Nghymru wedi mynd i ddigwyddiadau celfyddydol, diwylliannol neu dreftadaeth, neu wedi cymryd rhan ynddynt, o leiaf tair gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (80 y cant) na'r rheini sy'n Wyn (75 y cant).

**Bernir o hyd bod hil yn ffactor allweddol mewn bron i dri chwarter yr holl droseddau casineb, ac mae digwyddiadau hil a gofnodwyd wedi bod yn cynyddu**

Barnwyd bod crefydd yn ffactor ysgogol mewn 71 y cant o droseddau casineb[87] a gofnodwyd yng Nghymru yn 2016-17. Bu cynnydd o 19 y cant mewn troseddau casineb ar sail hil a gofnodwyd rhwng 2015-16 a 2016-17.

Mae data o Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr yn dangos, ar y cyfan, bod cyfran is o bobl Gwyn wedi dweud eu bod yn ofn o droseddau o gymharu â phobl Asiaidd, pobl Ddu a phobl o'r Grŵp ethnig arall, ac mai pobl Asiaidd a phobl o'r Grŵp ethnig arall oedd â'r lefelau uchaf o ran ofn o droseddau[88].


[86] Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru
[87] Troseddau a Gofnodwyd gan yr Heddlu, Police Recorded Hate Crime Open Data Tables
[88] Fear of crime, y Swyddfa Gartref drwy GOV.UK

## Crefydd

Cristnogaeth yw'r grefydd fwyaf yng Nghymru o hyd [yn ôl Cyfrifiad 2011](), er bod y gyfran wedi gostwng yn sylweddol ochr yn ochr â chynnydd sylweddol yn y bobl sy'n nodi eu bod yn ddigrefydd ers 2001.

Roedd amrywiaeth ym mhroffil oedran bob grŵp crefyddol. Roedd gan Gristnogion ac Iddewon boblogaeth llawer hŷn o gymharu â Chymru yn gyffredinol. Roedd gan Fwslimiaid boblogaeth llawer iau. Roedd gan y bobl a ddywedodd eu bod yn perthyn i grŵp crefyddol lleiafrifol gyfran uwch o bobl yn y categori oedran gweithio (16-64) ac roedd gan y bobl ddigrefydd boblogaeth llawer iau na'r cyfartaledd.

**4.06 Dosbarthiad oedran yn ôl crefydd, Cyfrifiad 2011**




Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

**Mae Mwslimiaid, Siciaid a'r bobl hynny sy'n dweud eu bod yn ddigrefydd yn fwy tebygol o fyw yn y rhannau mwyaf difreintiedig o Gymru, na'r bobl hynny sy'n dilyn crefyddau eraill (ee Cristnogion ac Iddewon)**

Roedd dwy ran o dair (66 y cant) o Fwslimiaid a 56 y cant o Siciaid a'r bobl a ddywedodd eu bod yn ddigrefydd yn byw yn yr hanner mwyaf difreintiedig o Gymru yn 2011, o gymharu â 32 y cant o Iddewon.

Mae data Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016-17 yn awgrymu bod yr ymdeimlad o gymuned fymryn yn is ymysg y bobl hynny sy'n ddigrefydd, o gymharu â’r rhai sy’n ystyried eu hunain yn Gristnogion neu â chrefydd arall. Hefyd mae lled awgrym fod y bobl sy’n ystyried eu hunain yn Gristnogion â lefelau ychydig yn uwch o lesiant goddrychol a theimlad bod y pethau y maent yn eu gwneud mewn bywyd yn werthfawr, o gymharu â’r rhai a ddywedodd eu bod yn ddigrefydd. Gallai proffiliau oedran y grwpiau hyn effeithio ar y ddau ganlyniad (yn gyffredinol mae gan y boblogaeth sy’n ystyried eu hunain yn Gristnogion broffil oedran hŷn na phobl eraill yn y boblogaeth).

**O’r holl grwpiau crefyddol, yr Hindŵiaid oedd â’r gyfran uchaf â chymhwyster ar lefel gradd (neu uwch) (58 y cant â graddau) a'r bobl a ddywedodd eu bod yn ddigrefydd oedd â'r gyfran isaf â chymhwyster ar lefel gradd**

Y boblogaeth Gristnogol oedd â’r gyfran uchaf o bobl heb unrhyw gymwysterau yn 2011. Ond, efallai mai’r rheswm yn rhannol am hyn yw ffactorau demograffig a’u poblogaeth hŷn, gan mai'r grŵp oedran mwyaf tebygol o fod heb unrhyw gymwysterau oedd y rhai 65 oed neu hŷn. Grwpiau crefyddol lleiafrifol oedd â’r gyfran isaf o bobl heb unrhyw gymwysterau.

O edrych ar y cymwysterau uchaf a gyflawnwyd, y bobl o grwpiau crefyddol lleiafrifol oedd â'r gyfran uchaf o bobl sydd wedi ennill cymhwyster ar lefel gradd neu uwch (Lefel 4), yn cynnwys 58 y cant o Hindŵiaid. Y bobl a ddywedodd eu bod yn ddigrefydd oedd â'r gyfran isaf o bobl â chymwysterau ar lefel gradd a’r gyfran uchaf o bobl ag 1 i 4 TGAU fel eu cymwysterau uchaf (Lefel 1).

**Hindŵiaid oedd â’r gyfradd uchaf o weithgarwch economaidd a Christnogion oedd â’r gyfradd isaf o weithgarwch economaidd. Ym mhob grŵp crefyddol roedd gan ddynion gyfraddau uwch o weithgarwch economaidd na merched ac roedd hyn yn fwyaf amlwg yn y boblogaeth Fwslimaidd.**

Ac eithrio myfyrwyr, yn 2011, Hindŵiaid oedd â’r gyfradd uchaf o weithgarwch economaidd a Christnogion oedd â’r gyfradd isaf o weithgarwch economaidd. Ym mhob crefydd, pan oedd gweithgarwch economaidd wedi’i rannu yn ôl rhywedd, roedd gan y dynion gyfraddau uwch na merched. Roedd hyn yn fwyaf amlwg yn y boblogaeth Fwslimaidd, gyda 39 pwynt canran o wahaniaeth rhwng gweithgarwch economaidd dynion a merched yn y boblogaeth Fwslimaidd. O fewn y boblogaeth economaidd anweithgar, roedd gwahaniaethau amlwg rhwng y ddau ryw o ran y rhesymau am yr anweithgarwch. Yn benodol, merched yn bennaf oedd y rhai a oedd yn gofalu am y cartref neu’r teulu, a dynion yn bennaf oedd y rhai a ddywedodd eu bod naill ai’n sâl yn y tymor hir neu’n anabl. Roedd hyn yn arbennig o amlwg yn y boblogaeth Fwslimaidd.

**Bu rhywfaint o gynnydd yn nifer y troseddau casineb y cofnodwyd eu bod wedi’u cymell gan grefydd, ond mae’r rhain yn dal yn cynrychioli cyfran eithaf isel o’r holl droseddau casineb.**

Gwelwyd cynnydd o 3 y cant yn nifer y troseddau casineb crefyddol a gofnodwyd gan yr heddlu yng Nghymru rhwng 2015-16 a 2016-17. Barnwyd bod crefydd yn ffactor ysgogol mewn 4 y cant o droseddau casineb a gofnodwyd yng Nghymru yn 2016-17[89].

---

[89] Crime in England and Wales: Police Force Area Data Tables, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

**Mae'n ymddangos bod pobl ddigrefydd a phobl sy'n dilyn crefydd ar wahân i Gristnogaeth yn cael eu tangynrychioli mewn bywyd gwleidyddol lleol, o gymharu â'u presenoldeb yn y boblogaeth**

Yn yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2017[90], dywedodd tua dwy ran o dair o'r ymgeiswyr (64 y cant) eu bod yn Gristnogion (pob enwad), dywedodd 34 y cant eu bod yn ddigrefydd a nododd 2 y cant grefydd "arall" (gan gynnwys Bwdhydd, Hindŵ, Iddew, Mwslim, Sikh neu 'unrhyw grefydd arall'). Roedd cyfran y bobl a gafodd eu hethol yn gynghorwyr sir neu'n gynghorwyr cymuned a oedd yn dweud eu bod yn Gristnogion fymryn yn uwch, sef 66 y cant a 69 y cant yn y drefn honno. O wybod bod 58 y cant o'r boblogaeth wedi dweud eu bod yn Gristnogion yn y Cyfrifiad diwethaf (2011), mae'n ymddangos bod y bobl sy'n ddigrefydd neu sy'n dilyn crefydd ar wahân i Gristnogaeth yn tueddu i gael eu tangynrychioli.

## Cyfeiriadedd rhywiol

Mae'r ffigurau ar gyfer 2016[91] yn dangos bod 95.2 y cant o boblogaeth Cymru yn ystyried eu hunain yn heterorywiol, ac mae 1.7 y cant yn ystyried eu hunain yn lesbiad, yn hoyw neu'n ddeurywiol.

Dim ond ychydig o ddata sydd ar gael ar brofiadau'r boblogaeth lesbiaidd, hoyw a deurywiol yng Nghymru. Mae'r dystiolaeth a ddaw o ffynonellau data cenedlaethol yn awgrymu y gall y boblogaeth lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol fod â mymryn yn llai o ymdeimlad o gymuned yn eu hardal leol na phobl eraill, ond eu bod yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn bywyd gwleidyddol lleol.

Er bod canlyniadau blaenorol ar gyfer y DU[92] yn gyffredinol (2013-2015) ar lesiant personol yn dangos bod y bobl sy'n ystyried eu hunain yn heterorywiol neu'n strêt yn tueddu i gofnodi'r lefelau llesiant cyfartalog uchaf ar draws y pedwar mesur llesiant personol, mae'r canlyniadau diweddaraf yng Nghymru o'r Arolwg Cenedlaethol yn dangos mymryn o wahaniaeth.

Mae data Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016-17 yn awgrymu bod yr ymdeimlad o gymuned ychydig yn is ymysg y bobl nad ydynt yn ystyried eu hunain yn heterorywiol, o gymharu â'r bobl sy'n ystyried eu hunain yn heterorywiol. Mae hyn yn wir am bob un o'r elfennau canlynol o'r 'ymdeimlad cymunedol' hwnnw:

- teimlo eu bod yn perthyn i'r ardal leol,
- cytuno bod pobl yn yr ardal leol o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu'n dda
- cytuno bod pobl yn eu hardal yn trin ei gilydd â pharch
- cytuno bod gan bobl ymdeimlad o gymuned

[90] Etholiadau llywodraeth leol 2017 yng Nghymru, Y Comisiwn Etholiadol
[91] Cyfeiriadedd rhywiol, Llywodraeth Cymru
[92] Personal well-being and sexual identity in the UK: 2013 to 2015, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Fodd bynnag, cafodd ymgeiswyr LGB eu cynrychioli'n eithaf da yn yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2017[93], gyda 5 y cant o'r ymgeiswyr yn ystyried eu hunain yn lesbiad, yn hoyw neu'n ddeurywiol ac 1 y cant wedi nodi cyfeiriadedd rhywiol 'arall'. A dweud y gwir, roedd 7.1 y cant o'r cynghorwyr sir a gafodd eu hethol yn ystyried eu hunain yn LGB a 3.7 y cant o'r cynghorwyr cymuned.

**Bernir bod un o bob chwe throsedd casineb a gofnodir yng Nghymru wedi bod yn gysylltiedig â chyfeiriadedd rhywiol, ond mae ymchwil Stonewall Cymru yn nodi nad yw llawer o ddigwyddiadau o'r fath yn cael eu hadrodd i'r heddlu**

Mae'r data diweddaraf ar droseddau casineb y rhoddwyd gwybod i'r heddlu amdanynt yng Nghymru, lle barnwyd bod cyfeiriadedd rhywiol yn ffactor ysgogol, yn dangos cynnydd o 24 y cant (i 461 o droseddau wedi eu cofnodi yn 2016-17) o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Barnwyd bod cyfeiriadedd rhywiol yn ffactor ysgogol mewn 16 y cant o'r troseddau casineb a gofnodwyd yng Nghymru yn 2016-17.

Fodd bynnag, yn ôl gwaith ymchwil[94] a gynhaliwyd gan Stonewall Cymru o fewn y gymuned LGBT, doedd pedwar o bob pum unigolyn LGBT (82 y cant) sydd wedi dioddef o achos neu drosedd casineb ddim wedi rhoi gwybod i'r heddlu am yr achos. Yn ôl y gwaith ymchwil hwn, dywedodd bron i un o bob pedwar unigolyn LGBT (23 y cant) eu bod wedi dioddef o achos neu drosedd casineb oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol a/neu eu hunaniaeth o ran rhywedd yn ystod y 12 mis diwethaf.

Mae peth tystiolaeth o'r Arolwg Cenedlaethol yn dangos bod yr oedolion hynny sy'n lesbiad, yn hoyw neu'n ddeurywiol yn teimlo'n llai diogel yn eu hardal leol ar ôl iddi nosi neu wrth deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus ar ôl iddi nosi.

Mae Stonewall Cymru hefyd yn nodi[95] bod un rhan o dair o weithwyr LGBT yng Nghymru wedi celu'r ffaith eu bod yn LGBT yn y gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf oherwydd eu bod yn ofn i bobl wahaniaethu yn eu herbyn; mae tri o bob deg unigolyn trawsryweddol wedi dioddef o sylwadau neu ymddygiad negyddol gan eu cyd-weithwyr oherwydd eu hunaniaeth a dydy un o bob pedwar unigolyn deurywiol ddim wedi dod allan i unrhyw un yn y gwaith.

Ychydig iawn o ddata sydd ar gael o hyd ar brofiadau'r boblogaeth drawsryweddol yng Nghymru, ond mae peth gwybodaeth ar gael yn Adroddiad Ysgol Cymru Stonewall (2017)[96] ar brofiadau o fwlio a hunan-niweidio ymysg pobl ifanc.

## Anabledd

**Mae bodlonrwydd ar fywyd yn gyffredinol is ar gyfer pobl ag anabledd neu salwch cyfyngol hirdymor na'r rheini sydd heb gyflyrau felly.**

Mae data Arolwg Cenedlaethol Cymru yn dangos bod bodlonrwydd ar fywyd yn gyffredinol is ar gyfer pobl ag anabledd neu salwch cyfyngol hirdymor (y sgôr cymedrig yn 2017-18 oedd 7.2) na'r rhai heb gyflyrau felly (8.0).

93 Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru
94 LGBT yng Nghymru – Troseddau Casineb a Gwahaniaethu, Stonewall Cymru
95 LGBT yng Nghymru – Gwaith, Stonewall Cymru
96 Adroddiad Ysgol Cymru (2017), Stonewall Cymru

**Gall bod ag anabledd neu salwch cyfyngol hirdymor gael effaith negyddol ar deimlad pobl o ddiogelwch yn eu hardal a'u hymdeimlad o gymuned.**

Mae bod ag anabledd neu salwch cyfyngol hirdymor yn un o'r ffactorau hynny sy'n gallu cael effaith negyddol ar ymdeimlad pobl o gymuned (teimlad o berthyn i'r ardal leol; bod pobl yn yr ardal o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu'n dda; a bod pobl yn yr ardal yn trin ei gilydd â pharch).

Hefyd, mae canlyniadau Arolwg Cenedlaethol 2016-17 yn awgrymu bod y bobl hynny â salwch cyfyngol hirdymor yn teimlo'n llai diogel na'r bobl sydd heb salwch o'r fath. Dywedodd cyfrannau uwch o'r bobl sydd â salwch cyfyngol hirdymor eu bod yn teimlo'n anniogel gartref ar ôl iddi nosi (5 y cant, o gymharu â 2 y cant o'r bobl heb salwch o'r fath), wrth gerdded yn yr ardal leol (27 y cant, o gymharu â 17 y cant) ac wrth deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus (31 y cant, o gymharu â 16 y cant).

Mae'r data diweddaraf ar droseddau casineb a gofnodwyd yng Nghymru lle barnwyd bod anabledd yn ffactor ysgogol yn dangos cynnydd o 39 y cant (i 338 o droseddau wedi eu cofnodi yn 2016-17) o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Barnwyd bod anabledd yn ffactor ysgogol yn un o bob 10 o'r troseddau casineb a gofnodwyd yng Nghymru yn 2016-17.

I Gymru a Lloegr gyda'i gilydd[97] yn 2016-17, roedd merched a dynion â salwch cyfyngol hirdymor neu anabledd yn fwy tebygol o ddioddef cam-drin yn y cartref yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (15.9 y cant ac 8.5 y cant yn y drefn honno), o gymharu â rhai heb salwch cyfyngol hirdymor neu anabledd (5.9 y cant a 3.7 y cant yn y drefn honno). Yn ystod y cyfnod hwn, roedd unigolion â salwch hirdymor neu anabledd yng Nghymru a Lloegr yn fwy tebygol o wynebu pob math o drais yn ogystal ag ymosodiadau rhywiol yn benodol, o gymharu ag unigolion heb gyflyrau o'r fath. Hefyd, mae canran uwch o blant 10 i 15 oed yng Nghymru a Lloegr sydd ag anabledd neu salwch hirdymor wedi dioddef o erledigaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2017). Roedd oedolion 16 oed neu hŷn ag anabledd neu salwch hirdymor yn fwy tebygol o wynebu ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ystod y cyfnod hwn.

**Er bod bwlch o hyd mewn cyrhaeddiad addysgol rhwng plant ag Anghenion Addysgol Arbennig a phlant eraill, bwlch sy'n ehangu wrth iddynt fynd yn hŷn, mae perfformiad disgyblion ag anghenion addysgol arbennig wedi gwella yn ystod y blynyddoedd diwethaf**

Gall Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) ddeillio o anawsterau corfforol neu feddygol, neu nam ar y synhwyrau. Ym mis Ionawr 2018, roedd gan 22.6 y cant o ddisgyblion mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru AAA, ac roedd gan 12.2 y cant ohonynt ddatganiad AAA (2.8 y cant o'r holl ddisgyblion mewn ysgolion a gynhelir)[98].

[97] Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr: Domestic abuse, sexual assault and stalking, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
[98] Canlyniadau Cyfrifiad Ysgolion, 2018, Llywodraeth Cymru

Yng Nghyfnod Allweddol 4, llwyddodd 20.6 y cant o ddisgyblion ag AAA i gyflawni'r mesur lefel 2 cynhwysol (5 A*-C TGAU neu gyfatebol yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a Mathemateg) yn 2017, o gymharu â 56.0 y cant ar gyfer yr holl ddisgyblion. Roedd ymchwil diweddar[99] wedi darganfod bod person gydag angen addysgol arbennig yn fwy tebygol o fynd ymlaen i addysg uwch na rhywun gyda'r un lefel o gymwysterau nad ydynt hefo angen addysgol arbennig hysbys.

Yn 2017, roedd 18 y cant o'r boblogaeth anabl oedran gweithio yng Nghymru heb unrhyw gymwysterau o gymharu â 6 y cant o'r boblogaeth oedran gweithio nad oedd yn anabl. Hefyd, roedd pobl ag anableddau yn llai tebygol o fod â chymhwyster lefel gradd: Roedd gan 26 y cant o'r boblogaeth anabl oedran gweithio cymwysterau ar lefel 4 neu uwch o gymharu â 41 y cant o'r boblogaeth oedran gweithio nad oedd yn anabl.

**Mae byw gydag unigolyn sydd ag anabledd yn achosi i dlodi incwm cymharol fod yn fwy tebygol i blant a phobl oedran gweithio**

Yn y cyfnod diwethaf (2014-15 i 2016-17), roedd 34 y cant o blant a oedd yn byw mewn cartref lle roedd rhywun ag anabledd yn byw mewn tlodi incwm cymharol o gymharu â 26 y cant mewn cartrefi lle nad oedd neb yn anabl.

Roedd 33 y cant o oedolion oedran gweithio a oedd yn byw mewn cartref lle roedd rhywun ag anabledd yn byw mewn tlodi incwm cymharol, o gymharu â 19 y cant o'r rheini a oedd yn byw mewn cartref lle nad oedd neb yn anabl.

Mae tystiolaeth o Arolwg Cenedlaethol Cymru 2017-18 yn dangos bod 25 y cant o bobl ag anabledd neu salwch cyfyngol hirdymor wedi nodi amddifadedd materol ar yr aelwyd o gymharu â 12 y cant o bobl heb anabledd neu salwch cyfyngol hirdymor. Yn yr un modd, dim ond 62 y cant o bobl ag anabledd neu salwch cyfyngol hirdymor ddywedodd eu bod yn gallu talu pob bil ac ymrwymiad heb drafferth, ond mae hynny'n wir am 72 y cant o bobl heb y cyflyrau hyn.

**Mae pobl ag anableddau neu salwch hirdymor yn llai tebygol o gymryd rhan mewn digwyddiadau celfyddydol, diwylliannol, treftadaeth neu chwaraeon**

Dangosodd Arolwg Cenedlaethol Cymru 2017-18 fod cyfran is o bobl â phroblem iechyd neu salwch cyfyngol hirdymor wedi mynd i ddigwyddiadau celfyddydol, diwylliannol neu dreftadaeth, neu wedi cymryd rhan ynddynt, dair gwaith o leiaf yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (64 y cant, o gymharu ag 80 y cant ar gyfer pobl heb salwch cyfyngol).

Mae cymryd rhan mewn chwaraeon hefyd yn is ar gyfer pobl â salwch neu gyflwr meddyliol neu gorfforol hirdymor. Canfu canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru fod y grŵp hwn yn llai tebygol o fod wedi cymryd rhan mewn unrhyw chwaraeon tair gwaith neu fwy yr wythnos; dywedodd 18 y cant eu bod yn gwneud hynny o gymharu â 39 y cant o'r bobl hynny heb anabledd neu salwch hirdymor.


[99] The effect of schools on school leavers' university participation, Journal of School Effectiveness and Improvement

Mae'r un duedd i'w gweld ymysg plant ysgol[100]. I'r rhai sydd ag unrhyw anabledd neu nam, roedd y cyfraddau yn 2015 ar gyfer cyfranogiad mewn chwaraeon dair gwaith neu fwy yr wythnos (40 y cant) a mwynhau chwaraeon allgwricwlaidd (45 y cant) yn is na'r cyfraddau ar gyfer y rhai heb unrhyw anabledd neu nam (49 y cant a 54 y cant yn y drefn honno).

**Roedd y gyfradd cyflogaeth ymysg oedolion anabl rhwng 16 a 64 oed yn 45.2 y cant ym mis Mawrth 2018, Roedd hyn yn is na'r gyfradd cyflogaeth ymysg pobl nad ydynt yn anabl (80.3 y cant), ac mae'r bwlch wedi aros yn gyson dros y blynyddoedd diwethaf.**

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018, roedd y gyfradd cyflogaeth ymysg pobl anabl rhwng 16 a 64 oed yn 45.2 y cant. Roedd y ffigur cyfatebol ymysg pobl yng Nghymru nad ydynt yn anabl yn 80.3 y cant. Felly, roedd bwlch o 35.1 pwynt canran mewn cyflogaeth ymysg pobl anabl yng Nghymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018. Mae'r bwlch cyflogaeth ymysg pobl anabl wedi bod yn gymharol sefydlog yn y blynyddoedd diwethaf.

**4.07 Bwlch mewn cyflogaeth ymysg pobl anabl, blwyddyn yn dod i ben Mawrth 31 2014 i blwyddyn yn dod i ben Mawrth 31 2018**




Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae'r cyfraddau cyflogaeth ymysg pobl anabl yn debyg iawn ar gyfer dynion a merched. Fodd bynnag, oherwydd bod y gyfradd cyflogaeth ar gyfer dynion nad ydynt yn anabl yn uwch nag ar gyfer merched, mae yna wahaniaeth sylweddol o hyd yn y bwlch cyflogaeth ymysg pobl anabl ar gyfer dynion (38.4 pwynt canran) a merched (31.5 pwynt canran)

100 Arolwg ar Chwaraeon Ysgol 2015, Chwaraeon Cymru

Ledled y DU yn gyffredinol, 29.7 pwynt canran yw'r bwlch cyflogaeth ymysg pobl anabl ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018. Mae'r bwlch cyflogaeth cymharol[101] ymysg pobl anabl yng Nghymru (35.3 pwynt canran) yn ystod y cyfnod hwn yn fwy na'r hyn a gofnodwyd yn Lloegr (28.3 pwynt canran), yn debyg i'r bwlch yn yr Alban (35.4 pwynt canran) ond yn llai na'r bwlch yng Ngogledd Iwerddon (42.3 pwynt canran).

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) wedi paratoi ffigurau ar y bwlch cyflog ymysg pobl anabl ledled Prydain Fawr[102], h.y. y gwahaniaeth rhwng cyflog yr awr ar gyfartaledd ar gyfer pobl anabl a phobl nad ydynt yn anabl, ac mae hyn wedi'i fynegi fel canran o gyflog pobl nad ydynt yn anabl. Ar draws yr holl anableddau, roedd y bwlch cyflog ymysg pobl anabl yng Nghymru yn 2010-11 yn 4.3 y cant, ac erbyn 2015-16 roedd y ffigur hwn wedi codi i 13.3 y cant. Mae'r newid hwn yn adlewyrchu'r amrywiaeth mewn enillion canolrifol fesul awr rhwng 2010-11 a 2015-16, a wnaeth ostwng 9.2 y cant ar gyfer gweithwyr anabl yng Nghymru, a gwelwyd cynnydd bach iawn mewn enillion canolrif fesul awr yn ystod y cyfnod hwn ar gyfer pobl nad ydynt yn anabl. Mae'r bwlch cyflog ymysg pobl anabl yn amrywio yn ôl natur yr anabledd. Yn 2015-16, gwelwyd y bwlch mwyaf mewn enillion canolrifol fesul awr ar gyfer pobl â 'nam ar y golwg' (23.6 y cant) o gymharu â gweithwyr nad ydynt yn anabl. Yn ôl pob golwg, nid yw'r gwahaniaeth yn y bwlch cyflog ymysg pobl anabl a welwyd yng Nghymru rhwng 2010-11 a 2015-16 wedi deillio oherwydd bod mwy o bobl anabl economaidd anweithgar yn dechrau gweithio. Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2011, roedd y gyfradd anweithgarwch economaidd ymysg pobl anabl yng Nghymru yn 49.4 ac, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2016, roedd y ffigur cyfatebol yn 51.6, cynnydd o 2.2 pwynt canran[103]

**Mae un o bob pum plentyn sy'n cael gofal a chymorth yng Nghymru ag anabledd**

Mae bron i 16,000 plentyn yng Nghymru yn cael gofal a chymorth a chofnodwyd bod ychydig mwy nag un o bob pump o'r plant hynny (22 y cant) ag anabledd. Roedd y rhan fwyaf o'r rhain (74 y cant) yn cael gwasanaethau oherwydd salwch neu anabledd y plentyn yn bennaf. Ond, mewn 15 y cant o'r achosion, cofnodwyd fod y plant yn cael gofal a chymorth yn bennaf oherwydd eu bod yn cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso, neu eu bod mewn perygl o hynny.

[101] Ar gyfer cymariaethau rhyngwladol, defnyddir diffiniad arall ar gyfer ddim yn anabl, yn seiliedig ar unigolion nad oes ganddynt anabledd sy'n cyfyngu ar y gallu i weithio nac anabledd craidd yn unol â'r Ddeddf Cydraddoldeb. Oherwydd hyn, mae'r bwlch cyflogaeth ymysg pobl anabl yng Nghymru yn 35.3 pwynt canran wrth wneud cymariaethau rhyngwladol, yn hytrach na'r 35.1 pwynt canran a nodwyd yn flaenorol

[102] Bod yn anabl ym Mhrydain - data ategol, Bwlch cyflog mewn enillion canolrifol fesul awr, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

[103] Dylid cymryd peth gofal wrth ddehongli'r ffigurau hyn oherwydd bod newidiadau i holiadur yr Arolwg o'r Llafurlu (sy'n sail i'r data hwn) ym mis Ebrill 2013 wedi addasu'r ffordd y gall pobl roi gwybod eu bod yn anabl yn yr Arolwg o'r Llafurlu. Yn benodol, mae nifer yr anableddau a gofnodir wedi gostwng oherwydd y newidiadau i'r holiadur rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2013, gyda llai o bobl yn dweud eu bod yn ystyried eu hunain yn anabl o dan y diffiniad safonol newydd sydd wedi'i gysoni. Roedd yr effaith hon yn fwyaf amlwg yn y boblogaeth economaidd weithgar

## Statws Priodasol


Roedd Cyfrifiad 2011 yn dangos bod mwyafrif cartrefi Cymru (62.8 y cant) yn gartrefi un teulu; roedd 30.8 y cant yn gartrefi un person, a 6.5 y cant yn fathau eraill o gartrefi. O'r cartrefi un teulu, roedd ychydig dros hanner (52.3 y cant) yn gartrefi a oedd yn cynnwys cwpl priod neu gwpl mewn partneriaeth sifil, roedd 15.4 y cant yn gartrefi a oedd yn cynnwys cwpl yn cyd-fyw ac roedd 18.1 y cant yn gartrefi unig riant.

Cafwyd cyfanswm o 13,409 priodas yng Nghymru yn 2015. Ymysg y rhain, roedd 13,081 (97.6 y cant) ohonynt yn briodasau cyplau un rhyw a'r rhyw arall, ac roedd 328 (2.4 y cant) ohonynt yn briodasau cyplau o'r un rhyw.

**Mae bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil yn gallu bod yn dda i'ch llesiant**

Mae canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru ar gyfer 2017-18 yn dangos cyfran uwch o'r boblogaeth briod yn nodi 'bodlonrwydd uchel ar fywyd', gan deimlo bod y pethau y maent yn ei wneud mewn bywyd yn werthfawr, a hapusrwydd o gymharu â'r rheini sydd wedi gwahanu, wedi ysgaru, yn weddw neu sydd erioed wedi priodi. Y rheini sydd wedi gwahanu neu wedi ysgaru sydd fwyaf tebygol o ddweud eu bod yn teimlo'n unig.

**4.08 Llesiant - Bodlonrwydd Cyffredinol ar fywyd (graddfa 0-10), 2017-2018**




Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2017-18

**Mae gan y rheini sydd wedi priodi neu sy’n weddw ymdeimlad cryfach o gymuned na’r rheini sydd erioed wedi priodi neu sydd wedi gwahanu neu wedi ysgaru**

Mae’r bobl hynny sydd wedi priodi (77 y cant) neu sy’n weddw (82 y cant) yng Nghymru yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn perthyn i ardal leol o gymharu â'r rheini nad ydynt erioed wedi priodi neu sydd wedi gwahanu (63 y cant) neu wedi ysgaru (69 y cant). Mae'r rheini sydd wedi priodi neu sy’n weddw hefyd yn fwy tebygol o gytuno bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu’n dda â'i gilydd, bod pobl yn yr ardal yn trin ei gilydd â pharch ac urddas, bod pobl ar gael y gallant ddibynnu arnynt pan fydd ganddynt broblemau. Pobl weddw yw’r bobl sy’n fwyaf tebygol o ddweud y gellir ymddiried yn y rhan fwyaf o bobl, a'r bobl hynny sydd wedi gwahanu neu wedi ysgaru yw’r lleiaf tebygol o ddweud hynny. O’r bobl sydd wedi priodi neu sy'n weddw, mae cyfran uwch o bobl hŷn felly mae’n bosibl bod y gwahaniaethau hyn yn ymwneud ag oedran lawn cymaint ag y maent yn ymwneud â statws priodasol.

Mae cyfran uwch o'r rheini sydd wedi priodi yn gwirfoddoli (yn ffurfiol neu’n anffurfiol) na grwpiau poblogaeth eraill.

**Mae'r rheini sydd wedi ysgaru, wedi gwahanu neu sydd erioed wedi priodi yn fwy tebygol o’i chael hi’n anodd yn ariannol**

Roedd pobl sydd wedi gwahanu neu wedi ysgaru yn fwy tebygol o fod mewn amddifadedd materol na'r bobl oedd wedi priodi, yn sengl neu’n weddw. O gymharu â bod yn briod neu’n weddw, mae’r ffaith fod rhywun wedi gwahanu neu wedi ysgaru yn un o’r ffactorau hynny y gellir eu cysylltu ag amddifadedd materol. Yn 2017-18, roedd 25 y cant o oedolion a oedd wedi ysgaru a 37 y cant o'r rheini a oedd wedi gwahanu (ond yn dal yn briod yn gyfreithlon) yn wynebu amddifadedd materol o gymharu ag 11 y cant o'r rheini a oedd yn briod neu’n weddw. O ran ymdopi â thalu biliau, y grwpiau mwyaf tebygol o gael hyn yn anodd oedd y rheini a oedd wedi gwahanu, wedi ysgaru neu erioed wedi priodi. Y grwpiau hyn hefyd yw’r mwyaf tebygol o ddweud eu bod wedi defnyddio gwasanaethau banc bwyd neu gyngor am ddyledion yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

**Mae perthynas yn chwalu yn un o’r prif resymau sy’n cael eu crybwyll am gartrefi’n cael eu bygwth â digartrefedd ac o’r bobl hynny y bernir eu bod yn ddigartref ac mewn angen blaenoriaethol, mae bron i hanner yn byw mewn cartrefi un person ac mae traean yn unig rieni gyda phlant dibynnol**

Mae perthynas yn chwalu yn un o’r prif resymau sy’n cael ei grybwyll am gartrefi’n cael eu bygwth â digartrefedd neu am fod yn ddigartref. Yn 2017-18, roedd ‘perthynas â phartner yn chwalu’ yn cael ei nodi fel y prif reswm dros wynebu bygythiad o ddigartrefedd mewn 12 y cant o achosion; nodwyd y rheswm hwn mewn 21 y cant o achosion lle yr aseswyd bod teulu yn gymwys, yn ddigartref a bod dyletswydd i’w helpu; ac mewn 22 y cant o achosion lle roedd y teulu yn gymwys, yn anfwriadol ddigartref ac mewn angen blaenoriaethol.

Roedd 83 y cant o’r holl gartrefi a aseswyd yn gymwys, yn anfwriadol ddigartref ac mewn angen blaenoriaethol yn 2017-18 yn gartrefi unig rieni (gyda phlant dibynnol) ac un person. Mae’r mathau hyn o gartrefi wedi’u gorgynrychioli’n sylweddol o gymharu â'u cyfran o’r boblogaeth cartrefi (fel y nodwyd yng Nghyfrifiad 2011). Roedd 33.1 y cant o achosion digartrefedd yn gartrefi un rhiant (gyda phlant dibynnol) o gymharu â 7.5 y cant o’r boblogaeth cartrefi yn 2011; roedd 49.8 y cant o achosion yn gartrefi un person o gymharu â 30.8 y cant o’r boblogaeth cartrefi yn 2011.

**Y bobl sy'n weddw neu sydd wedi ysgaru sydd leiaf tebygol o ddweud eu bod nhw'n cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol yn rheolaidd**

Yn 2017-18, dywedodd 78 y cant o bobl sengl a 76 y cant o bobl sydd wedi priodi eu bod wedi mynd i weithgareddau celfyddydol, diwylliannol neu dreftadaeth, neu wedi cymryd rhan ynddynt, 3 gwaith o leiaf yn y flwyddyn ddiwethaf. Ond, dim ond 69 y cant o’r rheini a oedd wedi ysgaru a 57 o'r rheini sy'n weddw ddywedodd hynny.

**Mae’r rheini sydd wedi gwahanu neu wedi ysgaru yn fwy tebygol o ddweud eu bod wedi profi cam-drin domestig na'r rheini sy’n briod.**

Mae canran y merched a brofodd gam-drin domestig yn y flwyddyn flaenorol yn amrywio yn ôl statws priodasol, fel y dangoswyd mewn data o Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr. I Gymru a Lloegr gyda’i gilydd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2017, gwelwyd bod y canrannau uchaf ymysg merched wedi gwahanu (22.6 y cant) a merched wedi ysgaru /â phartneriaeth wedi’i diddymu’n gyfreithlon (19.2 y cant), o gymharu â'r ganran isaf (3.2 y cant) ar gyfer merched priod neu ferched mewn partneriaeth sifil. Roedd canran y dynion a oedd yn profi cam-drin domestig yn amrywio yn ôl statws priodasol mewn ffordd debyg, ond bod y cyfrannau’n is ymhob categori. Roedd yn amrywio o 11.6 y cant o ddynion wedi gwahanu i 2.3 y cant o ddynion priod neu mewn partneriaeth sifil[104].

[104] Focus on Violent Crime and Sexual Offences : Year ending March 2015, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

# Cymru o gymunedau cydlynus

**Y nod:** Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.

**Awdur: Dr.Steven Marshall, Llywodraeth Cymru**

**Beth rydym wedi'i ddysgu o'r data yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?**

Dim ond yn ddiweddar mae llawer o'r dangosyddion ar gyfer cymunedau cydlynus wedi cael eu casglu ac felly mae'n anodd gwneud sylwadau ar newidiadau dros amser. Nid yw'r mesurau sy'n ymwneud â chydlyniant cymunedol a theimlo'n ddiogel, sydd wedi cael eu casglu ers sawl blwyddyn, wedi newid fawr ddim.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cafwyd cynnydd bychan yn yr aelwydydd oedd wedi mynd at eu hawdurdod lleol am gymorth ac a ataliwyd rhag mynd yn ddigartref, er bod y data ar y niferoedd sy'n cysgu ar y stryd yn awgrymu bod mwy o bobl yn cysgu ar y stryd yng Nghymru (fel sy'n wir am rannau eraill o'r Deyrnas Unedig).

Cafwyd gostyngiad yn nifer y bobl sy'n teimlo y gellir dylanwadu ar benderfyniadau lleol, er, mewn cyferbyniad, fe bleidleisiodd mwy yn etholiadau lleol 2017 nag yn 2012.

Mae'r rhan fwyaf o ddangosyddion yn y nod hwn wedi'u dadansoddi'n fanwl i ganfod y ffactorau sy'n gysylltiedig â gwahaniaethau yn lefel y dangosydd:

- Mae'r dangosyddion yn y bennod hon yn gysylltiedig gan mwyaf ag oed ac anabledd neu iechyd o ran dimensiynau cydraddoldeb. Pan fydd cysylltiad, mae bod yn hŷn neu mewn iechyd da / dim anabledd yn gysylltiedig â gwerthoedd mwy cadarnhaol y dangosydd.
- Mae'r holl ddangosyddion yn gysylltiedig ag o leiaf un mesur sy'n ymwneud â statws economaidd-gymdeithasol neu amddifadedd. Mae'r mesurau eu hunain yn wahanol ar draws y dangosyddion ond, ymhob achos, mae bod yn well eich byd yn gysylltiedig â gwerthoedd mwy cadarnhaol y dangosydd. Yr unig eithriad yw bod y mater o fod yn economaidd anweithgar yn gysylltiedig â gwneud mwy o wirfoddoli. Ond mae hyn yn bennaf oherwydd bod pobl sydd wedi ymddeol yn fwy tebygol o wirfoddoli.
- Mae cysylltiadau rhwng y mesurau gwahanol ar gyfer cymunedau cydlynus, yn arbennig yn achos unigedd sydd â chysylltiad sy'n ystadegol sylweddol â phedwar mesur arall. Gall y cysylltiadau weithio'n hawdd yn y naill gyfeiriad neu'r llall, er enghraifft, efallai fod pobl unig yn llai tebygol o wirfoddoli ond fe all gwirfoddoli helpu i leihau unigrwydd. Ar wahân i unigrwydd, mae gan yr holl ddangosyddion gysylltiad ag ardal ddaearyddol, hyd yn oed ar ôl rheoli ar gyfer ffactorau eraill. Ond, nid yw bob amser yr un rhannau o Gymru.

Mae'r Arolwg Cenedlaethol yn darparu data ar unigolion 16 oed neu hŷn. Er nad yw'r un mesurau ar gael ar gyfer plant o dan 16 oed, rydym eleni wedi dadansoddi testunau tebyg sy'n cael eu cynnwys yn Astudiaeth Carfan y Mileniwm ac fel rhan o arolygon Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion / Ymddygiad Iechyd mewn Plant Oedran Ysgol (SHRN / HBSC).


Mae'r data hyn yn dangos bod un o bob deg plentyn mewn ysgolion uwchradd wedi cael eu

bwlio o leiaf unwaith yr wythnos, a bod tua thraean yn teimlo'n unig o bryd i'w gilydd. Doedd 6 y cant o blant 14 oed ddim yn teimlo'n ddiogel yn eu hardal leol.

**Roedd hanner yr oedolion yn cytuno â'r tri mesur ar gyfer cydlyniant cymunedol**

Y dangosydd cenedlaethol yw canran y bobl a oedd yn cytuno â thri datganiad am eu hardal leol: eu bod yn perthyn i'w hardal leol; bod yr ardal leol yn rhywle lle mae pobl o wahanol gefndiroedd yn dod ymlaen yn dda gyda'i gilydd; a bod pobl yn yr ardal yn trin ei gilydd â pharch. Yn 2016-17, roedd 50 y cant o'r bobl yn cytuno â phob un o'r tri datganiad, tra bo tua 70 y cant yn cytuno ag unrhyw un o'r datganiadau. Mae'r ffigurau hyn yn weddol sefydlog ers iddynt gael eu casglu am y tro cyntaf yn 2012.

**5.01 Canran y bobl a oedd yn cytuno â'r datganiadau am eu hardal leol, 2016-17**




Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2016-17

Dangosodd dadansoddiad manwl o ganlyniadau 2016-17, ar ôl rheoli'r canlyniadau er mwyn ystyried amrywiaeth eang o ffactorau eraill, fod pobl yn fwy tebygol o fod ag ymdeimlad cryf o gymuned os ydynt:

- yn hŷn
- â chrefydd heblaw Cristnogaeth
- heb gymwysterau neu â chymwysterau isel
- yn berchen-feddianwyr
- yn byw mewn ardaloedd llai difreintiedig
- â lles meddyliol uchel
- yn fodlon iawn â bywyd ar y cyfan
- yn teimlo'n ddiogel ar ôl iddi dywyllu
- yn gwirfoddoli
- ddim yn teimlo'n unig

- yn byw mewn ardaloedd awdurdod lleol penodol (roedd pobl a oedd yn byw yng Ngheredigion neu Sir Ddinbych yn fwy tebygol o fod ag ymdeimlad cryf o gymuned tra oedd pobl yng Nghasnewydd neu Wrecsam yn llai tebygol o fod ag ymdeimlad cryf o gymuned).

Mae canlyniadau 2017 o SHRN / HBSC yn dangos bod 68 y cant o blant ysgol uwchradd yn teimlo bod dangos parch at bobl eraill yn bwysig iawn. Roedd 60 y cant yn teimlo'n agos at bobl eraill yn aml neu drwy'r amser.

Mae data rhyngwladol o asesiadau PISA yn 2015[105] yn dangos bod disgyblion yng Nghymru, ynghyd â gweddill y DU, yn dweud bod ganddynt lai o ymdeimlad o berthyn mewn ysgol na chyfartaledd yr OECD. Mae ymdeimlad o berthyn mewn ysgol yn uwch ymysg bechgyn a'r rheini â statws economaidd, cymdeithasol a diwylliannol uchel.

**Roedd gan bron i hanner yr aelwydydd a oedd dan fygythiad o ddigartrefedd blant dibynnol**

Yn ystod 2017-18, ar gyfer pob 10,000 o aelwydydd yng Nghymru, roedd 45 o aelwydydd wedi cysylltu â'u hawdurdod lleol i gael cymorth gyda thai ac wedi'u hatal yn llwyddiannus rhag dod yn ddigartref am o leiaf 6 mis, i fyny o 43 aelwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol. Yn y flwyddyn ddiwethaf, gwelwyd cwymp bychan yng nghyfradd yr aelwydydd yr ystyrir eu bod dan fygythiad o fod yn ddigartref.

Yn ystod 2016-17 a 2017-18, roedd yr ymgeisydd rhwng 16 ac 17 oed mewn 2 y cant o'r holl achosion llwyddiannus o atal digartrefedd. Roedd yr ymgeisydd rhwng 18 a 24 oed mewn oddeutu 20 y cant o achosion.

Yn ystod 2017-18, roedd oddeutu 46 y cant o'r holl aelwydydd a oedd dan fygythiad o ddigartrefedd yn deuluoedd gyda phlant dibynnol, i fyny ryw ychydig o 45 y cant yn ystod 2016-17.


Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys nifer y bobl yr amcangyfrifwyd eu bod yn cysgu ar y stryd. Amcangyfrifwyd mai ychydig dros 345 o bobl ledled Cymru oedd yn cysgu ar y stryd ym mis Hydref 2017[106]. Mae hyn yn 10 y cant o gynnydd ar y 313 o bobl yr amcangyfrifwyd eu bod yn cysgu ar y stryd ym mis Hydref 2016[107]. Mae cysgu ar y stryd hefyd wedi bod yn cynyddu mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig.[108]

[105] Programme for International Student Assessment, (PISA, OECD)
[106] Ar sail gwybodaeth a gasglwyd dros bythefnos rhwng 16 a 29 Hydref 2017
[107] Ar sail gwybodaeth a gasglwyd dros bythefnos rhwng 10 a 23 Hydref 2016
[108] Rough sleeping in England: autumn 2017

**Mae bron i dri chwarter yr oedolion yn teimlo'n ddiogel mewn sefyllfaoedd amrywiol ar ôl iddi dywyllu**

Y dangosydd cenedlaethol yn y cyswllt hwn yw canran y bobl a oedd yn cytuno â phedwar datganiad ynghylch teimlo'n ddiogel ar ôl iddi dywyllu: gartref, yn cerdded yn eu hardal leol, wrth deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus, neu wrth deithio mewn car. Yn 2016-17, roedd 73 y cant o'r bobl yn teimlo'n ddiogel ym mhob un o'r pedair sefyllfa hyn. Roedd tua 80 y cant yn teimlo'n ddiogel wrth gerdded yn yr ardal leol neu wrth deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus, tra bo 97 y cant o'r bobl yn teimlo'n ddiogel gartref ac wrth deithio mewn car. O ran bod gartref neu deithio mewn car, roedd mwyafrif llethol y bobl a oedd yn teimlo'n ddiogel yn teimlo'n ddiogel iawn, tra bo cynifer o bobl, neu fwy, yn teimlo'n eithaf diogel wrth gerdded yn yr ardal leol neu wrth deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus ag a deimlai'n ddiogel iawn wrth wneud hynny. Casglwyd data ar deithio mewn car am y tro cyntaf yn 2016-17. Ond mae'r mesurau eraill yn y dangosydd yn gymharol sefydlog ers iddynt gael eu casglu am y tro cyntaf yn 2012.

**5.02 Canran y bobl a oedd yn cytuno â'r datganiadau ynghylch teimlo'n ddiogel wedi iddi dywyllu, 2016-17**




Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2016-17

Dangosodd [dadansoddiad manwl o ganlyniadau 2016-17], ar ôl rheoli'r canlyniadau er mwyn ystyried amrywiaeth eang o ffactorau eraill, fod pobl yn fwy tebygol o deimlo'n ddiogel os ydynt:

- yn ddynion
- mewn iechyd da
- ddim yn dioddef amddifadedd materol
- yn byw mewn ardaloedd llai difreintiedig
- yn teimlo bod pobl yn yr ardal leol yn trin ei gilydd â pharch
- yn fodlon â'r ardal leol fel lle i fyw
- ddim yn teimlo'n unig

- yn byw mewn ardal wledig

Gofynnodd Astudiaeth Carfan y Mileniwm i blant 14 oed yn 2015 pa mor ddiogel yw hi i gerdded, chwarae neu loetran yn yr ardal hon yn ystod y dydd. Dywedodd 6.4 y cant o'r rheini yng Nghymru nad oeddynt yn teimlo'n ddiogel. Roedd y ffigur yn debyg ar gyfer yr Alban a Lloegr ac yn is na Gogledd Iwerddon (9.9).

**Nid yw'r rhan fwyaf o bobl yn profi trosedd. Fodd bynnag, mae cyfraddau adrodd ar drosedd i'r heddlu a chanfyddiadau pobl o droseddu wedi cynyddu yn y flwyddyn ddiweddaraf.**

Mae tystiolaeth fod y tueddiadau yng nghanfyddiad pobl o droseddu yn aml yn wahanol i'r tueddiadau yn nifer yr achosion o droseddu.[109] Mae'n bwysig cofio nad yw'r rhan fwyaf o bobl yn cael profiad o droseddu.

Fodd bynnag, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gwelwyd cynnydd yng Nghymru yng nghanran y bobl sy'n credu bod troseddu'n cynyddu'n genedlaethol, ynghyd â chynnydd yn nifer y troseddau **y rhoddir gwybod i'r heddlu amdanynt** (a all fod oherwydd bod pobl yn fwy parod i roi gwybod i'r heddlu am droseddau. Nid yw cynnydd yn nifer y troseddau a gofnodir o reidrwydd yn golygu bod lefel y troseddau wedi cynyddu mewn gwirionedd).

Ar y llaw arall, yn Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr, nid yw nifer yr achosion o droseddau treisgar (heb gynnwys lladrad) yng Nghymru wedi cynyddu yn 2017-18.

Mae'r data ar ganfyddiad o'r Arolwg Troseddu yn dangos bod canran y bobl sy'n credu bod troseddu'n cynyddu'n genedlaethol wedi codi o 37 y cant yn 2016-17 i 42 y cant yn 2017-18. O gymharu â hynny, mae amcangyfrifon yr arolwg diweddaraf hefyd yn dangos mai ychydig iawn o oedolion (4 y cant) yng Nghymru oedd wedi dioddef trosedd yn bersonol yn y 12 mis blaenorol. Ledled Cymru a Lloegr, mae'r tebygolrwydd o ddioddef trosedd wedi cwympo'n sylweddol dros y tymor hir.

Mae ansawdd y data am droseddau a gofnodir gan yr heddlu wedi cael llawer o sylw dros y blynyddoedd diwethaf, a hynny wedi nifer o arolygiadau ac ymchwiliadau. O ganlyniad, cyflwynwyd arferion cofnodi gwell, ac mae angen cadw hynny mewn cof wrth ystyried y data am droseddau a gofnodir gan yr heddlu. Hefyd, efallai mai'r rheswm am rywfaint o gynnydd yn nifer y troseddau y rhoddir gwybod amdanynt yw bod dioddefwyr troseddau yn fwy parod efallai i fynd at yr heddlu.

Wedi dweud hynny, mae'r data mwyaf diweddar ar gyfer Cymru yn dangos cynnydd o 13 y cant yng nghyfanswm y troseddu yn 2017-18, gyda rhai troseddau penodol yn cynyddu'n gynt nag eraill: cynyddodd trais yn erbyn y person 20 y cant, gwelwyd 39 y cant o gynnydd mewn troseddau rhyw, 38 y cant o gynnydd mewn troseddau yn erbyn y drefn gyhoeddus a 12 y cant o gynnydd mewn troseddau amrywiol yn erbyn cymdeithas[110].

[109] People greatly overestimate their likelihood of being robbed, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
[110] Police recorded crime, police force area data tables, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

O ran plant, roedd yr Arolwg Troseddu yn amcangyfrif bod oddeutu 1 o bob 10 plentyn 10 - 15 oed wedi dioddef o leiaf un trosedd yn y flwyddyn ddiweddaraf a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2018. Roedd ystadegau arbrofol newydd gan ONS yn dangos bod yr heddlu yng Nghymru yn 2017-18 wedi nodi bod 3,184 o droseddau'n rhai a oedd â chysylltiad â cham-drin plant yn rhywiol a 466 yn ymwneud â cham-fanteisio'n rhywiol ar blant[111]. Cafodd 4,085 o blant 10 - 17 oed eu harestio am droseddau hysbysadwy yng Nghymru yn 2016-17 ond gwelwyd 13 y cant o ostyngiad yn y nifer a ddaeth yn gysylltiedig â'r System Cyfiawnder Ieuenctid am y tro cyntaf yng Nghymru[112].

**Mae un o bob deg o ddisgyblion ysgol uwchradd yn cael eu bwlio'n wythnosol, ac mae'r ffigurau hyn yn gymharol uchel yn y DU**

Ar gyfer disgyblion oed ysgol uwchradd, mae'r data diweddaraf yn dangos bod 35 y cant wedi cael eu bwlio yn y ddau fis blaenorol ac roedd 9 y cant wedi cael eu bwlio o leiaf unwaith yr wythnos. Nid oedd seiberfwlio mor gyffredin, gyda 19 y cant wedi cael eu seiberfwlio yn y ddau fis blaenorol a 3 y cant o leiaf unwaith yr wythnos. Roedd 16 y cant yn cyfaddef eu bod yn bwlio eraill tra mai 9 y cant[113] oedd y ffigur ar gyfer seiberfwlio.

Mae data blaenorol o'r astudiaeth wedi awgrymu bod disgyblion yng Nghymru ymysg y rhai sydd fwyaf tebygol yn y DU o ddweud eu bod yn cael eu bwlio fwy nag ychydig o weithiau bob mis, ac mae hyn yn gyson ag astudiaeth PISA yr OECD. Ond, mae'r dadansoddiad o fwlio'n ddibynnol iawn ar gyd-destun yr astudiaeth a'r deunyddiau asesu, ac fe ddylanwadir ar gymariaethau rhyngwladol gan agweddau a chanfyddiadau gwahanol am fwlio mewn gwledydd gwahanol.

Yn y Deyrnas Unedig, yn ôl Astudiaeth Carfan y Mileniwm, roedd y gyfran o blant 14 oed Cymru a adroddodd eu bod "wedi cael eu brifo neu eu pigo arnynt gan blant eraill ar bwrpas" yn fisol o leiaf yn debyg i'r gyfran yn yr Alban a Lloegr.

Mae gwahaniaethau wrth gymharu'r niferoedd sy'n cael eu bwlio â'r disgyblion sy'n dweud wrth astudiaethau eu bod wedi bwlio eraill (yn ôl HBSC, mae Cymru yn gwneud yn well yn rhyngwladol yng nghyswllt y mater olaf o'i gymharu â'r ganran sy'n dweud eu bod yn cael eu bwlio).

**Mae dros 80 y cant yn fodlon â'u hardal leol fel lle i fyw**

Ar y cyfan, yn ôl Arolwg Cenedlaethol 2016-17, mae 85% o'r bobl yn teimlo'n fodlon â'u hardal leol fel lle i fyw.

[111] Child module, Crime Survey for England and Wales, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
[112] Youth Justice annual statistics: 2016 to 2017, Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr
[113] Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion. Gweler y cyhoeddiad ad hoc cysylltiedig

Dangosodd dadansoddiad manwl o ganlyniadau 2016-17, ar ôl rheoli'r canlyniadau er mwyn ystyried amrywiaeth eang o ffactorau eraill, fod pobl yn fwy tebygol o fod yn fodlon â'u hardal leol fel lle i fyw os ydynt:


- yn hŷn (75 oed a hŷn)
- yn byw mewn ardal llai difreintiedig
- yn fodlon iawn â bywyd
- yn teimlo'n ddiogel ar ôl iddi dywyllu
- ddim yn teimlo'n unig
- yn byw mewn ardal wledig
- yn byw mewn ardaloedd awdurdod lleol penodol (roedd pobl sy'n byw yng Ngheredigion neu Gaerdydd yn fwy tebygol o fod yn fodlon â'u hardal leol, tra oedd pobl ym Mlaenau Gwent a Sir y Fflint yn llai tebygol o fod yn fodlon)

**Mae ychydig dros chwarter o oedolion yn gwirfoddoli**

Dangoswyd bod rhyngweithio cymdeithasol o fudd i lesiant personol, ac mae gwirfoddoli'n agwedd ar ryngweithio cymdeithasol y profwyd ei fod yn creu manteision o ran iechyd a llesiant[114].

Yn 2017-18, mae canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol yn dangos bod 28 y cant o bobl yng Nghymru yn gwirfoddoli, yr un fath â'r flwyddyn flaenorol. Roedd pobl yn gwirfoddoli amlaf i elusennau a chlybiau chwaraeon.

**5.03 Canran y bobl a oedd yn gwirfoddoli, yn ôl y math o sefydliad, 2017-18**




Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2017-18

Yn ogystal â gwirfoddoli i glybiau neu sefydliadau, mae 25 y cant o bobl yn gofalu am aelodau'r teulu, cyfeillion, neu gymdogion, neu'n rhoi cymorth iddynt, oherwydd cyflyrau iechyd meddwl neu gorfforol hirdymor.

[114] Understanding Society

Dangosodd dadansoddiad manwl o ganlyniadau 2016-17, ar ôl rheoli'r canlyniadau er mwyn ystyried amrywiaeth eang o ffactorau eraill, fod pobl yn fwy tebygol o wirfoddoli os ydynt:

- yn hŷn
- mewn iechyd da yn gyffredinol
- yn arddel unrhyw grefydd
- â chymwysterau uwch
- yn berchen-feddianwyr
- yn economaidd anweithgar (sy'n cynnwys pobl sydd wedi ymddeol)
- yn teimlo bod bywyd yn werthfawr
- ag ymdeimlad cryf o gymuned
- yn cymryd rhan mewn chwaraeon
- yn siarad Cymraeg
- yn defnyddio'r rhyngrwyd
- mae'r awdurdod lleol y mae pobl yn byw ynddo'n gwneud gwahaniaeth hefyd; er enghraifft, roedd pobl sy'n byw ym Mhowys yn fwy tebygol o wirfoddoli na'r rheini yn Sir Ddinbych.

Mae data'n dangos bod 7 y cant o ddisgyblion ysgol uwchradd yn gwirfoddoli i glwb neu sefydliad yn yr ysgol (y tu allan i wersi), tra bo 18 y cant yn gwirfoddoli i glwb neu sefydliad y tu allan i'r ysgol[115].


**Pobl iau yw'r rhai mwyaf unig**

Mae unigrwydd yn agwedd bwysig ar gydlyniant cymunedol ond mae ganddo hefyd gysylltiad cryf â materion iechyd meddwl. Mae gwaith ymchwil wedi dangos bod perthynas rhwng bod â chysylltiadau cymdeithasol a materion iechyd meddwl yn ddiweddarach mewn bywyd, er enghraifft James et al (2011)[116], ond mae astudiaeth ddiweddar gan Beutel et al (2017)[117] hefyd yn dangos yr effaith ar iechyd meddwl ar draws y sbectrwm oedrannau.

Mae unigrwydd yn fater cymhleth, ac ers 2016-17 mae'r Arolwg Cenedlaethol yn casglu data gan ddefnyddio graddfa unigrwydd De Jong Gierveld, sy'n cwmpasu arwahanrwydd emosiynol a chymdeithasol. Yn 2017-18, ar sail pob un o'r chwe mesur, canfuwyd bod 16 y cant o'r bobl yng Nghymru yn unig. Mae amrywiad amlwg yng nghanran y bobl sy'n teimlo'n unig yn ôl pob un o'r dulliau mesur unigol, o 8 y cant sy'n teimlo'n aml eu bod yn cael eu diystyru i 20 y cant sy'n gweld eisiau cael pobl o'u cwmpas. Er bod canran yr unigrwydd yn uwch ymysg pobl o dan 65 oed yn ôl mwyafrif y dulliau mesur, o ran y rhai sy'n gweld eisiau cael pobl o'u cwmpas, ymysg y rhai sy'n hŷn na 75 oed y cafwyd y ganran uchaf (26 y cant).

115 Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion, gweler y cyhoeddiad ad hoc
116 Late life social activity and cognitive decline in old age
117 Loneliness in the general population: prevalence, determinants and relations to mental health

**5.04 Canran y bobl a oedd yn teimlo’n unig, fesul rheswm, 2017-18**




Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2017-18

Dangosodd dadansoddiad manwl o ganlyniadau 2016-17, ar ôl rheoli’r canlyniadau er mwyn ystyried amrywiaeth eang o ffactorau eraill, fod pobl yn fwy tebygol o deimlo’n unig os ydynt:

- yn iau
- ag anabledd neu salwch cyfyngus hirdymor (yn arbennig ar gyfer oedolion iau)
- mewn iechyd gwael yn gyffredinol
- yn dod o grŵp ethnig heblaw gwyn
- yn sengl, wedi gwahanu neu wedi ysgaru
- yn dioddef amddifadedd materol
- heb ymdeimlad o gymuned
- yn teimlo’n anniogel ar ôl iddi dywyllu
- yn anfodlon â’u hardal leol
- ddim yn gwirfoddoli
  yn defnyddio’r rhyngrwyd


Mae data ar gyfer disgyblion ysgol uwchradd yn dangos bod 32 y cant yn teimlo’n unig o leiaf rywfaint o’r amser[118].

Mae Astudiaeth Carfan y Mileniwm hefyd yn gofyn am unigrwydd ac, yn 2015, roedd 36.3 y cant o blant 14 oed yn teimlo’n unig o leiaf weithiau. Mae hyn yn debyg i wledydd eraill y Deyrnas Unedig, ond yn uwch nag yng Ngogledd Iwerddon (30.3 y cant). Roedd gwahaniaeth sylweddol rhwng bechgyn (27 y cant) a genethod (46 y cant). Nid oes cysylltiad amlwg ag amddifadedd er bod hyn wedi dangos ei ben wrth ystyried y rheini a ddywedodd nad oedd ganddynt neb yr oeddynt yn teimlo’n agos atynt (10.5 y cant) lle roedd hyn yn uwch ar gyfer y rhai llai breintiedig.

Roedd ymchwil PISA yn 2015 yn dangos bod disgyblion yng Nghymru, fel yng ngweddill y DU, yn fwy tebygol na chyfartaledd yr OECD o deimlo’n unig yn yr ysgol.[119]

[118] Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion, gweler y cyhoeddiad ad hoc

**5.05 Canran y plant ysgol uwchradd sy'n teimlo'n unig yn ystod gwyliau'r haf, 2017**





Ffynhonnell: SHRN / HBSC 2017

**Roedd tri chwarter y bobl yn fodlon â'u gallu i gyrraedd / defnyddio cyfleusterau a gwasanaethau**

Y dangosydd cenedlaethol yw canran y bobl sy'n teimlo'n fodlon (bodlon iawn neu weddol fodlon) â'u gallu i gyrraedd/defnyddio'r cyfleusterau a gwasanaethau maent eu hangen (h.y. yr hyn y maent hwy yn eu hystyried yn wasanaethau 'da'.) Yn ôl Arolwg Cenedlaethol 2017-18, roedd 77 y cant o bobl yn fodlon eu bod yn gallu cyrraedd neu ddefnyddio'r gwasanaethau maent eu hangen. Roedd pobl yn lleiaf bodlon â'u gallu i ddefnyddio gwasanaethau cymunedol fel canolfannau cymunedol, ysgolion uwchradd, llyfrgelloedd a chlybiau ieuenctid neu chwaraeon. I'r gwrthwyneb, wrth ystyried natur gysylltiedig pobl drwy gysylltiadau trafnidiaeth, roedd bodlonrwydd â mynediad i gysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus yn uchel (86 y cant).

[119] PISA 2015 Results: Student's Well-being, OECD

**5.06 Gallu cyrraedd/defnyddio gwasanaethau a chyfleusterau yn ôl iechyd cyffredinol, 2017-18**




Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2017-18


Bydd y dangosydd yma'n cael ei ddadansoddi'n fanwl er mwyn deall y ffactorau sy'n bwysig o ran cyrraedd neu ddefnyddio gwasanaethau a chyfleusterau.

Mae gwasanaethau ar-lein yn dod yn fwyfwy pwysig. Yn 2017-18 roedd gan 85 y cant o aelwydydd fynediad i'r rhyngrwyd ac roedd 68 y cant o bobl yn fodlon â chyflymder eu rhyngrwyd gartref. Roedd 73 y cant o'r rheini sy'n defnyddio'r rhyngrwyd wedi prynu nwyddau neu wasanaethau ar-lein yn ystod y pedair wythnos flaenorol.

**Gwelwyd gostyngiad graddol yn y rheini sy'n teimlo y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau lleol**

Yn 2016-17, roedd 20 y cant o bobl yn teimlo'u bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol. Mae hyn yn debyg iawn i'r ffigur a gafwyd yn 2014-15 ond ychydig yn is na'r ffigur yn 2012-13 a 2013-14.

**5.07 Canran y bobl sy'n teimlo'u bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol, 2012-13 i 2016-17**




Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Dangosodd dadansoddiad manwl o ganlyniadau 2014-15, ar ôl rheoli'r canlyniadau er mwyn ystyried amrywiaeth eang o ffactorau eraill, fod pobl yn fwy tebygol o deimlo'u bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau os ydynt:

- mewn iechyd da yn gyffredinol
- wedi'u haddysgu i lefel gradd neu uwch
- yn teimlo'u bod yn rheoli eu bywyd beunyddiol
- yn teimlo bod pobl yn yr ardal yn trin ei gilydd â pharch
- yn byw ar Ynys Môn, yng Nghaerffili neu yn Abertawe, o'i gymharu â Sir Benfro a Blaenau Gwent

Yn 2016-17:

- roedd 16 y cant o'r bobl wedi cysylltu â'u cynghorydd lleol yn y 12 mis blaenorol. O'r rhai a oedd wedi cysylltu â'u cynghorydd
  - dywedodd 56 y cant eu bod yn deall yr hyn y mae eu cynghorydd yn ei wneud
  - roedd 49 y cant yn cytuno bod eu cynghorydd lleol yn gweithio'n agos gyda'r gymuned leol
- roedd 33 y cant yn cytuno bod eu cyngor yn rhoi gwybod i bobl sut y mae'n perfformio
- roedd 35 y cant o'r bobl yn cytuno bod y cyngor yn gwneud popeth y gall ei wneud i wella'r ardal leol

Mae'r data diweddaraf a gyhoeddwyd ar etholiadau awdurdodau lleol yng Nghymru[120] ar gyfer etholiad 2017 lle roedd y nifer a bleidleisiodd yn 42 y cant mewn seddi lle roedd mwy nag un ymgeisydd, i fyny o 39 y cant yn 2012/13 ond yn is na'r 44 y cant yn 2008. Roedd hyn yn amrywio yn ôl awdurdod lleol, o 36.3 y cant yng Nghasnewydd a Chaerffili i 53.0 y cant yng Ngheredigion yn 2017. Gwelwyd cynnydd yn y nifer a bleidleisiodd ymhob ardal awdurdod lleol rhwng 2012 a 2017 heblaw am Ynys Môn. Ar lefel ward, roedd y ganran a bleidleisiodd yn amrywio o 17.2 y cant yn Nhrefforest (Rhondda Cynon Taf) i 69.6 y cant ym Methel (Gwynedd).

[120] Local Elections in Wales, May 2017, Y Comisiwn Etholiadol

# Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

**Y nod**: Creu cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn diogelu diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n caniatáu ac yn annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, mewn chwaraeon ac mewn gweithgareddau hamdden.

**Awdur: Glyn Jones, Llywodraeth Cymru**

**Beth rydym wedi'i ddysgu o'r data yn y flwyddyn ddiwethaf?**

Yn 2017-18 cawsom wybodaeth am y dangosydd cenedlaethol y cytunwyd arno am y tro cyntaf erioed oedd yn dangos bod 75 y cant o oedolion wedi mynychu neu gymryd rhan 3 gwaith neu fwy y flwyddyn mewn digwyddiadau celfyddydol, diwylliannol neu dreftadaeth. Nid oes modd cymharu'r dangosydd hwn gyda data ar gyfer blynyddoedd blaenorol ond yn gyffredinol mae'r rhain wedi dangos cynnydd yn nifer y bobl sy'n mynychu ac yn cymryd rhan yn y celfyddydau.

O ran plant, mae data diweddaraf Cyngor Celfyddydau Cymru yn dangos cynnydd yn nifer y plant sy'n mynychu neu gymryd rhan yn 2017, i ryw raddau yn gwyrdroi'r gostyngiad yn 2016.

Roedd cynnydd yn nifer yr oedolion sy'n cyfrannu mewn chwaraeon yn 2017-18 o gymharu â'r flwyddyn gyntaf o ddata ar gyfer y dangosydd hwn, gyda 32 y cant o oedolion wedi cymryd rhan 3 gwaith yr wythnos neu fwy.  Ni fu arolwg newydd o chwaraeon mewn ysgolion.

Mae canran y siaradwyr Cymraeg, yn oedolion a phlant, wedi parhau ar yr un lefel yn gyffredinol.  Mae data'r arolwg yn awgrymu bod cynnydd wedi bod ymhlith pobl sy'n datgan eu bod yn siarad ychydig o eiriau o Gymraeg. Eleni rydym wedi cynnwys data o gyfrifiad yr ysgolion ar ddisgyblion ysgol sy'n siarad Cymraeg gartref er mwyn cael cyd-destun. Mae ffigurau hyn wedi sefydlogi yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Mae data newydd yn dangos bod 86 y cant o'r boblogaeth yn cytuno bod yr Iaith Gymraeg yn rhywbeth i fod yn falch ohono.

Bu cynnydd yn y nifer o archifau achredadwy yng Nghymru dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae cyflwr adeiladau rhestredig wedi parhau yn sefydlog, er y bu gostyngiad bychan yng nghanran yr henebion cofrestredig sydd mewn cyflwr da neu sefydlog.

**Mae tri chwarter yr oedolion yn mynychu neu'n cymryd rhan yn y celfyddydau, ac mae'r nifer sy'n mynychu ac yn cymryd rhan wedi codi yn y blynyddoedd diwethaf.**

Gall cymryd rhan yn y celfyddydau ac mewn chwaraeon gael effaith bositif ar iechyd meddwl, llesiant ac iechyd corfforol a gall hefyd wella cysylltiadau cymdeithasol a lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan felly gefnogi nodau llesiant amrywiol iawn.

Ein dangosydd cenedlaethol, a gasglwyd yn Arolwg Cenedlaethol Cymru am y tro cyntaf yn 2017-18, yw'r nifer sydd wedi bod yn bresennol neu gymryd rhan mewn digwyddiadau


celfyddydol, diwylliannol neu dreftadaeth dair gwaith neu fwy mewn blwyddyn. At ddibenion y sylwadau hyn, wrth gyfeirio at fynychu neu gyfraniad “rheolaidd”, rydym yn cyfeirio at y diffiniad hwn. Mae’r dangosydd hwn yn cynnwys mynychu neu gymryd rhan mewn digwyddiadau cerddoriaeth, theatr, ffilm, dawns, y celfyddydau gweledol a chrefft, ysgrifennu creadigol, ymysg eraill.

Roedd y data yn dangos bod 75 y cant o oedolion 16 mlwydd oed neu hŷn wedi mynychu neu gymryd rhan mewn digwyddiad celfyddydol 3 gwaith neu fwy. Roedd menywod ar y cyfan yn fwy tebygol o wneud hynny.

Wrth ystyried cymryd rhan a mynychu ar wahân, roedd pobl yn llawer mwy tebygol o fod wedi mynychu digwyddiadau celfyddydol yn hytrach na chyfrannu atynt. Roedd 68 y cant o oedolion wedi bod yn bresennol mewn digwyddiad celfyddydol, o gymharu â 22 y cant oedd wedi cymryd rhan. Fodd bynnag, o’r rhai hynny nad ydynt yn cymryd rhan, maent yn fwy tebygol o wneud hynny yn rheolaidd, gyda hanner y rhai hynny oedd wedi cyfrannu yn gwneud hynny o leiaf unwaith yr wythnos.


O ran mynychu, roedd oddeutu hanner yr oedolion wedi nodi eu bod wedi gweld ffilm, gyda cherddoriaeth fyw a’r theatr y digwyddiadau mwyaf poblogaidd nesaf. Y celfyddydau a’r crefftau gweledol neu gerddoriaeth oedd â’r nifer uchaf yn cyfrannu.

**6.01 Pa mor aml ydych wedi cyfrannu mewn digwyddiad celfyddydol, yn eich amser eich hun, yn y flwyddyn ddiwethaf, 2017-18**




Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2017-18

**6.02 Pa mor aml ydych wedi mynychu digwyddiad celfyddydol, yn eich amser eich hun, yn y flwyddyn ddiwethaf, 2017-18**




Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru 2017-18

Mae'r data o flynyddoedd blaenorol ar y celfyddydau yn dangos, ar gyfer y rheiny nad oedd wedi bod i ddigwyddiad celfyddydol, y rheswm mwyaf cyffredin am beidio â mynd oedd diffyg diddordeb.

Er bod y dangosydd cenedlaethol ei hun yn seiliedig ar y diffiniad newydd yn 2017-18, gallwn ystyried tueddiadau mwy hirdymor o ran cyfrannu at y celfyddydau a diwylliant o arolygon a gynhaliwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru.

Roedd yr Arolwg Celfyddydau Cymru 2015[121] diwethaf wedi dangos bod presenoldeb oedolion 16 oed a throsodd mewn digwyddiadau celfyddydol wedi cynyddu o'i gymharu â 2005, ond wedi disgyn ychydig o'i gymharu â 2010. Mae'r ymchwil hwn yn defnyddio diffiniad ychydig yn wahanol o ddigwyddiad celfyddydol – y gwahaniaeth mwyaf yw ei fod yn cynnwys gweld ffilm yn y sinema.

Mae ymchwil y Cyngor Celfyddydau hefyd yn rhoi syniad inni o dueddiadau yn y mathau o ddigwyddiadau yr eir iddynt, a chan gymharu data 2015 gyda data 2005, gwelir mai'r sinema, orielau celf / arddangosfeydd a cherddoriaeth byw sydd wedi gweld y cynnydd mwyaf o ran presenoldeb.

Roedd arolygon Cyngor Celfyddydau Cymru hefyd yn dangos bod cynnydd rhwng 2010 a 2015 o safbwynt y nifer oedd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol. Ymysg y ffactorau sy'n rhwystro pobl rhag cymryd rhan y mae amser, argaeledd, diddordeb a chost. Mae iechyd hefyd yn rhwystr, ac yn enwedig i'r bobl o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is, ac mae pobl anabl yn llai tebygol o fynychu neu gymryd rhan.


[121] Arolwg y Celfyddydau yng Nghymru 2015, Cyngor Celfyddydau Cymru

**Mae presenoldeb rheolaidd a chymryd rhan mewn digwyddiadau celfyddydol yn wahanol ar draws gwahanol grwpiau o bobl**

Roedd menywod ychydig yn fwy tebygol o fynychu digwyddiad celfyddydol na dynion (77 y cant o gymharu â 73 y cant). O safbwynt presenoldeb, nid oedd unrhyw wahaniaeth ar draws y rhywiau ond roedd mwy o fenywod yn cymryd rhan yn rheolaidd (24 y cant o'i gymharu ag 20 y cant).

Roedd gweithgarwch diwylliannol yn amrywio mwy yn ôl grwpiau oedran. Roedd ar ei isaf ymhlith y grŵp oedran hynaf: 57 y cant o oedolion 75 oed a throsodd oedd wedi mynd neu gymryd rhan yn rheolaidd mewn digwyddiad celfyddydol yn y flwyddyn ddiwethaf o gymharu ag 83 y cant o'r rhai hynny o dan 45 mlwydd oed.  Mae tueddiadau yn debyg ar y cyfan ar gyfer bod yn bresennol a chymryd rhan (h.y. mae pobl ifanc yn fwy tebygol o wneud y ddau beth).  Ond ar gyfer cymryd rhan y gwahaniaeth mwyaf yw yn y grŵp oedran ieuengaf un ble yr oedd 36 y cant wedi cymryd rhan mewn digwyddiad celfyddydol yn y flwyddyn ddiwethaf o gymharu â'r ffigur cyffredinol o 22 y cant.

**6.03 Canran o bob grŵp oedran fu'n bresennol neu a gymerodd ran o leiaf 3 gwaith y flwyddyn mewn gweithgareddau celfyddydol, diwylliannol neu dreftadaeth yn y flwyddyn ddiwethaf, 2017-18**




Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2017-18

Efallai y gellir priodoli peth o'r gwahaniaeth rhwng y grwpiau oedran i blant, gan mai cyplau â phlant dibynnol oedd y math o aelwyd oedd fwyaf tebygol o fod wedi mynd i ddigwyddiad celfyddydol yn y flwyddyn ddiwethaf.

Mae perthynas gref rhwng digwyddiadau celfyddydol a diwylliannol a chymwysterau. Roedd pobl â lefelau uwch o gymwysterau gryn dipyn yn fwy tebygol o fod wedi mynychu neu gymryd rhan yn rheolaidd mewn celfyddyd a diwylliant na phobl â lefelau is o gymwysterau neu dim cymwysterau. Ymddengys hefyd fod amddifadedd yn effeithio ar bresenoldeb a chymryd rhan. Roedd y bobl o ardaloedd yn yr 20 y cant tlotaf yng Nghymru yn llai tebygol o fod wedi bod i ddigwyddiad celfyddydol na phobl o grwpiau llai difreintiedig.

**Mae plant a phobl ifanc sy'n mynychu digwyddiadau celfyddydol wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf er gwaethaf gostyngiad yn 2016**


Nid yw plant wedi'u cynnwys yn Arolwg Cenedlaethol Cymru, ond mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn cynnal arolwg[122] blynyddol o gyfraniad plant at y celfyddydau. Yn dilyn gostyngiad yn y nifer sy'n bresennol yn 2016, roedd data ar gyfer 2017 yn dangos cynnydd, gydag 87 y cant o'r rhai rhwng 7 ac 18 oed wedi bod i un digwyddiad celfyddydol unwaith y flwyddyn neu fwy. Er bod y ffigur diweddaraf yn parhau'n is na'r uchafbwynt a welwyd yn 2015, yn gyffredinol, mae canran y plant sydd wedi bod i ddigwyddiadau celfyddydol yn tyfu. Mae tueddiadau wedi bod yn debyg ar gyfer cyfrannu, gyda ffigur 2017 yn gwyrdroi'r gostyngiad a welwyd yn 2016 a'r cyfraniad cyffredinol yn uwch nag yn nechrau'r ddegawd.

Mae ymchwil y Cyngor Celfyddydau i ymgysylltiad plant â'r celfyddydau yn gofyn i blant am eu presenoldeb mewn dramâu, sioeau cerdd, operâu, perfformiadau cerddoriaeth fyw, perfformiadau dawns, orielau neu arddangosfeydd, digwyddiadau llenyddol, carnifalau a digwyddiadau celfyddyd stryd.

Fel gydag oedolion; merched a phlant o'r cefndiroedd economaidd-gymdeithasol uwch oedd fwyaf tebygol o fynd i ddigwyddiadau celfyddydol, a chymryd rhan ynddynt.

Yn ôl y disgwyl, mae gan blant ystod o gyfleoedd i fod yn bresennol neu gymryd rhan mewn digwyddiadau drwy eu hysgol neu goleg yn ogystal ag yn eu hamser eu hunain. Mae plant yn fwyaf tebygol o fod wedi bod yn bresennol mewn digwyddiad celfyddydol yn eu hamser eu hunain (76 y cant o blant) o gymharu â chymryd rhan (55 y cant). Ond mae cymryd rhan yn fwy tebygol o fod wedi ei arwain gan ysgol neu goleg.

**6.04 Presenoldeb mewn digwyddiadau celfyddydol unwaith neu fwy y flwyddyn ymysg y rhai 7 i 18 oed, 2010 i 2017**




Ffynhonnell: Arolwg Omnibws y Plant Cyngor Celfyddydau Cymru

[122] Arolwg Omnibws y Plant, Cyngor Celfyddydau Cymru


**Un rhan o dair o oedolion yn cymryd rhan mewn chwaraeon 3 gwaith yr wythnos neu fwy, cynnydd o'r flwyddyn flaenorol**

Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru, dywedodd 32 y cant o oedolion eu bod yn cymryd rhan mewn chwaraeon tair gwaith yr wythnos neu fwy yn 2017-18, ond nododd 41 y cant o oedolion 16 oed a throsodd nad oeddent yn gwneud unrhyw weithgaredd rheolaidd. Roedd hyn yn uwch na'r ffigur ar gyfer 2016-17, sef y flwyddyn gyntaf y gofynnwyd y cwestiwn yn yr Arolwg Cenedlaethol.

Roedd dynion a phobl ifanc yn fwy tebygol o fod wedi cymryd rhan mewn chwaraeon 3 gwaith neu fwy yr wythnos o gymharu â menywod a'r grwpiau oedran hŷn.

Mae'r gweithgareddau chwaraeon mwyaf cyffredin yn cynnwys cerdded, nofio, mynd i'r gampfa neu weithgareddau ffitrwydd, loncian, pêl-droed a beicio.  Rhain oedd y gweithgareddau mwyaf cyffredin i ddynion a menywod, ar wahân i bêl-droed a beicio, ble yr oedd dynion yn llawer mwy tebygol o gymryd rhan.

**6.05 Cyfranogaeth mewn chwaraeon yn ôl amlder, 2017-18**




Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2017-18

Cyhoeddodd Chwaraeon Cymru adroddiad blynyddol cyflwr y genedl ar Chwaraeon a Ffyrdd o Fyw'n Egnïol[123]. Cofnodwyd bod cyfraddau cyfranogi chwaraeon hefyd yn gysylltiedig ag anabledd (roedd pobl nad oedd ganddynt anabledd yn fwy tebygol o gyfranogi), statws cyflogaeth (pobl mewn gwaith yn fwy tebygol o gyfranogi) ac amddifadedd (roedd pobl nad oeddent yn dioddef amddifadedd materol yn fwy tebygol o gyfranogi).

[123] Chwaraeon a Ffyrdd o Fyw'n Egnïol, Chwaraeon Cymru

Roedd yr Arolwg Cenedlaethol diweddaraf yn nodi bod 55 y cant o'r boblogaeth am wneud mwy o chwaraeon neu weithgareddau corffol. Mae'r mathau o weithgareddau sydd fwyaf poblogaidd yn cynnwys nofio, beicio a'r gampfa neu ddosbarthiadau ffitrwydd. Ymysg dynion a menywod y rhwystr mwyaf cyffredin i gyfranogi mewn chwaraeon oedd ymrwymiadau gwaith a theulu, oedran a ffitrwydd (data 2016-17). Fodd bynnag roedd y gost a chyfleusterau lleol hefyd yn cael eu nodi fel rhwystrau. I roi hyn yn ei gyd-destun, mae'r Arolwg Cenedlaethol Cymru diweddaraf wedi dangos bod llai na hanner yr oedolion yn teimlo bod ganddynt ganolfan neu glwb chwaraeon i'w defnyddio.

**Disgyblion ysgol yn gwneud mwy o chwaraeon yn 2015**

Roedd yr ymchwil[124] diweddaraf gan Chwaraeon Cymru ar ddisgyblion ysgol sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon yn 2015 ac mae'r arolwg chwaraeon ysgol diweddaraf yn digwydd eleni. Felly nid oes newid yn yr adran hon o'r adroddiad Llesiant Cymru gyntaf.

Roedd ymchwil Chwaraeon Cymru ar gyfer 2015 yn dangos bod 48 y cant o ddisgyblion Blynyddoedd 3 i 11 (7 i 16 oed) yn cymryd rhan mewn chwaraeon 3 gwaith yr wythnos. Mae hyn i fyny o 40 y cant yn 2013.

Mae ychydig iawn yn wahanol rhwng cyfraddau cyfranogiad ar draws ysgolion cynradd ac uwchradd, gyda 49 y cant o ddisgyblion ysgol gynradd (7 i 11 oed) a 48 y cant o ddisgyblion uwchradd (11 i 16 oed) sy'n cymryd rhan 3 gwaith yr wythnos mewn chwaraeon.

Fodd bynnag, roedd bechgyn yn fwy tebygol o gymryd rhan yn rheolaidd mewn chwaraeon na merched (52 y cant o'i gymharu â 44 y cant) ac roedd y cyfraddau ar gyfer disgyblion yr ysgolion lleiaf difreintiedig yn dueddol o fod yn uwch na'r cyfraddau ar gyfer disgyblion yr ysgolion mwyaf difreintiedig.

**Mae 19 y cant o oedolion yn siarad Cymraeg, gyda 10 y cant yn gallu siarad mwy nag ychydig o eiriau a hynny'n ddyddiol, ond mae mwy o bobl bellach yn dweud eu bod yn gallu siarad rhywfaint o Gymraeg"**

Mae'r Iaith Gymraeg yn rhan arwyddocaol o ddiwylliant a hunaniaeth hanesyddol Cymru. Mae cwestiynau newydd yn yr Arolwg Cenedlaethol Cymru diweddaraf yn dangos bod 86 y cant o oedolion 16 oed a throsodd yn cytuno â'r datganiad bod yr iaith Gymraeg yn rhywbeth i fod yn falch ohoni, ac mae'r ffigur hwn yn debyg i'r rhan fwyaf o grwpiau o bobl ymysg y rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg (84 y cant).

Yn ôl data Cyfrifiad 2011, gallai 19.0 y cant o boblogaeth Cymru (tair oed a throsodd) siarad Cymraeg, roedd hyn yn gwymp bychan o Gyfrifiad 2001 (20.8 y cant). Yn gyffredinol mae nifer a chanran y siaradwyr wedi lleihau gydol yr ugeinfed ganrif, ond mae ffigurau 2011 yn uwch na'r hynny yn 1991. Mae'r ardaloedd sydd â'r canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg yn ardaloedd Môn, Gwynedd, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin. Yn ogystal â gwahaniaethau ar draws ardaloedd yng Nghymru, mae pobl gyda chymwysterau uwch, sy'n cyfrif eu hunain yn Wyn, ac/neu yn Gristion yn fwy tebygol o siarad Cymraeg[125].


[124] Arolwg ar Chwaraeon Ysgol, Chwaraeon Cymru
[125] Pwy sydd fwyaf tebygol o "siarad Cymraeg" a "siarad Cymraeg yn ddyddiol a mwy nag ychydig eiriau"? Ymchwil Llywodraeth Cymru

Daw rhagor o wybodaeth ar siaradwyr Cymraeg o Arolwg Cenedlaethol Cymru sy’n nodi amcangyfrifon ar gyfer pobl 16 oed a throsodd. Ers 2011, mae’r amcangyfrifon ar gyfer pobl sy’n gallu siarad Cymraeg wedi parhau’n sefydlog ar oddeutu un rhan o bump o oedolion. Fodd bynnag, gwelwyd cynnydd dros y blynyddoedd diwethaf yn y rhai hynny sy’n dweud eu bod yn gallu siarad “rhywfaint” o Gymraeg (er enghraifft siarad ychydig o eiriau), sydd wedi cynyddu i 12 y cant yn 2017-18, o’i gymharu â 4 y cant yn 2014-15.

Wrth ystyried bywiogrwydd y Gymraeg, mae hefyd yn bwysig ystyried a yw’r iaith yn cael ei defnyddio gan y bobl sy’n ei medru. Mae cyfuno data o’r Cyfrifiad ac Arolwg Defnydd Iaith 2013-15 yn dweud wrthym, ar draws y boblogaeth gyfan sy’n 3 oed a throsodd, fod 10 y cant yn gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg ac yn gwneud hynny’n ddyddiol. Mae hyn wedi aros yn weddol sefydlog o ran oedolion dros y blynyddoedd diwethaf yn ôl data’r Arolwg Cenedlaethol. Mae’r data hefyd yn awgrymu bod pobl sydd mewn cyflogaeth yn fwy tebygol o siarad yr iaith pob dydd.

Dangosodd Cyfrifiad 2011 ostyngiad yn nifer yr ardaloedd bychain lle y gallai'r mwyafrif - naill ai 50 y cant neu fwy neu 70 y cant neu fwy - o’r boblogaeth sy’n gallu siarad Cymraeg. Gall y mynychder is o siaradwyr Cymraeg yn ardal leihau'r tebygolrwydd a pha mor aml y defnyddir y Gymraeg mewn sgwrs.

**6.06 Canran tair oed a throsodd sy'n gallu siarad Cymraeg**




Ffynhonnell: Y Cyfrifiad

Nodyn: Ni chynhaliwyd Cyfrifiad ym 1941


**Plant yw’r grŵp oedran mwyaf tebygol o nodi eu bod yn gallu siarad Cymraeg**

Mae Cyfrifiad 2011 a’r Arolwg Defnydd o’r Iaith Gymraeg (2013-15) mwy diweddar yn dangos mai plant sy’n fwyaf tebygol o nodi eu bod yn gallu siarad Cymraeg, gyda’r ddwy ffynhonnell yn awgrymu bod oddeutu 40 y cant o blant 3-15 mlwydd oed yn gallu gwneud hynny.  Mae plant ifanc wedi oedran addysg orfodol yn llai tebygol o nodi eu bod yn siarad Cymraeg.

Rhoddodd adroddiad yr Arolwg Defnydd Iaith ddadansoddiad llawn o'r defnydd o'r iaith Gymraeg ymhlith plant ac oedolion. I'w grynhoi, roedd yn dangos bod plant yn fwy tebygol nac oedolion o fod yn rhugl neu i siarad Cymraeg yn aml. Maent hefyd yn fwyaf tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol a hynny'n fwy na thebyg oherwydd eu bod yn defnyddio'r iaith yn rheolaidd yn yr ysgol. Roedd canran y plant rhwng 3 a 15 mlwydd oed a oedd yn siarad Cymraeg bob dydd yn llawer uwch nag unrhyw grŵp oedran arall, gyda bron chwarter ohonynt yn siarad Cymraeg bob dydd. Mae canran y plant a'r bobl ifanc rhwng 3 a 15 sy'n siarad Cymraeg bob dydd yn debyg i'r canran o ddisgyblion sy'n derbyn eu haddysg mewn ysgolion cynradd, canol ac uwchradd cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog, er nad ydym yn gwybod o angenrheidrwydd mai yr un plant ydynt.

Ffynhonnell wybodaeth arall ar dueddiadau yn yr iaith Gymraeg ymysg plant yw'r Cyfrifiad Ysgolion blynyddol, a oedd yn dangos cynnydd yng nghanran y plant y gwnaeth eu rhieni ddatgan eu bod yn siarad Cymraeg gartref ar ddechrau'r 2010au, ond yn ddiweddar mae wedi sefydlogi ac mae bellach oddeutu 10.4 y cant. Dangosodd yr Arolwg o'r Defnydd o'r Iaith Gymraeg bod plant yn llawer mwy tebygol o ddefnyddio Cymraeg yn yr ysgol na gartref neu gyda'u ffrindiau.

**6.07 Canran oedran 5 neu hŷn mewn ysgolion uwchradd a gynhelir sy'n siarad Cymraeg gartref, 2006 i 2017**




Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)

**Mae siaradwyr Cymraeg yn fwy tebygol o fod yn rhan o gelfyddyd neu chwaraeon, ac o'r rhain, mae siaradwyr Cymraeg rhugl yn llawer mwy tebygol o fynychu digwyddiadau yn y Gymraeg.**

Mae perthynas rhwng siarad Cymraeg a chymryd rhan yn y celfyddydau neu chwaraeon. Fodd bynnag gallai hyn gael ei ddylanwadu gan y ffaith bod siaradwyr Cymraeg hefyd yn fwy tebygol o fod â chymwysterau uwch ac ar y cyfan yn dioddef llai o amddifadedd.

Ar y cyfan mae siaradwyr Cymraeg yn fwy tebygol o fynychu neu gyfrannu at y celfyddydau, gyda 79 y cant o siaradwyr Cymraeg yn gwneud hynny'n rheolaidd o gymharu â 72 y cant ar gyfer y rhai sydd ddim yn siarad Cymraeg.

Mae’r ystadegau hynny yn gysylltiedig â bod yn bresennol mewn unrhyw ddigwyddiad, ond roedd Arolwg Defnydd o’r Iaith 2013-15 yn dadansoddi mynychu gweithgareddau yn y Gymraeg.

Roedd yn dangos bod siaradwyr Cymraeg rhugl yn llawer mwy tebygol o fod yn bresennol mewn digwyddiad cymdeithasol, diwylliannol neu chwaraeon yn y Gymraeg yn hytrach na’r rhai llai rhugl. Ar gyfartaledd, roedd oedolion oedd yn diffinio eu hunain fel rhugl ddwywaith yn fwy tebygol o fod yn bresennol mewn digwyddiad cymdeithasol neu ddiwylliannol yn y Gymraeg nac oedolion llai rhugl, a bron deirgwaith mor debygol o fod wedi bod yn bresennol mewn digwyddiad chwaraeon yn y Gymraeg.

O ran pobl ifanc rhwng 3-15 mlwydd oed, roedd 37 y cant wedi bod yn bresennol mewn digwyddiad cymdeithasol neu ddiwylliannol drwy gyfrwng y Gymraeg nad oedd wedi’i drefnu gan eu hysgol (roedd mwy wedi bod yn bresennol mewn digwyddiadau a drefnwyd gan eu hysgol), a bron i chwarter o’r rhain wedi bod mewn digwyddiad chwaraeon drwy gyfrwng y Gymraeg oedd heb ei drefnu gan eu hysgol. Eto, roedd siaradwyr Cymraeg rhugl yn llawer mwy tebygol o fod wedi bod yn bresennol mewn digwyddiadau diwylliannol neu chwaraeon a gynhaliwyd drwy gyfrwng y Gymraeg na’r rhai nad oeddent yn rhugl.

**Dros hanner amgueddfeydd ac archifau Cymru wedi cyrraedd safonau achrededig y Deyrnas Unedig**

Aeth 34 y cant o bobl 16 oed a throsodd i lyfrgell ac roedd 40 y cant wedi ymweld ag amgueddfa yn 2017-18, oddeutu yr un fath â 2016-17. Roedd cynnydd bychan yn y canran oedd yn ymweld â safle hanesyddol yn 2017-18 (bellach yn 63 y cant). Fodd bynnag, i ddiogelu hunaniaeth ddiwylliannol Cymru, mae’n bwysig bod asedau treftadaeth yn cael eu cynnal a’u cadw’n dda, a’u bod yn hygyrch. Erbyn mis Mawrth 2018, roedd 94 amgueddfa a 12 sefydliad archifol yng Nghymru wedi bodloni’r safonau uchel sydd eu hangen i gael achrediad y Deyrnas Unedig. Roedd 4 yn ychwanegol o sefydliadau archifau wedi cael eu hachredu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Er nad oes ffigurau pendant ar gael, amcangyfrifir bod hyn yn cynrychioli oddeutu 60 y cant o amgueddfeydd ac archifau Cymru ac mae’r ffigur hwn wedi parhau’n sefydlog ers i’r gwaith adrodd ddechrau.

O’r 30,000 o adeiladau rhestredig yng Nghymru, mae’r canran sydd mewn cyflwr “sefydlog” neu sy’n “gwella” wedi aros yn weddol gyson dros y blynyddoedd diwethaf. Oherwydd sawl achlysur o dywydd gwael dros y gaeaf, mae canran y 4,200 o henebion rhestredig sy’n sefydlog neu’n gwella wedi cwympo ychydig dros y blynyddoedd diwethaf. Ar hyn o bryd mae 14 y cant o henebion yn y categori ‘agored i risg’.

**Mae tirwedd naturiol Cymru yn ased cenedlaethol pwysig ac yn hollbwysig o ran diwylliant a threftadaeth**

Mae tirwedd naturiol Cymru yn rhan bwysig o ddiwylliant a lles ein gwlad ac mae hefyd yn bwysig i'r diwydiant twristiaeth, sy'n ddiwydiant a all hybu twf economaidd. Gellir effeithio arno drwy, er enghraifft, ehangu ardaloedd trefol a datblygiadau mawr ar dirwedd naturiol. Mae Adolygiad o Dirweddau Dynodedig yng Nghymru 2014[126] yn nodi bod Parciau Cenedlaethol Cymru ac Ardaloedd o Brydferthwch Naturiol Eithriadol yn cael eu hystyried yn dirweddau o bwysigrwydd cenedlaethol ac yn asedau cenedlaethol sy'n gorchuddio 25 y cant o Gymru. Mae dros 50 y cant o Gymru o bwys cenedlaethol penodol am olygfeydd a nodweddion.

Mae'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yn nodi mai ychydig o newid tirweddol a welwyd hyd at 2015 – ond bod rhai achosion o newid sylweddol yn lleol. Dyma rai pethau allweddol sydd wedi cyfrannu at newid:

- Ehangu aneddiadau
- Datblygiadau masnachol a diwydiannol
- Gwelliannau i ffyrdd a chwareli
- Ffermydd gwynt ar dir
- Torri coed conwydd a phlannu coed llydanddail
- Ehangu coetiroedd

Mae'r cyd-destun hwn hefyd yn berthnasol i arfordir Cymru, sy'n 2,740 cilomedr o hyd, o ran ei fod yn rhan o dirwedd Cymru a'i fod yn bwysig ar gyfer hyrwyddo gweithgareddau awyr agored. Mae safon dŵr arfordirol a morol yn weddol dda ar y cyfan, a gwelwyd gwelliannau dros y blynyddoedd diweddar a chynnydd yn nifer y lleoliadau dŵr ymdrochi dynodedig.

[126] The 2014 Review of Designated Landscapes in Wales, Cyfoeth Naturiol Cymru

# Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

**Y nod :** Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang. Mae Nod 7 yn cydnabod y gall yr hyn rydym yn ei wneud i sicrhau bod Cymru'n genedl gynaliadwy, mewn byd sy'n rhyng-gysylltiedig, gael effeithiau cadarnhaol a negyddol y tu allan i Gymru.

**Wedi'i diweddaru gan: Rachel Dolman, Llywodraeth Cymru**

**Beth ydym wedi ei ddysgu o'r data yn y flwyddyn ddiwethaf?**

Eleni rydym wedi ehangu'r ystod o wybodaeth sy'n cael ei gynnwys yn y naratif. Fodd bynnag, mae llawer o'r sylwadau yr un fath ag adroddiad y llynedd, gan na chaiff y data ei ddiweddaru pob blwyddyn ac mae'r hyn a gafodd ei gynnwys y flwyddyn ddiwethaf yn parhau yr un mwyaf perthnasol a diweddar. Rydym yn parhau i weithio gyda Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru i ystyried ffynonellau data i gynnwys yn y naratif hwn yn y dyfodol.

Er bod tueddiad hirdymor o ostyngiad mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr, mae'r data diweddaraf yn dangos cynnydd mewn allyriadau yn 2016 o gymharu â 2015, sy'n bennaf oherwydd yr adferiad mewn cynhyrchu pŵer nwy naturiol yn dilyn nifer o achlysuron pan nad oedd y cyflenwad ar gael er mwyn gwella effeithlonrwydd yn ystod 2015. Y cyflenwad ynni, prosesau busnes a diwydiannol sy'n parhau i fod y prif reswm dros allyriadau nwyon tŷ gwydr.

Mae gosod dulliau o gynhyrchu ynni adnewyddadwy wedi cyflymu yn ddiweddar gyda gallu technolegau megis paneli solar yn fwy na dyblu yn y ddwy flynedd hyd at 2016, ac mae gallu gwynt ar y tir yn dangos cynnydd o 50 y cant.

Mae'r cyfeiriadau o ddioddefwyr posibl o gaethwasiaeth fodern wedi cynyddu ers y llynedd, gyda 193 wedi'u cyfeirio yn 2017, er ei bod yn bosib bod cynnydd eleni oherwydd gwelliant mewn casglu data. Hefyd nid yw'n bosibl datod cofnodi gwell o gynnydd gwirioneddol.

Roedd data newydd yn dangos bod oddeutu un rhan o dair o oedolion wedi clywed am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Mae nifer y babanod sydd wedi eu brechu yn parhau yn uchel a sefydlog. Am y degfed blwyddyn yn olynol, roedd y nifer gafodd eu brechu gyda'r '5 mewn 1' a'r brechiadau niwmococol cyfun yn parhau i fod yn uwch na 95 y cant mewn plant blwydd oed, tra bod y nifer gafodd y brechlyn MMR ychydig o dan 95% ar gyfer y dos cyntaf yn ddwyflwydd oed.

Roedd dros 21,000 o fyfyrwyr rhyngwladol o dros 160 o wledydd mewn sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru yn 2016/17. Mae hwn yn ostyngiad o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Roedd gostyngiad bychan yn nifer y ceiswyr lloches yn 2017, er bod ffigurau wedi cynyddu ar y cyfan ers 2011. Hyd at Fawrth 2018 mae cyfanswm o 720 o ffoaduriaid o Syria wedi eu hadsefydlu yng Nghymru o dan y Cynllun Adsefydlu Personau Bregus.

## Y Cyd-destun Byd-eang – Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig

Ar 1 Ionawr 2016, dechreuodd y byd roi Agenda Datblygu Cynaliadwy 2030 ar waith. Cynllun gweithredu trawsffurfiol yw'r agenda hon, sy'n seiliedig ar [17 Nod Datblygu Cynaliadwy (NDCau)] – i fynd i'r afael â heriau brys byd-eang dros y 15 mlynedd nesaf.  Mae'r NDCau yn pwysleisio agenda gyffredinol sy'n gofyn i aelod-wladwriaethau'r Cenhedloedd Unedig - yn gyfoethog ac yn dlawd - i gymryd camau i gefnogi datblygu cynaliadwy.

Mae nifer o ffactorau sy'n pennu a yw Cymru'n dod yn genedl sy'n fwy cyfrifol ar lefel fyd-eang.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gyda'i nodau llesiant sy'n benodol i Gymru, yn darparu fframwaith i gyfraniad Cymru at sicrhau Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig. At ei gilydd, mae'r chwe adroddiad naratif arall, wrth asesu ein cynnydd tuag ar y nodau llesiant cenedlaethol, yn pennu ein cyfraniad cyffredinol fel cenedl tuag at yr agenda datblygu cynaliadwy rhyngwladol. Er enghraifft, rydym yn adrodd mewn man arall ar tueddiadau cenedlaethol mewn materion fel tlodi, anghydraddoldebau a gwaith addas. Mae'r naratif hwn ar "Gymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang" isod yn canolbwyntio ar feysydd sydd fwyaf perthnasol i'r agenda fyd-eang yn arbennig.

Mae'r 46 Dangosydd Cenedlaethol ar gyfer Cymru hefyd wedi'u mapio at ddibenion dangosol yn erbyn y 17 Nod Datblygu Cynaliadwy i'ch helpu chi i ganfod eich ffordd rhwng y cynnydd yma yng Nghymru, a'r cysylltiad â phob un o'r NDCau.





| Rhif | Dangosydd | Dolen |
|---|---|---|
| 4 | Lefelau llygredd nitrogen deuocsid (NO2) yn yr aer | |
| 6 | Mesur o ddatblygiad plant bach | |
| 7 | Sgôr pwyntiau 9 cyfartalog wedi'i gapio y disgyblion, gan gynnwys y bwlch rhwng y rhai sydd â hawl i brydau ysgol a... | |

Dangosyddion cenedlaethol – Mapio y Nodau Llesiant a Nodau Datblygu Cynaliadwy y CU

Sylwer: Daw rhywfaint o’r naratif o’r Dangosyddion Cenedlaethol ac ystadegau swyddogol, ond mae rhywfaint o’r data a gyflwynir yn yr adran hon yn ddata cyd-destunol ac yn defnyddio data neu ddatganiadau ffeithiol sy’n berthnasol i bolisïau neu raglenni penodol, os ydym wedi ystyried ei fod yn berthnasol i’r naratif cyffredinol. Mae hefyd yn cynnwys rhywfaint o ddyblygu, gyda detholiadau o dudalennau nodau eraill. Ni chasglwyd y data yna o ffynonellau ystadegau swyddogol felly er bod wedi eu hadrodd yma ar gyfer cyd-destun, ni allwn roi sicrhad am ansawdd y data. Fodd bynnag, ble y bo’n bosibl, mae rhagor o wybodaeth am y data i’w gael yn “Adroddiad Ansawdd am wybodaeth gyd-destunol”.

**Mae pobl yng Nghymru yn poeni am newid yn yr hinsawdd**

Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016-17 yn dangos bod 67 y cant o bobl yn bryderus am newid yn yr hinsawdd, gyda’r mwyafrif helaeth yn ystyried bod hynny’n rhannol neu’n bennaf oherwydd gweithgaredd dynion. Dywedodd 47 y cant o’r bobl a gafodd eu holi eu bod wedi defnyddio llai o ynni yn y cartref yn ystod y 12 mis diwethaf, ac roedd 25 y cant wedi dechrau defnyddio car yn llai aml. Fodd bynnag, dim ond 3 y cant ddywedodd eu bod wedi mynd ati i wirfoddoli i helpu i warchod yr amgylchedd. Hefyd, wrth i aelwydydd unigol gydweithredu â’r awdurdodau lleol, mae cyfraddau ailgylchu’r awdurdodau hynny’n parhau i godi.







**Mae allyriadau nwyon tŷ gwydr wedi gostwng ers yr 1990au**

Gan ystyried nwyon tŷ gwydr, yn 2016, amcangyfrifwyd bod cyfanswm yr allyriadau yn cyfateb[127] â 47.8 miliwn o dunelli o garbon deuocsid ($CO_2$), sef gostyngiad o 14 y cant o gymharu ag allyriadau blwyddyn sylfaen 1990. Mae’r data diweddaraf yn dangos cynnydd mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr yn 2016 o gymharu â 2015, sy’n bennaf oherwydd yr adferiad mewn cynhyrchu pŵer nwy naturiol yn dilyn nifer o achlysuron pan nad oedd y cyflenwad ar gael er mwyn gwella effeithlonrwydd yn ystod 2015.

Mae’r gostyngiad mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr yn ystod y cyfnod hwn yn bennaf o ganlyniad i’r canlynol:

- arbedion o ran cynhyrchu ynni a gwresogi’r sector busnes
- nwy naturiol yn cymryd lle glo
- lleihad yn y diwydiant cemegol
- amrywiadau mewn allbynnau gweithgynhyrchu (e.e. haearn a dur, swmpgynhyrchu cemegau)

[127] Greenhouse Gas Inventories for England, Scotland, Wales & Northern Ireland: 1990-2016

Mae tua dau draean o allyriadau nwyon tŷ gwydr bellach o ganlyniad i gyflenwi, busnes a diwydiant ynni.

Bydd y data sy'n gysylltiedig ag allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n deillio o ddefnyddio nwyddau a gwasanaethau yng Nghymru yn cael ei gynhyrchu yn y dyfodol yn unol â gofynion adran 41 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ar ddiwedd y cyfnod cyllidebu carbon cyntaf.

**Bu cynnydd o ran cynhyrchu ynni adnewyddadwy ac mae peth tystiolaeth bod cartrefi'n dod yn fwy effeithlon o ran defnyddio ynni**

Mae defnydd o ddulliau carbon isel o gynhyrchu ynni (mae ynni adnewyddadwy yn un o'r ffurfiau hyn) ynghyd â defnyddio ynni'n fwy effeithlon yn helpu i'n gwneud yn gydnerth i wynebu newid, yn ecolegol ac yn economaidd. Mae gostyngiad yn y galw am gynhyrchu ynni o danwydd ffosil yn helpu i gyfyngu ar allyriadau nwyon tŷ gwydr a fydd yn effeithio ar yr amgylchedd ac ar newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol.

Mae gallu o ran cynhyrchu ynni adnewyddadwy wedi cynyddu yn y ddegawd ddiwethaf gan gyflymu yn y blynyddoedd diwethaf. Dangosodd astudiaeth ddiweddar o gynhyrchu ynni yng Nghymru[128] bod 3,357 megawat (MW) o gapasiti cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn 2016. Mae mwyafrif helaeth yr ynni hwnnw'n drydan adnewyddadwy (85 y cant neu 2,854 MW) tra bod capasiti gosodiadau gwresogi adnewyddadwy wedi bron dyblu yn y ddwy flynedd ddiwethaf i gyrraedd 504 megawat (MW).

O ran y mathau o dechnolegau ar gyfer ynni adnewyddadwy sy'n cael eu gosod, tyfodd y gallu fwyaf rhwng 2014 a 2016 mewn paneli solar PV (mwy na dyblu) a gwynt ar y tir (cynnydd o 50 y cant). Er bod y gallu ar gyfer gosodiadau gwres adnewyddadwy yn weddol isel o gymharu â thrydan adnewyddadwy, gwelwyd cynnydd o 65 y cant yn y cyfnod hwn o ran gallu gosodiadau biomas a chynnydd o 52 y cant yng ngallu pympiau gwres.

**Mae priddoedd Cymru yn storfa garbon bwysig sy'n amddiffyn rhag newid yn yr hinsawdd**

Agwedd gynyddol bwysig ar bridd yw'r crynodiad o garbon. Mae hyn oherwydd bod pridd yn gallu dal carbon am filoedd o flynyddoedd a helpu i amddiffyn y ddaear[129] rhag newid yn yr hinsawdd.

Amcangyfrifir bod priddoedd Cymru yn storio rhyw 410 miliwn o dunelli[130] o garbon. Yn gyffredinol, mae'r crynodiad carbon yn ein pridd yn sefydlog. Yn ôl y ffigurau diweddaraf[131] o 2013-16, roedd y crynodiad o garbon a deunydd organig mewn uwchbridd yn 107.4 gram o garbon y Kg (gC y Kg). Nid yw hyn yn wahanol yn arwyddocaol i'r crynodiadau a ganfuwyd ym 1998 a 2007: 109.1 a 109.4 gram o garbon y kg, yn y drefn honno.

---

128 Cynhyrchu Ynni yng Nghymru 2016, Llywodraeth Cymru
129 European Environment Agency, soil and climate change article
130 Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR) 2016: Asesu'r modd y rheolir adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Adroddiad Technegol Pennod 3 Crynodeb o'r Adroddiad SoNaRR Crynodeb o faint, cyflwr a thueddiadau adnoddau naturiol ac ecosystemau yng Nghymru
131 Crynodeb o Ganlyniadau Rhaglen Monitro a Gwerthuso Glastir

**Mae ein hôl troed ecolegol yn dangos bod ein hadnoddau naturiol allweddol yn cael eu dihysbyddu'n gyflymach nag y gellir eu hadnewyddu**

Mae ôl troed ecolegol gwlad yn cynrychioli'r arwynebedd tir sydd ei angen i ddarparu deunyddiau crai, ynni a bwyd i gyflenwi'r wlad honno yn ogystal â lleihau effaith y llygredd a'r gwastraff a gynhyrchir. Caiff ei fesur mewn hectarau byd-eang. Mae'n gwasanaethu fel dangosydd o gyfanswm y baich amgylcheddol y mae cymdeithas yn ei roi ar y blaned.

Cyfrifwyd yr ôl troed ecolegol diwethaf ar gyfer Cymru yn 2011 ac yr oedd yn 10.05 miliwn hectar byd-eang[132]. Yn fras, mae hyn tua 5 gwaith maint Cymru ac yn gyfystyr â 3.28 hectar byd-eang y person yng Nghymru.

Pe byddai pawb yn y byd yn defnyddio'r un faint â phreswylydd cyffredin Cymru, amcangyfrifir y byddai angen ychydig dros 2.5 planed fel y ddaear i ddarparu'r adnoddau a lleihau effaith y gwastraff. Mae hyn ychydig yn is na'r ffigur ar gyfer y Deyrnas Unedig, sef 2.7 daear.

**Mae gwastraff bwyd cartrefi wedi bod yn gostwng**

Mae gan Nod Datblygu Cynaliadwy y CU "Defnyddio a Chynhyrchu Cyfrifol" darged ar gyfer lleihau gwastraff bwyd.

Cyhoeddodd Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau (WRAP)[133] ddata ar Wastraff Bwyd Cartrefi ym mis Ionawr 2017. Nododd yr adroddiad fod tystiolaeth o ostyngiad (12 y cant y pen) mewn gwastraff bwyd cartrefi rhwng 2009 a 2015 a bod y lefel bellach yn is nag yng ngweddill y DU (rhyw 9 y cant yn is).

Awgrymodd yr adroddiad hefyd fod sawl rheswm pam y gallai lefelau o wastraff bwyd cartrefi fod yn is yng Nghymru nag yng ngweddill y DU. Ymhlith y rhesymau hynny oedd bod awdurdodau lleol yng Nghymru yn well o ran casglu gwastraffu bwyd ar wahân ac yn gwneud hynny'n fwy eang. Mae gwasanaeth casglu gwastraff bwyd ar wahân ar gael i ryw 90 y cant o aelwydydd Cymru[134] o gymharu ag ychydig yn fwy na 25 y cant yn y DU gyfan. Gwelwyd hefyd, ar ôl mesur cyfran y gwastraff bwyd a gesglir o aelwydydd gan ddefnyddio'r dull casglu hwn, fod llawer mwy o ddefnydd o'r gwasanaeth yng Nghymru nag yn y DU gyfan.

[132] Adroddiad ôl-troed ecolegol Cymru, Llywodraeth Cymru
[133] Household food waste in the UK, 2015, WRAP
[134] Household food waste in the UK, 2015, WRAP

**Mae rhai oedolion yng Nghymru yn wynebu tlodi bwyd ac yn bryderus ynghylch medru fforddio bwyd**

Mae Nod Datblygu Cynaliadwy y CU "Dim Newyn" yn anelu at ddod â newyn i ben ac i sicrhau diogelwch bwyd a gwella maeth.

Mae gwaith ymchwil yn dangos, yng Nghymru, nad yw pobl yn datgan eu bod yn dioddef tlodi bwyd. Nodwyd yn Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016-17 bod 1 y cant o aelwydydd wedi derbyn bwyd o fanc bwyd yn y 12 mis diwethaf. Yn 2017-18, nodwyd hefyd bod 4 y cant o oedolion yn datgan bod diwrnod yn y bythefnos ddiwethaf ble y bu'n rhaid iddynt fynd heb bryd digonol oherwydd diffyg arian[135].

Cyhoeddodd yr Asiantaeth Safonau Bwyd bod 20 y cant o bobl Cymru yn poeni ynghylch diffyg bwyd, ac yn y 12 mis diwethaf roedd 14 y cant wedi gorffen eu bwyd cyn iddynt allu fforddio prynu mwy[136].

**Mae tri safle treftadaeth y byd o werth cyffredinol eithriadol yng Nghymru**

Mae Nod Datblygu Cynaliadwy y CU 'Dinasoedd a Chymunedau Cynaliadwy' yn nodi pwysigrwydd gwarchod a diogelu treftadaeth naturiol y byd.

Mae Safleoedd Treftadaeth y Byd yn fannau y mae Pwyllgor Treftadaeth Byd UNESCO (Sefydliad Addysg, Gwyddoniaeth a Diwylliant y Cenhedloedd Unedig) wedi'u cofrestru ar restr o safleoedd rhyngwladol oherwydd eu gwerth cyffredinol eithriadol, sydd mor bwysig, eu bod yn croesi ffiniau cenedlaethol.

Mae tri safle treftadaeth y byd[137] yng Nghymru ar hyn o bryd — Cestyll a Muriau Trefi Edward I yng Ngwynedd, yng Nghaernarfon, Conwy, Biwmares a Harlech yng ngogledd orllewin Cymru; Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon yn ne ddwyrain Cymru; a Thraphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte yng ngogledd ddwyrain Cymru. Nid oes yr un o'r safleoedd hyn wedi'u rhestru mewn perygl gan UNESCO yn unol ag Erthygl 11 (4) y Confensiwn.

**Mae ysgolion yng Nghymru yn cymryd rhan mewn rhaglenni i baratoi plant ar gyfer byd sy'n newid ac i arwain newid**

Mae Nod Datblygu Cynaliadwy y CU 'Addysg o Ansawdd' yn cydnabod pwysigrwydd pob dysgwr yn cael y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i hyrwyddo datblygu cynaliadwy gan gynnwys ffordd o fyw cynaliadwy, hawliau dynol, cydraddoldeb rhywiol a dinasyddiaeth fyd-eang.

Mae eco-ysgolion yn rhaglen fyd-eang sy'n cynnwys miliynau o blant o 67 o wledydd. Mae wedi ei chynllunio i rymuso ac ysbrydoli pobl ifanc i wneud newidiadau amgylcheddol positif i'w hysgol a'r gymuned ehangach, tra'n ychwanegu at eu sgiliau allweddol, gan gynnwys rhifedd a llythrennedd, a chwmpasu Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF). Mae 51,000 o ysgolion mewn 67 o wledydd yn cymryd rhan yn y rhaglen Eco-ysgolion ar hyn o bryd. Yng Nghymru, roedd 97 y cant o holl ysgolion y wladwriaeth yn 2017/18 wedi cofrestru ar y rhaglen Eco-Sgolion wirfoddol sy'n cael ei

135 Canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru
136 Food Security in Wales: Adroddiad NatCen i'r Asiantaeth Safonau Bwyd
137 UNESCO World Heritage List

chynnal gan Cadwch Gymru'n Daclus. Mae modd i eco-ysgolion gael statws Efydd, Arian, Baner Werdd a Platinwm. Roedd 784 o ysgolion Baner Werdd, gyda 381 o'r rhain yn cyrraedd statws Platinwm yn 2017/18, ar gyfer ymrwymiad hirdymor i'r rhaglen[138].

Mae Rhaglen Dysgu Byd-eang Cymru (RhDB-C) wedi'i chynllunio i ddatblygu a gwreiddio dysgu byd-eang (Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF)), yn arbennig wrth ddatblygu plant a phobl ifanc yn ddinasyddion moesegol a gwybodus Cymru a'r byd. Ers 2014, mae RhDB-C wedi recriwtio, hyfforddi ac ariannu ysgolion arweiniol gydag arbenigedd dysgu byd-eang i gydlynu rhwydweithiau lle mae athrawon o ysgolion lleol yn rhannu arferion, arbenigedd ac adnoddau effeithiol. Mae yna 49 o ysgolion arweiniol RhDB-C a 445 o ysgolion rhwydwaith RhDB-C, roedd 53 y cant o ddisgyblion ar y gofrestr yng Nghymru yn rhan o RhDB-C[139].

**Prin ymwybyddiaeth sydd ymhlith oedolion o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn**

Mae Arolwg Cenedlaethol 2017-18 yn dangos bod 34 y cant o oedolion wedi clywed am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae'r ffigur yn debyg ar gyfer oedolion gyda phlant ar yr aelwyd a'r rhai sydd heb blant[140].

**Mae pobl yn cymryd rhan mewn prosiectau datblygu cynaliadwy rhyngwladol**

Mae Nod Datblygu Cynaliadwy y CU 'Dim Tlodi' yn cydnabod yr angen i leihau'r gyfran o bobl sy'n byw mewn tlodi, gan gynnwys methu â chael mynediad i wasanaethau sylfaenol a sicrhau cydnerthedd pobl dlawd a'r rhai mewn sefyllfaoedd bregus.

Bwriad rhaglen Cymru o Blaid Affrica Llywodraeth Cymru yw cefnogi pobl i gymryd rhan weithredol mewn datblygu rhyngwladol drwy weithio a chydweithio ag unigolion, cymunedau, y trydydd sector a'r sector cyhoeddus er mwyn i Gymru gyfrannu at fynd i'r afael â thlodi byd-eang.

Roedd Adroddiad 10 mlynedd Cymru o Blaid Affrica yn dangos, ers 2007, bod dros 160 o reolwyr ac arweinwyr o Gymru wedi cymryd rhan yn y Rhaglen Cyfleoedd Dysgu Rhyngwladol, gan rannu 47,300 awr o brofiad â phartneriaid yn Affrica. Ers 2006, mae 528 o wahanol brosiectau datblygu ar draws 25 o wledydd Affrica wedi'u cefnogi.

Mae enghreifftiau o rai o'r cynlluniau yn cynnwys cysylltu gweithwyr proffesiynol a sefydliadau, darparu addysg neu hyfforddiant i helpu pobl i ddatblygu sgiliau newydd a chefnogi eu hunain a chynnig atebion i dlodi.

Prif egwyddor y Rhaglen Cyfleoedd Dysgu Rhyngwladol yw sicrhau bod lleoliadau yn cyd-fynd â'r Nodau Datblygu Cynaliadwy.

---

[138] Data heb ei gyhoeddi – darparwyd yr ystadegau ar gais gan Cadw Cymru'n Daclus
[139] Education Development Trust, Annual Report, 2016-17
[140] Canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru 2017/18, Llywodraeth Cymru

**Mae nifer y dioddefwyr caethwasiaeth fodern posib sy'n cael eu hatgyfeirio yng Nghymru wedi cynyddu yn y blynyddoedd diweddar**

Mae NDCau'r Cenhedloedd Unedig yn cynnwys targed "Rhoi terfyn ar gaethwasiaeth fodern a masnachu pobl". Mae caethwasiaeth yn drosedd difrifol ac mae'n gam difrifol yn erbyn hawliau dynol. Caethwasiaeth fodern yw'r term a ddefnyddir o fewn y DU a chaiff ei ddiffinio o fewn Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015. Mae'r Ddeddf yn categoreiddio troseddau Caethwasiaeth, Gwasanaethfraint a Llafur dan Orfod neu Orfodol a Masnachu Pobl.

Mae'r troseddau hyn yn cynnwys cadw person fel caethwas, gwasanaethfraint, llafur dan orfod neu orfodol, neu eu helpu i deithio gyda'r bwriad o'u camddefnyddio yn fuan wedi hynny.

Er bod masnachu pobl yn aml yn golygu elfen o groesi ar draws ffiniau rhyngwladol, mae hefyd yn bosibl bod yn ddioddefwr caethwasiaeth fodern o fewn eich gwlad eich hun[141]

Yn ôl yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (NCA), mae nifer y dioddefwyr caethwasiaeth posib sy'n cael eu cofnodi drwy'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol (MAC) yn parhau i gynyddu bob blwyddyn, gyda mwy o oroeswyr yn cael eu hatgyfeirio o'r Deyrnas Unedig a Chymru. Mae'r NCA yn barnu bod graddfa Caethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl yn y Deyrnas Unedig yn debygol o fod yn cynyddu'n raddol, ond ni all ddatgysylltu'r cynnydd yn y gyfradd achosion oddi wrth well adrodd. Felly nid ydynt yn gallu meintioli twf cyffredinol caethwasiaeth fodern.

Yn 2017, adroddwyd am 193 o ddioddefwyr caethwasiaeth posib yng Nghymru[142]. Mae hyn yn gynnydd o 57 y cant o'r flwyddyn flaenorol, ac mae hefyd yn uwch na'r blynyddoedd blaenorol, ond mae'r cynnydd yn y flwyddyn ddiweddaraf yn debyg o fod oherwydd newidiadau mewn sut cofnodwyd y data. Mae'n cynrychioli 3.7 y cant o holl atgyfeiriadau'r Deyrnas Unedig. Roedd y 193 o atgyfeiriadau yn cynnwys 106 o fenywod (55 y cant) ac 87 o wrywod (45 y cant). Cafodd 109 (56 y cant) o unigolion eu hatgyfeirio o dan gategorïau cam-fanteisio ar oedolion ac 84 (44 y cant) o dan gategorïau cam-fanteisio ar blentyn o dan oed.

**Mae anffurfio organau cenhedlu benywod yn cael ei nodi fwyfwy yng Nghymru, er nad yw o bosibl wedi digwydd yn ddiweddar neu yng Nghymru**

Mae gan Nod Datblygu Cynaliadwy y CU 'Cydraddoldeb y Rhywiau' darged i gael gwared ar arferion niweidiol, megis priodasau plant, cynnar a gorfodol ac anffurfio organau cenhedlu benywod.

Mae Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (sy'n cael ei alw'n enwaedu benywod ar brydiau) yn cyfeirio at weithdrefnau sy'n fwriadol yn newid neu'n achosi niwed i organau cenhedlu benywod am resymau anfeddygol. Mae'r arferiad yn anghyfreithlon yn y DU o dan Ddeddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003 a'r Ddeddf Troseddau Difrifol 2015 ac mae'n orfodol i staff y GIG hysbysu'r heddlu o bob achos mewn plant (o dan 18) Mae'n bwysig nodi, os gwelir bod claf sy'n derbyn gofal gan y GIG wedi dioddef anffurfio yr organau cenhedlu, nid yw hyn yn golygu ei bod wedi dioddef hyn yn ddiweddar na bod y drosedd wedi ei chyflawni yn y DU.

[141] National Crime Agency website

[142] Modern Slavery and Human Trafficking: National Referral Mechanism Statistics Annual Report 2017, Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol

Yn 2017-18 roedd cyfanswm o 271 o achosion o fenywod a merched wedi'u nodi a'u cofnodi fel achosion o anffurfio'r organau cenhedlu. Mae hyn yn cymharu â 174 ar gyfer y flwyddyn flaenorol. Mae'r cynnydd yn debygol o adlewyrchu y cynnydd o ran gweithwyr iechyd proffesiynol yn sylwi ar hyn.[143]

**Mae nifer y plant ifanc sy'n cael eu brechu yn parhau yn uchel**

Mae nod Datblygu Cynaliadwy y CU 'Iechyd a Lles' yn datgan pwysigrwydd cynnig meddyginiaethau a brechlynnau fforddiadwy a hanfodol. Mae gan Sefydliad Iechyd y Byd nod byd-eang hefyd i ddileu y frech goch a rwbela, erbyn 2020.

Yn 2017-18, roedd nifer y plant ifanc oedd yn cael eu brechu yn parhau i fod yn uchel a sefydlog[144]. Am y degfed blwyddyn yn olynol, mae nifer y plant sy'n cael y brechlynau '5 mewn 1' a'r niwmococol cyfun yn parhau i fod uwchben 95 y cant mewn plant blwydd oed.

Mae cyfran y plant oedd wedi cael eu brechu gyda'r brechlynau arferol erbyn pedair blwydd oed yn parhau i fod yn sefydlog, yn dilyn gostyngiad tair blynedd yn olynol.

Mae'r nifer a gafodd y brechiad MMR ychydig o dan 95 y cant ar gyfer y dos cyntaf yn ddwyflwydd oed.

**Mae'r Gymraeg yn rhan o gyd-destun ieithoedd lleiafrifol byd-eang**

Y Siarter Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol neu Ieithoedd Lleiafrifol yw'r confensiwn Ewropeaidd ar gyfer amddiffyn a hyrwyddo ieithoedd a ddefnyddir gan leiafrifoedd traddodiadol. Mae'r Gymraeg o fewn cwmpas y siarter ac mae cynnal yr iaith yng Nghymru yn cyfrannu at amddiffyn ieithoedd lleiafrifol y byd. Yn dilyn y gostyngiad yng Nghyfrifiad 2011, mae data arolygon ers hynny wedi dangos bod nifer y siaradwyr Cymraeg wedi aros yn sefydlog, ac felly hefyd y ganran sydd yn siarad yr iaith bob dydd.

**Mae gan Gymru gysylltiadau academaidd ac ymchwil rhyngwladol eang, er bod nifer y myfyrwyr rhyngwladol yng Nghymru wedi gostwng yn ddiweddar**

Mae gan Gymru bedair prifysgol sydd yn y 500 uchaf yn y QS World University Rankings. Yn ôl asesiad diweddaraf y Fframwaith Ymchwil a Rhagoriaeth (REF) cafodd mwy na thri-chwarter pob gwaith ymchwil sy'n cael ei gyflwyno i baneli'r REF ei asesu fel gwaith arloesol neu ragorol yn rhyngwladol[145].

Mae nifer fawr o fyfyrwyr o amrywiaeth o wledydd mewn sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru. Yn 2016/17, roedd 21,205 o fyfyrwyr rhyngwladol o dros 160 o wledydd, yn cynnwys 17.5 o gyfanswm y boblogaeth o fyfyrwyr. Mae hyn wedi gostwng yn y 5 mlynedd ddiwethaf; yn 2011/12 roedd 25,270 o fyfyrwyr rhyngwladol yng Nghymru, oedd yn golygu 19.3 y cant o'r boblogaeth o fyfyrwyr[146].

[143] Gwefan Iechyd y Cyhoedd Cymru
[144] Vaccine update in children in Wales, Iechyd y Cyhoedd Cymru
[145] Wales and the World, Cymdeithas Ddysgedig Cymru
[146] StatsCymru a Data HESA Dadansoddi 2016-17 Llywodraeth Cymru

**Cymru yn cynnig cymorth i geiswyr lloches a ffoaduriaid**

Nod 16 Nodau Datblygu Cynaliadwy y CU yw "hyrwyddo cymdeithasau heddychlon a chynhwysol ar gyfer datblygiad cynaliadwy, sicrhau cyfiawnder i bawb a chreu sefydliadau effeithiol, atebol a chynhwysfawr ar bob lefel".

Nid oes ffigurau cyflawn ar gyfer nifer y ceiswyr lloches a'r ffoaduriaid sy'n cael eu hadsefydlu yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r ffigurau sy'n gysylltiedig â nifer y ffoaduriaid sy'n cael eu hadsefydlu o dan Raglen Adsefydlu Syria, a nifer y ceiswyr lloches sy'n derbyn cymorth, yn cael eu cyhoeddi.

Ar ddiwedd 2017, roedd bron 3,000 o geiswyr lloches yn derbyn cymorth yng Nghymru [147]. Er bod gostyngiad bychan o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, mae'r niferoedd wedi cynyddu'n gyffredinol bob blwyddyn ers ffigur isel yn 2011, ac yn debyg i lefelau y pwynt uchel blaenorol yn 2006[148].

Ar ddiwedd Mawrth 2018, mae cyfanswm o 720 o ffoaduriaid o Syria wedi eu hadsefydlu yng Nghymru o dan y Cynllun Adsefydlu Personau Bregus[149].

[147] Support through the Home Office's Section 95 Scheme. Gweler y Section 95 Support Factsheet am ragor o wybodaeth.
[148] Immigration statistics, year ending March 2018, tabl fel 16g, y Swyddfa Gartref
[149] Immigration statistics, year ending March 2018, table fel 20g, y Swyddfa Gartref

# Cefndir

## Beth yw'r adroddiad hwn?

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd sy'n cael ei wneud yng Nghymru tuag at gyflawni'r 7 nod llesiant. Mae'n adroddiad statudol sy'n ofynnol dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'n adroddiad sy'n edrych ar gynnydd Cymru gyfan fel gwlad. Nid yw'n adroddiad am berfformiad sefydliad unigol. Cyhoeddwyd yr adroddiad cyntaf ym mis Medi 2017.

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ceisio gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Y bwriad yw gwneud i gyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf feddwl mwy ynghylch y tymor hir, gan weithio'n well gyda phobl a chymunedau, a gyda'i gilydd, mynd ati i atal problemau, a gweithredu mewn ffordd fwy cyson. Bwriad hyn yn ei dro yw gwneud Cymru yn wlad yr ydym i gyd yn awyddus i fyw ynddi, nawr ac yn y dyfodol.

Mae'r Ddeddf hefyd yn gosod saith nod llesiant ar gyfer Cymru fwy llewyrchus, iach, cydnerth, cyfartal a chyfrifol ar lefel byd-eang, gyda chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, fel y gwelir yn Ffigur 1 (tab 'Datganiad cyfredol').

Ceir rhagor o wybodaeth gefndir am y Ddeddf yn yr Hanfodion.

### Beth yw dangosyddion cenedlaethol Cymru?

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod dangosyddion cenedlaethol i asesu'r cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant. Rhwng mis Medi 2015 a mis Ionawr 2016 cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus eang i nodi pa gyfres fach o ddangosyddion y dylid eu datblygu i fesur cynnydd yn erbyn y nodau llesiant. Cyhoeddwyd y dangosyddion cenedlaethol hyn ym mis Mawrth 2016 ac fe'u gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Lluniwyd y dangosyddion cenedlaethol i gynrychioli'r canlyniadau i Gymru a'i phobl a fydd yn helpu i ddangos y cynnydd tuag at y 7 nod llesiant. Nid oes bwriad iddynt fod yn ddangosyddion perfformiad ar gyfer sefydliad unigol.

Ceir disgrifiad llawn o'r dangosyddion cenedlaethol gan gynnwys eu diffiniad technegol a gwybodaeth am ffynonellau data ac amlder yn y dogfen dechnegol.

### Beth yw'r berthynas â Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig?

Mae Agenda Datblygu Cynaliadwy 2030 yn gynllun gwaith trawsnewidiol wedi'i seilio ar 17 o Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig - i roi sylw i heriau argyfyngus byd-eang dros y 15 mlynedd nesaf. Mae nodau byd-eang y Cenhedloedd Unedig yn golygu y bydd yn rhaid i bob gwlad ar y blaned weithredu i drechu tlodi, hyrwyddo llewyrch a llesiant i bawb, diogelu'r amgylchedd a rhoi sylw i'r newid yn yr hinsawdd. Bwriedir i'r nodau hyn fod yn rhai pellgyrhaeddol, cyffredinol a thrawsnewidiol, sy'n canolbwyntio ar bobl. Mae aelod-wladwriaethau'r Cenhedloedd Unedig wedi ymrwymo i weithio'n ddiflino i'w rhoi ar waith erbyn 2030, ac fe fydd Cymru'n chwarae ei rhan.

Bydd nifer o ddangosyddion cenedlaethol yn helpu i adrodd hanes cynnydd yng Nghymru yn erbyn un o Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig. Rydym wedi mapio'r dangosyddion yn erbyn y nodau.

Dan y bennod ar gyfrifoldeb byd-eang rydym wedi amlygu rhai o'r dangosyddion a'r cyd-destun sy'n ymwneud yn uniongyrchol â Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig o safbwynt cyfraniad Cymru.

**Pam ein bod wedi llunio adroddiad ar wahân ar gyfer plant?**

Nid yw Arolwg Cenedlaethol Cymru, ffynhonnell 14 o'r dangosyddion, yn edrych ar blant dan 16 oed. Ar gyfer rhai dangosyddion rydym wedi defnyddio mesurau gwahanol, ond tebyg, o ffynonellau eraill (er enghraifft llesiant meddyliol neu arolwg chwaraeon ysgolion). Mewn ymateb i'r adborth a ddaeth i law wrth ymgynghori ar y dangosyddion cenedlaethol, dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi bod yn gweithio gyda chydweithwyr ym Mhrifysgol Caerdydd i ddefnyddio'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion i ddatblygu ein dadansoddiad o lesiant plant mewn meysydd fel unigrwydd a chanfyddiad am ddiogelwch. Mae adroddiad eleni felly yn cynnwys dadansoddiad ychwanegol ar lesiant plant yn seiliedig ar y ffynhonnell hon, yn ogystal ag Astudiaeth Carfan y Mileniwm a ffynonellau eraill fel data ar blant mewn aelwydydd di-waith o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ac asesiad dechreuol y Cyfnod Sylfaen.

**Cerrig milltir cenedlaethol**

Yn ogystal â gosod Dangosyddion Cenedlaethol, mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod Cerrig Milltir Cenedlaethol i helpu i fesur a yw cynnydd yn cael ei wneud ar lefel genedlaethol tuag at gyflawni'r nodau llesiant. Ym mis Gorffennaf 2018, cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid gynlluniau i ymgynghori yn ddiweddarach eleni ar y meini prawf ar gyfer dewis cerrig milltir ac ar gynigion ynghylch pa ddangosyddion allai fod yn gysylltiedig â cherrig milltir.

**Pwy gynhyrchodd yr adroddiad hwn?**

Cynhyrchwyd yr adroddiad hwn gan ystadegwyr Llywodraeth Cymru, dan arweiniad Prif Ystadegydd Llywodraeth Cymru. Cafodd ei gynhyrchu yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau, felly mae'n annibynnol ar unrhyw ddylanwad gwleidyddol.

**Amseroldeb**

Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn ym mis Medi er mwyn sicrhau ei fod mor agos â phosib at ddiwedd y flwyddyn ariannol flaenorol, ond ar ôl cyhoeddi Arolwg Cenedlaethol Cymru, sef ffynhonnell 14 o'r dangosyddion cenedlaethol.

Bydd data'r dangosyddion cenedlaethol yn cael eu cadw mor gyfredol â phosib wrth i setiau data newydd gael eu cyhoeddi ar gyfer y dangosyddion hynny. Ym mis Medi bob blwyddyn byddwn yn cyhoeddi diweddariad o adroddiad blynyddol Llesiant Cymru gan gynnwys diweddariad i'r naratif ar gyfer pob nod.

**Cwmpas**

Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar Gymru. Ar gyfer rhai dangosyddion, cyfeirir at y sefyllfa o gymharu â'r DU. Mae'r naratif yn erbyn y nodau ac ar gyfer pob un o'r dangosyddion wedi'u seilio ar gynnydd cenedlaethol yn erbyn y nodau, ac nid yw'n ceisio darparu adroddiad ar gynnydd ar lefelau daearyddol gwahanol. Fodd bynnag, mae data sawl un o'r dangosyddion ar gael ar StatsCymru, neu ar gais, ar lefelau daearyddol manylach.

**Hygyrchedd**

Cynhyrchwyd yr adroddiad hwn yn bennaf fel adroddiad rhyngweithiol ar-lein er mwyn manteisio i'r eithaf ar effaith ac effeithlonrwydd defnyddio gwasanaethau data agored Llywodraeth Cymru. Cynhyrchwyd fersiwn flynyddol o'r adroddiad hefyd yn cynnwys y saith adroddiad cynnydd yn erbyn y nodau fel PDF i'w argraffu.

Mae'r rhan fwyaf o'r data sy'n sail i'r adroddiad, gan gynnwys y manylion, ar gael ar StatsCymru a thrwy wasanaethau data agored StatsCymru.

**A yw'r holl ddata'n Ystadegau Swyddogol?**

Mae'r rhan fwyaf o'r dangosyddion (33) wedi'u seilio ar ffynonellau a gyhoeddwyd fel Ystadegau Swyddogol, hynny yw sydd wedi'u cyhoeddi gan ystadegwyr y Llywodraeth, neu gyrff cyhoeddus eraill, dan y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol.

Mae 28 o'r dangosyddion wedi'u seilio ar ffynonellau a gyhoeddwyd fel Ystadegau Gwladol. Hynny yw mae Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig wedi pennu'r ystadegau hyn fel Ystadegau Gwladol, gan ddangos cydymffurfiaeth gyda'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol. Golyga hyn eu bod yn bodloni'r safonau uchaf o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth cyhoeddus.

Mae 12 o ddangosyddion wedi'u seilio ar ffynonellau eraill, fel data gweinyddol a gedwir gan adrannau'r llywodraeth. Nid oes data ar gyfer 1 o'r dangosyddion.

Er nad yw'r holl ffynonellau data a ddefnyddir yn ystadegau swyddogol, mae'r adroddiad ei hun wedi'i ddatblygu a'i gyhoeddi yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol. Cyn cyhoeddi adroddiad 2019 byddwn yn ceisio cael dynodiad Ystadegau Gwladol drwy asesiad gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau.

Mae rhywfaint o'r naratif yn yr adroddiad ynghylch cyfrifoldeb byd-eang wedi'i seilio ar ddatganiadau ffeithiol ynghylch gweithredu rhaglenni a pholisi. Ni chasglwyd y data o ffynonellau ystadegau swyddogol, ac er eu bod yn cael eu hadrodd yma i roi cyd-destun, nid oes modd i ni ddarparu sicrwydd am ansawdd y data. Mae'r Adroddiad ansawdd ar gyfer gwybodaeth gyd-destunol yn rhoi rhagor o wybodaeth, lle bo ar gael, am y data a ddefnyddiwyd fel gwybodaeth gyd-destunol yn naratif y nodau.

**Beth arall ddylwn i ei wybod am y data?**

Mae'r Adroddiad Ansawdd wrth ochr y datganiad hwn yn darparu dolenni at wybodaeth am ansawdd bob un o'r ffynonellau data a ddefnyddir i fesur dangosyddion cenedlaethol, neu'n rhoi'r wybodaeth honno os nad yw ar gael rywle arall.

**Pwy yw defnyddwyr yr adroddiad hwn?**

Disgwylir i'r adroddiad gael ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru; Cynulliad Cenedlaethol Cymru (gan gynnwys Aelodau'r Cynulliad a phwyllgorau); y cyfryngau; a'r cyhoedd yn gyffredinol i (i) helpu i ddeall Llesiant Cymru (ii) y cynnydd yn erbyn y 7 nod llesiant a (iii) lle mae Cymru'n gwneud cynnydd yn erbyn Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig.

Pan fydd y dangosyddion cenedlaethol a'r cerrig milltir wedi'u cyhoeddi, gallant helpu cyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i gyfraith cenedlaethau'r dyfodol ddeall yn well natur y newid disgwyliedig wrth gyflawni'r nodau llesiant. Dylid ystyried y dangosyddion cenedlaethol fel tystiolaeth ddefnyddiol i helpu cyrff cyhoeddus i ddeall pa brif feysydd sydd angen gweld cynnydd mewn perthynas â'r nodau llesiant.

Bydd swyddogaeth benodol gan y dangosyddion cenedlaethol hefyd gan y bydd yn rhaid i fyrddau gwasanaethau cyhoeddus Cymru gyfeirio atynt wrth ddadansoddi cyflwr economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol eu hardaloedd.

Dylai'r adroddiad hefyd gael ei ddefnyddio gan gyrff cyhoeddus er mwyn datblygu ac adolygu asesiadau llesiant ac i osod ac adolygu amcanion llesiant gofynnol dan Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Rhaid i'n hadroddiad llesiant blynyddol hefyd gael ei ystyried gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru wrth baratoi a chyhoeddi 'Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol'.

**Cyd-destun y DU**

Ar gyfer y DU yn gyfan, mae gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol Raglen Llesiant Genedlaethol. Mae'r cyhoeddiad "Measuring National well-being: Quality of Life in the UK, 2018" yn asesu cynnydd y DU yn erbyn cyfres o brif ddangosyddion llesiant cenedlaethol.

Yn yr Alban, mae Fframwaith Perfformiad Cenedlaethol yn gosod gweledigaeth ar gyfer llesiant cenedlaethol ac yn mesur yr hyn a gyflawnwyd mewn perthynas â hyn. Lansiwyd y Fframwaith newydd ar 11 Mehefin 2018 yn dilyn proses adolygu eang ac agored, ac mae ganddo sail statudol (Deddf Ymrymuso'r Gymuned (yr Alban) 2015).

Defnyddir amrywiol ddangosyddion i asesu cynnydd tuag at y Diben a'r Canlyniadau Cenedlaethol. Maent yn darparu mesur cyffredinol o lesiant cenedlaethol, gan gynnwys amrywiol ddangosyddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.

Ceir adroddiadau am berfformiad ar wefan newydd y fframwaith sy'n cael ei diweddaru cyn gynted ag y bydd data newydd ar gael. Mae'n cynnwys perfformiad ar grwpiau cydraddoldebau ac anghydraddoldebau fesul ardal.

Yng Ngogledd Iwerddon, y prif system ar gyfer asesu llesiant cymdeithasol yw fframwaith llesiant o 12 canlyniad a ddatblygwyd gan y Weinyddiaeth flaenorol, a fu'n destun ymgynghoriad ac a fireiniwyd yn ystod 2016-2017. Mae'r fframwaith hwn, sy'n cynnwys 49 o ddangosyddion poblogaeth ategol, yn cynnwys Cynllun Cyflawni Canlyniadau Gwasanaeth Sifil Gogledd Iwerddon ac adroddir ar y cynnydd o ran y canlyniadau a'r dangosyddion ar hyn o bryd drwy Ddangosydd Canlyniadau.

Mae Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon yn parhau i gymryd rhan yn y rhaglen Mesur Llesiant Cenedlaethol dan arweiniad y Swyddfa Ystadegau Gwladol, ac yn cyhoeddi dadansoddiad llesiant ar sail mesurau llesiant y Swyddfa Ystadegau Gwladol pan fo data ar gael ar gyfer Gogledd Iwerddon.

**Dolenni perthnasol eraill**

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
Tueddiadau'r dyfodol
Arolwg Cenedlaethol Cymru
Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig

# Llesiant Cymru

## Dangosyddion Cenedlaethol ar gyfer Cymru

### Y saith nod llesiant ar gyfer Cymru

| Nod 1 | Nod 2 | Nod 3 | Nod 4 | Nod 5 | Nod 6 | Nod 7 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymru lewyrchus | Cymru gydnerth | Cymru iachach | Cymru sy'n fwy gyfartal | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |

### A ffordd rydym yn mesur cynnydd

| | Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol ar gyfer Cymru | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01 | Canran y genedigaethau byw sengl â phwysau geni islaw 2,500g | | | ■ | ■ | | | |
| 02 | Disgwyliad oes iach adeg geni gan gynnwys y bwlch rhwng y bobl fwyaf a lleiaf amddifadus | | | ■ | ■ | | | |
| 03 | Y ganran o'r oedolion sydd â llai na dau ymddygiad iach o ran eu ffordd o fyw | | | ■ | ■ | ■ | ■ | |
| 04 | Lefelau llygredd nitrogen deuocsid (NO2) yn yr aer | ■ | ■ | ■ | | | | ■ |
| 05 | Y ganran o'r plant sydd â llai na dau ymddygiad iach o ran eu ffordd o fyw | | | ■ | ■ | ■ | | |
| 06 | Mesur o ddatblygiad plant bach | ■ | | | ■ | ■ | ■ | |
| 07 | Y ganran o'r disgyblion sydd wedi cyflawni'r "Trothwy Lefel 2" gan gynnwys Cymraeg iaith gyntaf neu Saesneg a Mathemateg, gan gynnwys y bwlch rhwng disgyblion sy'n gymwys a disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim | ■ | | | ■ | | ■ | |
| 08 | Y ganran o'r oedolion â chymwysterau ar y gwahanol lefelau yn y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol | ■ | | ■ | ■ | | | |
| 09 | Gwerth Ychwanegol Gros am bob awr a weithir (o'i gymharu â chyfartaledd y DU) | ■ | | | | | | |
| 10 | Incwm Gwario Gros Aelwydydd y pen | ■ | | ■ | ■ | | | |
| 11 | Y ganran o'r busnesau sydd wrthi'n arloesi | ■ | ■ | | | | | ■ |
| 12 | Capasiti (mewn MW) yr offer ynni adnewyddadwy sydd wedi'i osod | ■ | ■ | | | ■ | | ■ |
| 13 | Crynodiad carbon a deunydd organig mewn pridd | ■ | ■ | | | | | ■ |
| 14 | Ôl Troed Ecolegol Cymru | ■ | ■ | | | | | ■ |
| 15 | Swm y gwastraff a gynhyrchir ac na chaiff ei ailgylchu, y pen | ■ | ■ | | | ■ | | ■ |

| | |
|---|---|
| 16 | Y ganran o'r bobl sydd mewn gwaith, sydd ar gontractau parhaol (neu ar gontractau dros dro, ac nad ydynt yn ceisio gwaith parhaol) ac sy'n ennill mwy na 2/3 o gyflog canolrifol y DU. |
| 17 | Y gwahaniaeth cyflog rhwng y rhywiau |
| 18 | Y ganran o'r bobl sy'n byw mewn aelwydydd mewn tlodi incwm o'i gymharu â chanolrif y DU, wedi'i fesur ar gyfer plant, pobl o oedran gweithio a phobl o oedran pensiwn |
| 19 | **Y ganran o'r bobl sy'n byw mewn aelwydydd mewn amddifadedd materol** |
| 20 | Y ganran o'r bobl sy'n dweud eu bod yn fodlon neu'n fodlon iawn yn eu gwaith |
| 21 | Y ganran o'r bobl sydd mewn gwaith |
| 22 | Y ganran o'r bobl mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, wedi'i mesur ar gyfer gwahanol grwpiau oedran |
| 23 | Y ganran sy'n teimlo'u bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol |
| 24 | Y ganran o'r bobl sy'n fodlon ar eu gallu i gyrraedd/ cael at y cyfleusterau a'r gwasanaethau y mae eu hangen arnynt |
| 25 | Y ganran o'r bobl sy'n teimlo'n ddiogel gartref, wrth gerdded yn yr ardal leol, ac wrth deithio |
| 26 | Y ganran o'r bobl sy'n fodlon ar yr ardal leol fel lle i fyw |
| 27 | Y ganran o'r bobl sy'n cytuno eu bod yn perthyn i'r ardal; bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda; a bod pobl yn trin ei gilydd â pharch |
| 28 | Y ganran o'r bobl sy'n gwirfoddoli |
| 29 | Sgôr llesiant meddyliol cymedrig ar gyfer pobl |
| 30 | Y ganran o'r bobl sy'n unig |
| 31 | Y ganran o'r anheddau sydd heb beryglon |
| 32 | Nifer yr unedau eiddo (cartrefi a busnesau) sydd mewn perygl uchel a chanolig o lifogydd sy'n deillio o afonydd a'r môr |
| 33 | Y ganran o'r anheddau gyda pherfformiad ynni digonol |
| 34 | Nifer yr aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag bod yn ddigartref am bob 10,000 o aelwydydd |
| 35 | Y ganran o'r bobl sy'n bresennol neu'n cyfranogi mewn gweithgareddau ym maes y celfyddydau, diwylliant neu dreftadaeth o leiaf deirgwaith y flwyddyn |
| 36 | Y ganran o'r bobl sy'n siarad Cymraeg yn feunyddiol ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg |
| 37 | Y ganran o'r bobl sy'n gallu siarad Cymraeg |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **38** | Y ganran o’r bobl sy’n cyfranogi mewn gweithgareddau chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos | | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | |
| **39** | Y ganran o’r amgueddfeydd ac archifau sy’n dal casgliadau archifol/treftadaeth sy’n cyrraedd safonau achredu’r DU | | | | | | ■ | ■ |
| **40** | Y ganran o asedau dynodedig yr amgylchedd hanesyddol sydd mewn cyflwr sefydlog neu well | | ■ | | | | ■ | ■ |
| **41** | Allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru | ■ | ■ | ■ | | | | ■ |
| **42** | Allyriadau nwyon tŷ gwydr sydd i’w priodoli i ddefnyddio nwyddau a gwasanaethau byd-eang yng Nghymru | ■ | ■ | ■ | | | | ■ |
| **43** | Ardaloedd o ecosystemau iach yng Nghymru | ■ | ■ | ■ | | ■ | ■ | ■ |
| **44** | Statws amrywiaeth Fiolegol yng Nghymru | ■ | ■ | | | ■ | ■ | ■ |
| **45** | Y ganran o'r cyrff dŵr wyneb, a’r cyrff dŵr daear, sy’n cyrraedd statws da neu uchel ar y cyfan | | ■ | ■ | | ■ | ■ | ■ |
| **46** | Yr adenillion cymdeithasol ar fuddsoddiadau gan bartneriaethau Cymreig yng Nghymru a’r tu allan i’r DU sy’n gweithio tuag at Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ |

## Gwybodaeth Bellach

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod saith nod llesiant ar gyfer Cymru. Os ydym am gyflawni’r nodau lles hyn ar y cyd, mae angen ffordd o fesur cynnydd er mwyn i ni gyd allu gweld a ydy pethau’n gwella ar gyfer Cymru gyfan. Dyna pam y mae’r Ddeddf yn gosod gofyniad cyfreithiol ar Weinidogion Cymru i bennu dangosyddion cenedlaethol. Er bod y dangosyddion yn cael eu pennu gan Weinidogion Cymru, maent yn adlewyrchu Cymru gyfan ac yn ein galluogi i ddeall cyfraniad pawb.

Dylid darllen y ddogfen wybodaeth dechnegol ar gyfer y dangosyddion cenedlaethol (*Sut mae mesur cynnydd cenedl – Dangosyddion Cenedlaethol ar gyfer Cymru: Dogfen Dechnegol*, Mawrth 2016) a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ochr yn ochr â’r 46 dangosydd cenedlaethol a gyhoeddwyd ac a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mawrth 2015.

Bydd sawl dangosydd cenedlaethol yn helpu i adrodd stori am gynnydd yn erbyn mwy nag un o’r nodau llesiant, ac i helpu chi fynd i’r afael â’r cysylltiadau hyn rydym wedi tynnu sylw at set bosibl o gysylltiadau rhwng dangosyddion cenedlaethol a nodau llesiant, at ddibenion cyfathrebu. Mae’r tabl hwn wedi ei baratoi at ddibenion cyfathrebu a thrafod yn unig, nid yw hyn yn golygu o reidrwydd bod cyswllt technegol neu gyfreithiol uniongyrchol nac anuniongyrchol rhwng y dangosyddion a’r nodau llesiant.

| | |
|---|---|
| Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 | http://llyw.cymru/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/ |
| Animeiddiad | https://www.youtube.com/watch?v=rFeOYlxJbmw&feature=player_embedded |
| Dangosyddion Cenedlaethol Cymru | http://llyw.cymru/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/national-indicators |
| Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol Cymru | www.cenedlaethaurdyfodol.cymru/ |

# Agenda 2030
# Cymru a'r Nodau Datblygu Cynaliadwy

## Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig




## Cymru


| | Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol ar gyfer Cymru | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 | 16 | 17 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01 | Canran y genedigaethau byw sengl â phwysau geni islaw 2,500g | | | ■ | | | | | | | ■ | | | | | | | |
| 02 | Disgwyliad oes iach adeg geni gan gynnwys y bwlch rhwng y bobl fwyaf a lleiaf amddifadus | | | ■ | | ■ | | | | | ■ | | | | | | | |
| 03 | Y ganran o'r oedolion sydd â llai na dau ymddygiad iach o ran eu ffordd o fyw | | ■ | ■ | | | | | | | ■ | ■ | | | | | | |
| 04 | Lefelau llygredd nitrogen deuocsid (NO2) yn yr aer | | | ■ | | | | | | ■ | | ■ | ■ | ■ | | ■ | | |
| 05 | Y ganran o'r plant sydd â llai na dau ymddygiad iach o ran eu ffordd o fyw | | ■ | ■ | | | | | | | ■ | ■ | | | | | | |

| | |
|---|---|
| 06 | Mesur o ddatblygiad plant bach |
| 07 | Sgôr pwyntiau 9 cyfartalog wedi'i gapio y disgyblion, gan gynnwys y bwlch rhwng y rhai sydd â hawl i brydau ysgol am ddim a'r rhai sydd a dim hawl |
| 08 | Y ganran o'r oedolion â chymwysterau ar y gwahanol lefelau yn y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol |
| 09 | Gwerth Ychwanegol Gros am bob awr a weithir (o'i gymharu â chyfartaledd y DU) |
| 10 | Incwm Gwario Gros Aelwydydd y pen |
| 11 | Y ganran o'r busnesau sydd wrthi'n arloesi |
| 12 | Capasiti (mewn MW) yr offer ynni adnewyddadwy sydd wedi'i osod |
| 13 | Crynodiad carbon a deunydd organig mewn pridd |
| 14 | Ôl Troed Ecolegol Cymru |
| 15 | Swm y gwastraff a gynhyrchir ac na chaiff ei ailgylchu, y pen |
| 16 | Y ganran o'r bobl sydd mewn gwaith, sydd ar gontractau parhaol (neu ar gontractau dros dro, ac nad ydynt yn ceisio gwaith parhaol) ac sy'n ennill mwy na 2/3 o gyflog canolrifol y DU. |
| 17 | Y gwahaniaeth cyflog rhwng y rhywiau |
| 18 | Y ganran o'r bobl sy'n byw mewn aelwydydd mewn tlodi incwm o'i gymharu â chanolrif y DU, wedi'i fesur ar gyfer plant, pobl o oedran gweithio a phobl o oedran pensiwn |
| 19 | Y ganran o'r bobl sy'n byw mewn aelwydydd mewn amddifadedd materol |
| 20 | Y ganran o'r bobl sy'n dweud eu bod yn fodlon neu'n fodlon iawn yn eu gwaith |
| 21 | Y ganran o'r bobl sydd mewn gwaith |
| 22 | Y ganran o'r bobl mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, wedi'i mesur ar gyfer gwahanol grwpiau oedran |

| | |
|---|---|
| 23 | Y ganran sy'n teimlo'u bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol |
| 24 | Y ganran o'r bobl sy'n fodlon ar eu gallu i gyrraedd/ cael at y cyfleusterau a'r gwasanaethau y mae eu hangen arnynt |
| 25 | Y ganran o'r bobl sy'n teimlo'n ddiogel gartref, wrth gerdded yn yr ardal leol, ac wrth deithio |
| 26 | Y ganran o'r bobl sy'n fodlon ar yr ardal leol fel lle i fyw |
| 27 | Y ganran o'r bobl sy'n cytuno eu bod yn perthyn i'r ardal; bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda; a bod pobl yn trin ei gilydd â pharch |
| 28 | Y ganran o'r bobl sy'n gwirfoddoli |
| 29 | Sgôr llesiant meddyliol cymedrig ar gyfer pobl |
| 30 | Y ganran o'r bobl sy'n unig |
| 31 | Y ganran o'r anheddau sydd heb beryglon |
| 32 | Nifer yr unedau eiddo (cartrefi a busnesau) sydd mewn perygl uchel a chanolig o lifogydd sy'n deillio o afonydd a'r môr |
| 33 | Y ganran o'r anheddau gyda pherfformiad ynni digonol |
| 34 | Nifer yr aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag bod yn ddigartref am bob 10,000 o aelwydydd |
| 35 | Y ganran o'r bobl sy'n bresennol neu'n cyfranogi mewn gweithgareddau ym maes y celfyddydau, diwylliant neu dreftadaeth o leiaf deirgwaith y flwyddyn |
| 36 | Y ganran o'r bobl sy'n siarad Cymraeg yn feunyddiol ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg |
| 37 | Y ganran o'r bobl sy'n gallu siarad Cymraeg |
| 38 | Y ganran o'r bobl sy'n cyfranogi mewn gweithgareddau chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos |



| | |
|---|---|
| 39 | Y ganran o'r amgueddfeydd ac archifau sy'n dal casgliadau archifol/treftadaeth sy'n cyrraedd safonau achredu'r DU |
| 40 | Y ganran o asedau dynodedig yr amgylchedd hanesyddol sydd mewn cyflwr sefydlog neu well |
| 41 | Allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru |
| 42 | Allyriadau nwyon tŷ gwydr sydd i'w priodoli i ddefnyddio nwyddau a gwasanaethau byd-eang yng Nghymru |
| 43 | Ardaloedd o ecosystemau iach yng Nghymru |
| 44 | Statws amrywiaeth Fiolegol yng Nghymru |
| 45 | Y ganran o'r cyrff dŵr wyneb, a'r cyrff dŵr daear, sy'n cyrraedd statws da neu uchel ar y cyfan |
| 46 | Yr adenillion cymdeithasol ar fuddsoddiadau gan bartneriaethau Cymreig yng Nghymru a'r tu allan i'r DU sy'n gweithio tuag at Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig |



**Nodau Datblygu Cynaliadwy**
Mae Agenda Datblygu Cynaliadwy 2030 yn gynllun gwaith trawsnewidiol wedi'i seilio ar 17 o Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig - i roi sylw i heriau argyfyngus byd-eang dros y 15 mlynedd nesaf. Mae nodau byd-eang y Cenhedloedd Unedig yn golygu y bydd yn rhaid i bob gwlad ar y blaned weithredu i drechu tlodi, hyrwyddo llewyrch a llesiant i bawb, diogelu'r amgylchedd a rhoi sylw i'r newid yn yr hinsawdd. Bwriedir i'r nodau hyn fod yn rhai pellgyrhaeddol, sy'n canolbwyntio ar bobl, sy'n berthnasol i bawb ac yn drawsnewidiol. Mae aelod-wladwriaethau'r Cenhedloedd Unedig wedi ymrwymo i weithio'n ddiflino i'w rhoi ar waith erbyn 2030, ac fe fydd Cymru'n chwarae ei rhan.

**Cymru a'r Nodau Datblygu Cynaliadwy**
Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ddeddfwriaeth unigryw i Gymru. Mae'r Ddeddf yn darparu fframwaith i ni yng Nghymru i fod yn gyfrifol ar lefel fyd-eang ac i gyfrannu'n gadarnhaol i'r nodau byd-eang hyn. Mae'n gosod nodau llesiant, gan fynd i'r afael â llawer o'r heriau byd-eang hyn y mae pobl a chymunedau yn eu hwynebu ledled Cymru. Caiff y saith nod llesiant hyn eu mesur trwy 46 o ddangosyddion cenedlaethol.

Bydd sawl dangosydd cenedlaethol yn helpu i adrodd stori am gynnydd yng Nghymru yn erbyn mwy nag un o Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig, ac i helpu chi fynd i'r afael â'r cysylltiadau hyn rydym wedi tynnu sylw at hyn uchod, at ddibenion cyfathrebu. Mae'r tabl hwn wedi ei baratoi at ddibenion cyfathrebu a thrafod yn unig, nid yw hyn yn golygu o reidrwydd bod cyswllt technegol neu gyfreithiol

uniongyrchol nac anuniongyrchol rhwng y dangosyddion a Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig. Mae'n seiliedig ar y dangosyddion sydd wedi eu pennu gan y Cenhedloedd Unedig i fesur y nodau datblygu cynaliadwy byd-eang.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | http://llyw.cymru/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/ | Animeiddio | https://www.youtube.com/watch?v=rFeOYlxJbmw&feature=player_embedded |
| Dangosyddion Cenedlaethol Cymru | http://llyw.cymru/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/national-indicators | Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig | https://sustainabledevelopment.un.org/ |